Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 11eg Gorffennaf, 2023 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac yn rhithiol dros Zoom. |
| **PWYNT CYSWLLT** | Rhodri Jones<br><br>01286 679256 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig Siencyn | Arweinydd y Cyngor |
| Nia Wyn Jeffreys | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Beca Brown | Aelod Cabinet Addysg |
| Berwyn Parry Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Elin Walker Jones | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Menna Trenholme | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 MEHEFIN | | | 4 - 14 |
| 6 | CYHOEDDI RHYBUDD STATUDOL AR Y CYNNIG I GAU YSGOL FELINWNDA AR 31 RHAGFYR 2023, A'R DISGYBLION PRESENNOL I DROSGLWYDDO I YSGOL AMGEN CYFAGOS, SEF YSGOL BONTNEWYDD NEU YSGOL LLANDWROG, YN UNOL Â DEWIS RHIENI, O 1 IONAWR 2024 | Cyng. Beca Brown | Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Cynhorthwyol Addysg: Sector Cynradd) | 15 - 67 |
| 7 | ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2022-23 | Cyng. Menna Trenholme | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol | 68 - 80 |
| 8 | MABWYSIADU LLAWLYFR CYNNAL PRIFFYRDD | Cyng. Berwyn Parry Jones | Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC) | 81 - 128 |
| 9 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD | Cyng. Elin Walker Jones | Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) | 129 - 131 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 10 | ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT | Cyng. Dilwyn Morgan | Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) | 132 - 136 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 13 MEHEFIN 2023**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Craig ab Iago, Elin Walker Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas a Menna Trenholme.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Aeron Morgan (Pennaeth Cyllid) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

| | |
|---|---|
| Eitem 6: | Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) a Rebeca Angharad Jones (Rheolwr Cynllunio (Polisi Cynllunio ar y Cyd)). |
| Eitem 7 | Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) a Heledd Fflur Jones (Arweinydd Tîm (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn)). |
| Eitem 8 | Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol Addysg: Gwasanaethau Corfforaethol) a Gwyn Tudur (Pennaeth Cynorthwyol Addysg: Uwchradd). |
| Eitemau 9 a 10 | Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau). |
| Eitem 11 | Carys Fôn Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo). |

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2023 fel rhai cywir.

## 6. TREFNIANT LLYWODRAETHU AR GYFER Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD A MATERION POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Model Llywodraethu yn Atodiad 1 ar gyfer paratoi y Cynllun Datblygu Lleol i'w cynnwys yn y Cytundeb Cyflawni Drafft.

Cytunwyd i sefydlu Gweithgor Polisi Cynllunio 15 aelod gyda'r Cylch Gorchwyl (Atodiad 2) i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Dirprwywyd hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud addasiadau ieithyddol a man gywiriadau golygyddol i'r Cylch Gorchwyl.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd ar yr angen i sefydlu trefniant llywodraethu newydd ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd a materion polisi cynllunio ar gyfer Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd, yn dilyn penderfyniadau i ddirwyn trefniadau cyd weithio ffurfiol gyda Chyngor Sir Ynys Môn i ben.

Eglurwyd bod y broses o sefydlu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ran o swyddogaeth ar y cyd rhwng y Cabinet a'r Cyngor Llawn. Nodwyd bod y broses hon yn waith dros gyfnod o oddeutu pedair blynedd a bod angen i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol, paratoi canllawiau Cynllun Atodol yn ogystal â gwaith polisi cynllunio cyffredinol. Nodwyd pwysigrwydd bod yr holl aelodau yn cymryd perchnogaeth dros ddatblygiadau'r gwaith hwn.

Awgrymwyd sefydlu Gweithgor Polisi Cynllunio gydag aelodaeth o 15 Aelod Cyngor Gwynedd, yn seiliedig ar ddyraniad gwleidyddol, er mwyn cefnogi'r broses o greu a chynnal y Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd mai rhai o brif swyddogaethau'r cylch gorchwyl fyddai:

- Darparu barn ac arweiniad ar ddogfennau drafft y Gwasanaeth Polisi Cynllunio yn ogystal â dogfennau drafft y Canllawiau Cynllunio Atodol, cyn i'r gwasanaeth gwneud trefniadau am adborth gyhoeddus.
- Darparu barn ac arweiniad ar sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp neu fforwm budd-ddeiliaid yn ystod cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriadau eraill ym mhrosesau'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol.
- Darparu barn ac arweiniad ar Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol ac unrhyw ddogfen sy'n cael ei baratoi fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Cadarnhawyd bod gan Y Cabinet, Y Cyngor Llawn a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau rôl oddi fewn y prosesau hyn a rhannwyd amserlen o'r broses. Cadarnhawyd bod gofyniad statudol i'r broses hyn gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn dwywaith o fewn y cyfnod o bedair blynedd. Ymhelaethwyd bod swyddogion y Gwasanaeth wedi amserlennu i'r diweddariadau cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn bedair gwaith oddi fewn y cyfnod hwn, er mwyn cyd fynd gyda chamau allweddol ac i sicrhau bod yr Aelodau'n perchnogi'r broses ddatblygu.

Nodwyd bydd holl aelodau'r Cyngor yn derbyn sesiynau codi ymwybyddiaeth drwy gydol y broses pan fu'n amserol i wneud hynny.

Adroddwyd byddai'r broses llywodraethol hyn yn adlewyrchiad o'r trefniant blaenorol ar y cyd gyda Cyngor Sir Ynys Môn. Ymhelaethwyd bod nifer helaeth o awdurdodau lleol eraill yn defnyddio trefniant tebyg i'r hyn a argymhellwyd yn yr adroddiad.

**7. CYFLWYNO CYFARWYDDYD ERTHYGL 4 ER MWYN GALLUOGI RHEOLI'R TROSGLWYDDIAD MEWN DEFNYDD O DAI PRESWYL I DDEFNYDD GWYLIAU (AIL-GARTREFI A LLETY GWYLIAU)**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

1. Cymeradwywyd Papur Cyfiawnhau Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Atodiad 1.

2. Cymeradwywyd gwneud Cyfarwyddyd Erthygl 4 sydd ddim yn dod i rym yn uniongyrchol ond wedi 12 mis (Atodiad 2) ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd er mwyn diddymu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y defnyddiau canlynol:
    a. Newid defnydd o C3 (prif gartref) i C5 (ail gartel) neu C6 (llety gwyliau tymor byr) a defnyddiau cymysg penodol;
    b. Newid defnydd o C5 (ail gartref) i C6 (llety gwyliau tymor byr) a defnyddiau cymysg penodol;
    c. Newid defnydd o C6 (llety gwyliau tymor byr) i C5 (ail gartref) a defnyddiau cymysg penodol.

3. Cytunwyd bydd rhybudd o'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar y ffurf yn Atodiad 3 i'w gyhoeddi a chyflwyno yn unol â'r gofynion (gan dderbyn nad yw yn ymarferol i gyflwyno yn unigol i bob perchennog a meddiannwr o fewn yr ardal oherwydd ei maint) am gyfnod o ddim llai na chwe wythnos er caniatáu i'r cyhoedd gyflwyno ymatebion i'r bwriad.

4. Cytunwyd i dderbyn adroddiad pellach i ystyried unrhyw ymatebion a dderbyniwyd (yn dilyn y cyfnod ymgysylltu) er mwyn gwneud y penderfyniad i gadarnhau y Cyfarwyddyd Erthygl 4.

5. Dirprwywyd hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud addasiadau golygyddol i'r rhybudd cyn ei gyhoeddi.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd nad oedd modd, yn hanesyddol, i reoli os oedd cartref yn cael ei drosi i'w ddefnyddio fel ail gartref neu llety gwyliau hunangynhaliol. Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dosbarthiadau defnydd newydd (C5 – ail gartref ac C6 – llety gwyliau tymor byr), ond nid oes gofyniad presennol am ganiatâd cynllunio cyn newid dosbarth defnydd ar gartref.

Eglurwyd byddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn galluogi Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd i osod gofyniad am ganiatâd cynllunio cyn i berchnogion allu diwygio ddosbarth defnydd eu cartref. Pwysleisiwyd nad oes gofyniad am ganiatâd cynllunio os yw'r perchennog yn bwriadu diwygio dosbarth defnydd eu cartref o C5 neu C6 yn ôl i brif gartref (dosbarth defnydd C3), oni bai fod cais gwreiddiol wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar gyfer defnydd C5 neu C6 yn flaenorol.

Pwysleisiwyd mai prif fwriad y Cyngor wrth gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ond i gael rheolaeth dros newid dosbarthiadau defnydd, nid i atal datblygiadau rhag mynd yn eu blaen.

Darparwyd trosolwg o Bapur Cyfiawnhau Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthyl 4 gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Dadansoddwyd y sefyllfa bresennol gan fanylu ar sut mae'r defnydd o dai gwyliau wedi datblygu dros y bedair mlynedd ddiwethaf.
    - Adroddwyd bod cynnydd yn niferoedd lletyau gwyliau dros y cyfnod hwn. Nodwyd hefyd bod lleihad yn nifer o dai sy'n talu premiwm ail gartrefi.
- Cadarnhawyd bod 7509 o dai (12% o'r stoc dai) yn ail gartrefi neu lety gwyliau. Ystyriwyd bod posibilrwydd i'r ffigwr hwn fod yn eithaf ceidwadol oherwydd bod Arolwg Stoc Gwelyau a gwblhawyd gan y Cyngor yn 2019, ar y cyd gyda gwybodaeth gan Croeso Cymru, yn awgrymu bod darpariaeth o lety gwyliau yn unig yn 3700-4500 mewn cyfnodau brig.
- Nodwyd bod newid i'w weld yn ardal Bangor dros y bedair blynedd ddiwethaf. Eglurwyd bod cynnydd canrannol o 143% o fewn y cyfnod hwn o dai yn cael eu defnyddio fel ail dai neu lety gwyliau (o 0.97% i 2.38%), gan awgrymu bod newid yn narpariaeth ail dai a llety gwyliau mewn ardaloedd dinesig y Sir yn ogystal â'r ardaloedd arfordirol.
- Ystyriwyd yr effaith ar yr iaith Gymraeg, cyfleusterau cymunedol a prisiau tai mewn cymunedau gydag niferoedd uchel o ail gartrefi neu lety gwyliau.
- Cadarnhawyd bod tua 65.5% o boblogaeth Gwynedd, ar gyfartaledd, wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai. Eglurwyd bod yr ystadegyn yma yn gallu diwygio o ardal i ardal – megis Abersoch, ble mae 96% o'r boblogaeth wedi cael eu prisio allan o'r farchnad dai yn sgil dwysedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau.
- Casglwyd bod cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn hanfodol er mwyn ceisio gwyrdroi sgil effeithiau llety gwyliau ac ail dai ar ein cymunedau ac i sicrhau tegwch a chyfleoedd i unigolion Gwynedd.

Nodwyd bu ystyriaeth i bedwar opsiwn posibl er mwyn cyfiawnhau cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, sef:

- Opsiwn 1: Dwyfor (ardal beilot y Llywodraeth)
- Opsiwn 2: Ardaloedd ble fo'r ddarpariaeth bresennol o gartrefi gwyliau yn fwy na 15% o'r stoc dai.

- Opsiwn 3: Ardaloedd Bregus (ardaloedd sydd dan fygythiad)
- Opsiwn 4: Gwynedd gyfan (Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd)

Cadarnhawyd mai Opsiwn 4 (Gwynedd Gyfan - Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd) sydd wedi cael ei ddewis er mwyn gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4. Eglurwyd bod yr opsiwn hwn wedi cael ei ddewis gan fod gweithredu'r Cyfarwyddyd yn broses ddigynsail ac nid oes modd rhagweld yn llawn beth fydd sgil effeithiau ei gyflwyno. Ymhelaethwyd ei fod yn bwysig gwarchod y stoc dai er mwyn sicrhau bod tai addas ar gael i drigolion Gwynedd a bydd cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn y modd hwn yn helpu i sicrhau'r amcan hwnnw.

Eglurwyd y bwriedir cyflwyno rhybudd o'r bwriad i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ac bydd modd i'r cyhoedd leisio'u barn ar y bwriad hwn. Nodwyd bod gwefan penodol wedi cael ei wneud ar gyfer y mater hwn, gyda holl ddogfennaeth berthnasol wedi cael ei uwchlwytho iddo, ac mae modd i'r wefan gael ei archwilio yn Siop Gwynedd a Llyfrgelloedd Gwynedd. Ymhellach, nodwyd bydd sesiwn codi ymwybyddiaeth yn cael ei gynnal i holl aelodau'r Cyngor pan fu'n briodol.

Eglurwyd byddai'r gorchymyn Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dod i rym ar 1af Medi, 2024 er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredol â gofynion Llywodraethol ac i sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i geisiadau am iawndal.

Rhannwyd pryder nad yw ardaloedd Parc Cenedlaethol Eryri yn cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar hyn o bryd. Er hyn, sicrhawyd bod swyddogion yn cydweithio'n agos gyda'r Parc ond yn cydnabod bod sefyllfa'r Parc yn wahanol i Wynedd oherwydd ei fod wedi ei leoli dros ddau awdurdod lleol gwahanol.

Diolchwyd i holl swyddogion Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd am eu gwaith arloesol i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Nodwyd bod y swyddogion yn arwain ar y gwaith hwn dros Gymru gyfan ac bod cyfathrebu cyson gydag awdurdodau eraill er mwyn cyflwyno gofynion tebyg mewn Siroedd eraill.

**8. YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU – CYNIGION AR GYFER BIL ADDYSG GYMRAEG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad Papur Gwyn – Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg, Llywodraeth Cymru.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod y Bil Addysg Gymraeg hon yn cynnig sylfaen i ddarparu addysg Gymraeg i bob plentyn yng Nghymru. Nodwyd byddai hyn cynyddu niferoedd o siaradwyr Cymraeg hyderus ac yn normaleiddio'r Gymraeg mewn ysgolion.

Nodwyd bod Gwynedd eisoes wedi llwyddo i normaleiddio'r Gymraeg drwy gynnig addysg Gymraeg i holl blant y Sir, ac wedi datblygu system addysg drochi lwyddiannus er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu ymdoddi i'r awyrgylch Gymreig hon.

Eglurwyd bod dyhead Cyngor Gwynedd yn aml yn uwch na'r gofynion statudol sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru ac mae hynny'n gosod sail i awdurdodau eraill i ymroddi i'r iaith.

Ymfalchïwyd bod y Bil hwn yn arwain awdurdodau eraill i gyfeiriad cyffelyb â Gwynedd oherwydd bydd cynnig addysg Gymraeg i bawb yn gwaredu problemau anghyfartaledd ieithyddol a diffyg cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg.

**9. CYFRIFON TERFYNOL 2022/23 – ALLDRO REFENIW**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

1.1 Nodwyd sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2022/23.

1.2 Cymeradwywyd symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1), sef:

| **ADRAN** | **£'000** |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 100 |
| Plant a Theuluoedd | 76 |
| Addysg | (96) |
| Economi a Chymuned | 0 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 100 |
| Amgylchedd | 6 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 0 |
| Tai ac Eiddo | 0 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (17) |
| Cyllid | (10) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (16) |

1.3 Cymeradwywyd argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn Atodiad 2):

- Yn yr Adran Addysg, fod £1,304k o gostau ychwanegol chwyddiant trydan a chyflogau cymorthyddion a staff gweinyddol yn yr ysgolion sydd uwchlaw'r gyllideb yn cael eu cyllido o falansau'r ysgolion unigol.

- Yn yr Adran Tai ac Eiddo fod £2,482k o'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r pwysau ychwanegol yn y maes Digartrefedd.

- Cymorth ariannol o £550k i'r Adran Economi a Chymuned gan fod sgil effaith Covid wedi amharu ar lefelau incwm Cwmni Byw'n Iach.

- Yr adrannau canlynol sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un-tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario 'mlaen gan yr Adran i £100k:
    a. £3,785k – Oedolion, Iechyd a Llesiant
    b. £2,434k – Priffyrdd a Bwrdeistrefol

- Ar gyllidebau Corfforaethol:
    a. Defnyddio (£2,851k) o'r tanwariant net Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2022/23.
    b. Fod (£3,899k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf
    c. Gyda gweddill y tanwariant net o (£952k) ar gyllidebau Corfforaethol yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Trawsffurfio i gyllideb blaenoriaethau'r Cyngor.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adroddiad o'r cronfeydd, gan gynaeafu (£3,918k) o gronfeydd a'i ddefnyddio yn ei gyfanrwydd i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2022/23.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod yr adroddiad yn manylu ar wariant y Cyngor yn y flwyddyn ariannol 2022/23 yn ogystal â'r sefyllfa alldro tanwariant neu orwariant.

Cadarnhawyd bod gorwariant gan 7 adran ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23. Ymhelaethwyd mod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn gan gynnwys prisiau ynni cynyddol, methiannau i wireddu arbedion a chwyddiant cyflogau. Manylwyd a'r gorwariant amlycaf mewn 5 adran:

- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – eglurwyd bod £3.9 miliwn o orwariant oherwydd costau staffio'r adran a'r defnydd o staff asiantaeth. Yn ogystal roedd pwysau ar lety cefnogol a phecynnau taliadau uniongyrchol yng Ngwasanaethau pobl Hŷn. Cadarnhawyd bod yr adran wedi profi trafferthion i wireddu arbedion.

- Adran Addysg - eglurwyd bod £1.2 o orwariant yn dilyn chwyddiant yng nghostau staffio cymorthyddion a staff gweinyddol yn ogystal â phrisiau trydan uwch. Er hyn, cadarnhawyd bod yr adran wedi gallu defnyddio arian a gynilwyd o gyfnodau clo Covid i gynorthwyo gyda'r pwysau ariannol.

- Adran Economi a Chymuned / Byw'n Iach – Cadarnhawyd bod Byw'n Iach wedi bod yn profi sgil-effeithiau'r pandemig drwy gydol y flwyddyn ariannol 2022/23. Atgoffwyd y bu i'r cwmni dderbyn £1.4 miliwn gan Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn 2021/22 ac mae'r Cyngor wedi ymestyn y cyfnod sicrwydd ariannol i gefnogi'r cwmni hyd ddiwedd blwyddyn 2022/23. Esboniwyd bod y cwmni angen cymorth y Cyngor i ariannu £550,000. Ymfalchïwyd bod y cyhoedd wedi dychwelyd i ddefnyddio canolfannau hamdden yn dilyn y pandemig.

- Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Adroddwyd bod gorwariant o £2.5 miliwn o fewn yr adran ac bod gwasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu yn cyfrannu at y ffigwr hwn. Pwysleisiwyd hefyd bod yr adran wedi gwneud gwariant un tro o fewn y flwyddyn ariannol perthnasol ac yn cael trafferth i wireddu arbedion.

- Adran Tai ac Eiddo - Eglurwyd bod yr adran wedi derbyn £1.5 miliwn o gronfa trefniadau yn sgil Covid gan y Cyngor. Er hyn, mae effaith deddf Ddigartrefedd

wedi arwain at bwysau ariannol sylweddol i'r adran gan achosi £2.5 miliwn o orwariant. Argymhellwyd i'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor ariannu'r gorwariant.

Sicrhawyd bod cynlluniau wedi cael eu rhoi mewn lle i gyfarch y materion hyn o orwariant yng nghynlluniau ariannol y dyfodol.

Cydnabuwyd bod pwysau ar yr adrannau i ddarparu'r gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd a diolchwyd i staff yr adrannau am eu gwaith. Diolchwyd hefyd i holl staff yr Adran Gyllid am eu gwaith i goladu'r ffigyrau ar gyfer y cyfrifon terfynol.

**10. RHAGLEN GYFALAF 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2023)**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

1. Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2023) o'r rhaglen gyfalaf.

2. Nodwyd gwariant o £37,131,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23, fydd yn cael ei gynnwys yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2022/23.

3. Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
    - £68,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
    - £30,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
    - £701,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
    - £797,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

**TRAFODAETH**

Eglurwyd mai prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno rhaglen gyfalaf diwygiedig (sefyllfa 31 Mawrth 2023) a gofynnwyd i'r Cabinet cymeradwyo ffynonellau ariannu perthnasol. Rhannwyd dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £142.2 miliwm am y tair blynedd 2022/23 - 2024/25.

Manylwyd ar ffynonellau i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £1.6 miliwn ers yr adolygiad diwethaf.

Casglwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i wario £37.1 miliwn yn 2022/23 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £17.1 miliwn ohono (46%) wedi ei ariannu drwy grantiau penodol. Nodwyd bod effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf a gwelwyd bod £17 miliwn pellach o wariant arfaethedig, yn ychwanegol i'r £41 miliwn adroddwyd arno mewn adolygiadau blaenorol wedi'i ail-broffilio o 2022/23 i 2023/24.

Eglurwyd fod Rhaglen Gyfalaf 2023/24 wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth fel rhan o'r Gyllideb flynyddol. Mae'r rhaglen yn cynnwys nifer o gynlluniau yn y maes Tai, yn ogystal â datblygiadau y maes Addysg megis Ysgol Uwchradd Bangor ac Ysgol Treferthyr. Yn ychwanegol i hynny, mae gwariant cyfalaf wedi llithro o 2022/23 i 2023/24 (fel amlinellir yn Atodiad 3) gan gynnwys:

- £11.8 miliwn – Cynlluniau Strategaeth Tai a Digartrefedd
- £9.3 miliwn – Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill)
- £5.4 miliwn – Adnewyddu Cerbydau
- £5.2 miliwn – Cynlluniau Grantiau a Thai
- £3.5 miliwn – Cynllun Hwb Iechyd a Gofal Penygroes.

Eglurwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i dderbyn grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf, gan gynnwys:

- £2.2 miliwn – Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 2022/23
- £0.3 miliwn – Grantiau gan Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol tuag at gynllun amddiffyn yr arfordir ym Mhorthdinllaen
- £0.2 miliwn – Grantiau Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru.
- £0.2 miliwn – Grant Cronfa Integreiddio Rhanbarthol.

## 11. ADOLYGIAD O GYNLLUN GWEITHREDU TAI CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

**PENDERFYNIAD**

1. Cymeradwywyd ychwanegiadau cyllidol i brosiectau unigol o fewn y Cynllun Gweithredu Tai fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 6.4 o'r Adroddiad.

2. Cymeradwywyd addasiad i'r achos busnes gwreiddiol ar gyfer benthyca er mwyn prynu tai i'w gosod i drigolion lleol, a gymeradwywyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror, 2021, drwy wneud defnydd o £5.6m o'r Premiwm Treth Cyngor.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd i'r aelodau bod argyfwng digartrefedd yng Nghymru ar hyn o bryd. Manylwyd ar nifer o ffigyrau i amlinellu'r sefyllfa, gan gynnwys:

- Bod 657 o bobl digartref yng Ngwynedd ar hyn o bryd a dros 7,000 o blant yn byw mewn tlodi.
- Bod 3000 o bobl Gwynedd ar restr aros ar gyfer tai cymdeithasol
- Bod pris tai, ar gyfartaledd, wyth gwaith yn fwy na'r cyflog arferol.

Eglurwyd bod y Cyngor yn ymwybodol o'r argyfwng hwn a rhannwyd fideo i gyflwyno pum agwedd allweddol o'r Cynllun Gweithredu Tai, sef:

1. Mynd i'r afael â digartrefedd.
2. Adeiladu tai newydd.
3. Prynu tai.
4. Dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd
5. Sicrhau bod tai Gwynedd yn ecogyfeillgar.

Adroddwyd bod y Cynllun Gweithredu Tai gwreiddiol yn seiliedig ar ganran premiwm treth cyngor o 50%. Atgoffwyd yr aelodau bod y premiwm wedi cael ei gynyddu i 100%

gan greu oddeutu £20 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer cynlluniau tai a digartrefedd, dros hyd y cynllun.

Nodwyd bod y Cynllun Gweithredu Tai mewn bodolaeth ers dwy flynedd ac hyd yma wedi gallu cwblhau bron i 600 o unedau drwy amrywiol brosiectau, sydd am greu bydd i dros 4000 o bobl Gwynedd. Ymhelaethwyd bod 313 o unedau ychwanegol i hynny ar y gweill ar hyn o bryd.

Eglurwyd bod £34 miliwn o arian wedi ei ddyrannu i amrywiol brosiectau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.

Cadarnhawyd bod 8 tŷ wedi cael ei brynu fel rhan o gynllun Prynu i Osod, gyda'r potensial i 32 o bobl elwa o'r tai hyn. Ymhelaethwyd bod nifer o dai eraill yn y broses o gael eu prynu ar hyn o bryd. Datganwyd hefyd bod 15 cais wedi cael ei gymeradwyo fel rhan o'r cynllun Prynu Cartref, ers iddo lawnsio ym Medi 2022.

Adroddwyd bod y cynllun Tai Gwag wedi llwyddo i ddychwelyd 104 o dai yn ôl i ddefnydd ar draws Gwynedd ac mae'r adran hefyd wedi llwyddo i adeiladu 173 o dai cymdeithasol, gydag 88 o dai newydd yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Ymhelaethwyd bod arian wedi cael ei glustnodi er mwyn adeiladu 113 o dai cymdeithasol pellach o fewn y flwyddyn ariannol hon.

Ymfalchïwyd bod yr adran yn helpu i gefnogi 40 o bobl o fewn y Sir ar hyn o bryd, drwy gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sefydlu darpariaeth cefnogol i unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref oherwydd materion iechyd meddwl, i barhau yn eu cartref.

Esboniwyd bod costau adeiladu, llafur a deunyddiau, wedi cynyddu llawer ers i'r Cynllun Gweithredu Tai gwreiddiol gael ei sefydlu yn 2021. Ymhelaethwyd bod y costau hyn wedi codi oddeutu 30% a manylwyd bod cyfraddau llog wedi cynyddu yn ogystal. Nodwyd bod y cynnydd yma mewn prisiau wedi creu anhawster i brynu tai oddi ar y farchnad leol ac wedi cael effaith ar ddatblygiad amrywiol brosiectau.

Manylwyd ar y rhesymeg y tu ôl i gynyddu cyfraniad y Gronfa Premiwm Treth Cyngor i gynlluniau tai a digartrefedd, gan gynnwys:

- Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref – 45 uned parod yng Nghaernarfon a Phwllheli er mwyn lleihau dibyniaeth ar lety dros dro.
- Prynu cyn-dai cymdeithasol a'u rhentu i drigolion Gwynedd a phrynu tai preifat.
- Cynllun Datblygu Tai ein Hunain – i gynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd.

Diolchwyd i swyddogion yr adran am eu gwaith parhaus gyda'r Cynllun Gweithredu Tai.

**12. ADDASIADAU I'R CYFANSODDIAD CYNLLUN DRPRWYO: ADRODDIAD SWYDDOG MONITRO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr addasiadau i Adran 13 (3) o'r Cyfansoddiad Cynllun Dirprwyo Swyddogion a ddangosir yn Atodiad 1.

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod dyfodiad cronfeydd grantiau newydd megis Cronfa Ffyniant Cyffredin (SPF) a chronfa ARFOR wedi amlygu'r angen i ddiwygio'r hawliau dirprwyedig i bennaeth Adran Economi a Chymuned er mwyn prosesu ceisiadau yn effeithiol.

Nodwyd bod y cronfeydd newydd hyn wedi arwain at yr angen i brosesu ceisiadau o symiau uwch, yn ogystal a bod mwy o drosiant ceisiadau i'w delio â nhw. Argymhellwyd i ddiwygio'r Adran hon o'r Cyfansoddiad ac eglurwyd bod natur rhai o'r cronfeydd yn dibynnu ar drosiant cyflym iawn i brosesu ceisiadau, ac felly mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:55pm

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11 Gorffennaf 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Beca Brown |
| **Swyddog Cyswllt:** | Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Cynhorthwyol Addysg: Sector Cynradd |
| **Teitl yr Eitem**: | Cyhoeddi rhybudd statudol ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024. |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR:**

1) Cymeradwyo cychwyn y broses i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 o dan adran 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013.

2) Cymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol, ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, gan ganiatáu cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

3) Cymeradwyo trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trosiannol yn unig, fyddai'n cynnig cludiant am ddim i'r disgyblion hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd, ac yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda, i Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, am weddill cyfnod y dysgwr yn un o'r ysgolion hynny, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

4) Yn amodol ar benderfyniad y Cabinet ynglŷn â'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda, caniatáu cynnal adolygiad o ffiniau dalgylchol ysgolion sy'n ffinio dalgylch presennol Ysgol Felinwnda.

### 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ar sail CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddoedd ar Lefel Disgyblion) Ionawr 2023, Ysgol Felinwnda yw'r ysgol leiaf yn y sir, gyda dim ond 8 o ddysgwyr. O ganlyniad, mae'r Adran Addysg yn cyflwyno'r adroddiad yma i'r Cabinet yn gofyn am ganiatâd i gynnal cyfnod gwrthwynebu statudol ar y cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a chod statudol Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018).

1.2 Mae adran 48(3) Deddf 2013 yn darparu nad yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i gau 'ysgol fach' fel y diffinnir yn y Ddeddf, ac mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn darparu:

> *"Os oes gan ysgol lai na 10 disgybl cofrestredig (neu os nad oes unrhyw ddisgyblion ar ôl mewn ysgol) pan gynhelir y cyfrifiad ym mis Ionawr, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff*

*llywodraethu/awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol.*

*Yr unig beth y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud o dan y weithdrefn honno fyddai cyhoeddi'r hysbysiad cau – byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, cyhyd â bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfatebol wedi'u nodi a fyddai'n rhesymol hygyrch i'r disgyblion hynny sydd wedi'u dadleoli neu a allai gael eu dadleoli."*

Gan fod llai na 10 o ddysgwyr cofrestredig yn Ysgol Felinwnda yn CYBLD Ionawr 2023, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu'r awdurdod i ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol. Yn benodol, mae'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, a'r unig beth fyddai'n ofynnol ei wneud fyddai cyhoeddi'r hysbysiad statudol. Yn dilyn hynny byddai'r cyfnod gwrthwynebu arferol, a byddai angen ystyried unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir cyn dod i benderfyniad terfynol. O dan Ddeddf 2023 nid oes modd atgyfeirio penderfyniad o'r fath i Weinidogion Cymru fel gydag ysgolion eraill.

## 2. CYD-DESTUN STRATEGOL

2.1 Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r Strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' ers y bu iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn yn Ebrill 2009. Nodir yn y strategaeth fod angen sicrhau modd i fedru rhoi sylw i sefyllfaoedd rhai ysgolion sy'n fregus.

2.2 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion "Addysg Addas i Bwrpas" sydd bellach yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r egwyddorion hyn yn gweithio tuag at resymoli ystod oedran o fewn dosbarthiadau cynradd, a sicrhau amser digyswllt digonol i benaethiaid ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn yr ysgolion cynradd.

## 3. SEFYLLFA BRESENNOL YSGOL FELINWNDA


3.1 Mae Ysgol Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Derbynnir plant i'r dosbarth meithrin yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed, ac yn llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed.

3.2 **Niferoedd dysgwyr**

Dengys y tabl a'r graff isod y gostyngiad sydd wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda dros y 10 mlynedd diwethaf:

| Blwyddyn | Nifer dysgwyr Ysgol Felinwnda |
|---|---|
| 2012 | 31 |
| 2013 | 27 |
| 2014 | 29 |
| 2015 | 25 |
| 2016 | 21 |

| | |
|---|---|
| 2017 | 23 |
| 2018 | 26 |
| 2019 | 24 |
| 2020 | 18 |
| 2021 | 10 |
| 2022 | 8 |




Fel y gwelir, mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn sylweddol ers 2018 ac yn fregus ers peth amser.

3.3 **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau bychan**

Yn ôl CYBLD Ionawr 2023, cofnodwyd 8 o ddysgwyr yn Ysgol Felinwnda, sef y nifer lleiaf o ddysgwyr mewn unrhyw ysgol yng Ngwynedd. Mae'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth bychan aml-oedran gydag un dosbarth ar gyfer dysgwyr blwyddyn 1–3 a'r llall ar gyfer blwyddyn 4-5. Does dim un plentyn oed meithrin, dosbarth derbyn na blwyddyn 6 yn yr ysgol:

| | **Blwyddyn** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **M** | **D** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **Cyfanswm** |
| Felinwnda | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 2 | 3 | 0 | **8** |
| Dosbarthiadau | Dosbarth | | | | | Dosbarth | | | |

3.4 **Rhagamcanion**

Dengys y tabl isod sefyllfa gyfredol yr ysgol a'r rhagamcanion niferoedd dros y 3 blynedd nesaf:

| Capasiti (M-Bl6) | Niferoedd Ionawr 2023 (M-Bl6) | Llefydd Gweigion | Rhagam-canion Medi 2023 | Rhagam-canion Medi 2024 | Rhagam-canion Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| 61 | 8 | 87% | 8 | 5 | 3 |

Fel y gwelir o'r rhagamcanion mae'n debygol y bydd niferoedd yr ysgol yn parhau i ostwng i lefelau sydd hyd yn oed yn fwy bregus na'r sefyllfa bresennol dros y blynyddoedd nesaf.

3.5 **Canran uchel o lefydd gweigion**

Yn seiliedig ar ffigyrau Ionawr 2023, mae 87% o lefydd gweigion yn yr ysgol (53 mewn nifer).

**4. CYLLID**

4.1 Dengys y tabl isod ddyraniad cyllidol Ysgol Felinwnda ar gyfer 2022-23:

| | Dyraniad Cyllidol yr Ysgol 2022-23 | Cost y Pen 2022-23 | Rhwyd Diogelu 2022-23 |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Felinwnda** | £138,226 | £14,643 | £54,924 |
| **Cyfartaledd Ysgolion Cynradd Gwynedd** | £478,000 | £4,509 | £34,456* |

*Cyfartaledd y 21 safle cynradd sydd yn y rhwyd diogelu.

4.2 **Cost fesul disgybl**

Cyfanswm y dyraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 (yn seiliedig ar niferoedd Medi 2021) ydi £138,226 sy'n golygu fod cost y pen Ysgol Felinwnda yn £14,643 (2022-23). Y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl yn yr un flwyddyn yw £4,509, sy'n golygu fod cost y pen Ysgol Felinwnda dros 3 gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol.

4.3 **Rhwyd diogelu**

Mae Ysgol Felinwnda yn derbyn swm o £54,924 ar gyfer 2022-23 drwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr).

4.4 **Heriau i'r dyfodol**

Mae Ysgol Felinwnda yn wynebu her gynyddol i osod cyllideb gytbwys gan fod yr ysgol yn derbyn dyraniad ar sail niferoedd dysgwyr, a bydd hynny, ynghyd â swm gwarchodaeth a ddyrannir iddynt yn eu galluogi i gyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig.

Ar gyfer 2023-24, gall Ysgol Felinwnda wneud defnydd helaeth o falansau er mwyn gallu parhau gyda'r trefniant staffio cyfredol am flwyddyn arall. Fodd bynnag ni fydd modd i'r trefniant barhau ar gyfer 2024-25, gan na fydd ganddynt falansau yn weddill, ac felly byddai'n orfodol gweithredu strwythur staffio o bennaeth a chymhorthydd ar gyfer yr ystod lawn o ddysgwyr yn Ysgol Felinwnda.

Bydd hyn yn golygu y byddai rhannu pennaeth gydag Ysgol Llandwrog, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn amhosibl, gan hefyd orfod diswyddo'r athro a gyflogir yn Ysgol Felinwnda ar sail gormodedd.

## 5. FFACTORAU PENODOL WRTH YSTYRIED CAU YSGOL

Er bod proses i gau ysgol gyda llai na 10 o ddisgyblion yn hepgor y gofyn i ymgynghori'n gyffredinol, mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi fod rhaid ystyried materion perthnasol sydd wedi eu cynnwys yn y Cod. Mae'n nodi y dylid rhoi sylw arbennig i'r opsiynau canlynol wrth ystyried os yw'n briodol cau ysgol:

a. A ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu resymau dros beidio â dewis yr opsiwn hwn

Gan fod ond 8 dysgwr yn yr ysgol mae Ysgol Felinwnda yn wynebu her gynyddol i osod cyllideb gytbwys gan fod yr ysgol yn derbyn dyraniad ar sail niferoedd dysgwyr, a bydd hynny, ynghyd â swm gwarchodaeth a ddyrannir iddynt yn eu galluogi i gyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig. Oherwydd hyn mae Cyngor Gwynedd o'r farn ni ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw yr ysgol ar agor.

b. ellid ystyried posibiliadau amgen heblaw cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, neu'r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel opsiwn amgen yn lle cau'r ysgol.

Gan y byddai clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, yn golygu parhau gyda'r ysgol bresennol, a felly bod tebygolrwydd uchel y bydd yr heriau presennol yn parhau ac yn dwysáu dros y blynyddoedd nesaf, mae'r Cyngor felly o'r farn nad ydi gwneud hyn yn opsiwn fyddai'n cyfarch yr heriau sy'n wynebu Ysgol Felinwnda nawr ac i'r dyfodol.

c. A ellid archwilio'r posibiliadau o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol.

Gan fod Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol, ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi, ni ragwelir bod angen adnodd cymunedol arall yn yr ardal. Serch hynny, pe gweithredir y cynnig, mae gan Cyngor Gwynedd bolisi ôl-ddefnydd safleoedd ysgolion a byddai y polisi hwn yn cael ei ddilyn wrth ystyried dyfodol y safle.

d. Effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol)

Does dim defnydd cymunedol o'r ysgol bresennol. Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi. Mae Cyngor Gwynedd o'r farn, gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael unrhyw effaith ar ddigwyddiadau cymunedol lleol.

dd. Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig

Er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y dysgwyr, byddwn yn annog trafodaethau rhwng yr ysgol neu ysgolion amgen â rhieni dysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda fel bod modd iddynt fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog cydweithio rhwng yr ysgol a chymuned Felinwnda.

## 6. OPSIYNAU Y RHODDWYD YSTYRIAETH IDDYNT I ORESGYN YR HERIAU

6.1 Mae'n amlwg bod nifer o heriau yn wynebu Ysgol Felinwnda sy'n golygu nad yw sefyllfa'r ysgol yn gynaliadwy i'r dyfodol. Mae'r Adran Addysg wedi ystyried 3 opsiwn ar gyfer dyfodol addysg yn nalgylch Ysgol Felinwnda ac wedi gwerthuso pob opsiwn yn erbyn y meini prawf isod, sydd yn cyd-fynd â'r Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd":

- Niferoedd dysgwyr
- Maint dosbarthiadau
- Adnoddau ariannol
- Ffactorau daearyddol
- Arweinyddiaeth a staffio
- Y gymuned
- Yr iaith Gymraeg

6.2 Gweler isod gasgliad o ganlyniad y gwerthusiad ar gyfer y 3 opsiwn. Gellir gweld y gwerthusiad llawn yn **Atodiad A.**

### 6.2.1 Gwneud dim

Er bod yr achos dros newid eisoes wedi ei sefydlu, mae'r model 'Gwneud Dim' wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

Byddai'r model yma'n golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Felinwnda.

**Casgliad**

Credir y bydd sefyllfa bresennol Ysgol Felinwnda yn parhau ac yn dwysáu dros y blynyddoedd nesaf, o ganlyniad, rydym o'r farn nad ydi parhau â'r 'status quo' yn opsiwn i'r dyfodol.

### 6.2.2 Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad o safbwynt presenoldeb yr ysgol yn Felinwnda trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol gyfagos o dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigeddau.

Os yn ffedereiddio ysgolion mae'n ofynnol iddynt fod â'r un statws felly yn achos Ysgol Felinwnda byddai angen iddynt ffedereiddio gydag ysgol gymunedol arall. Yr ysgol gymunedol agosaf ydi Ysgol Bontnewydd.

**Casgliad**

Gan fod yr opsiwn yma'n golygu parhau gyda'r ysgol bresennol o fewn y ffederasiwn rhagwelir bod tebygolrwydd uchel y bydd yr heriau presennol yn parhau ac yn dwysáu dros y blynyddoedd nesaf. Rydym felly o'r farn nad ydi ffederaleiddio yn opsiwn fyddai'n cyfarch yr heriau sy'n wynebu Ysgol Felinwnda nawr ac i'r dyfodol.

6.2.3 **Cau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol amgen cyfagos**

Byddai'r model yma'n golygu cau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i'r dysgwyr presennol gael eu haddysgu mewn ysgol, neu ysgolion, amgen cyfagos o ddewis rhieni, yn unol a'r cynnig yn yr adroddiad hwn.

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gweithredu y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Felinwnda, yna byddai'r Adran Addysg yn adolygu ffiniau dalgylch yn yr ardal drwy gynnal ymgynghoriad er mwyn casglu'r farn yn lleol, cyn dod i benderfyniad ar addasu dalgylch ysgol, neu ysgolion, i gynnwys dalgylch Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

**Casgliad**

Rhagwelir y bydd yr opsiwn yma'n datrys heriau niferoedd isel, dosbarthiadau bychan a chostau uchel drwy:

- gynnig mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda nifer o ddysgwyr eraill
- cynnig addysg mewn dosbarthiadau o faint mwy addas
- cynnig addysgu mewn dosbarthiadau gyda mwy o blant o'r un oedran
- lleihau cost y pen

Bydd gan yr ysgolion amgen cyfagos ddigon o le ac adeiladau ac ystafelloedd cystal ar gyfer niferoedd disgyblion presennol Ysgol Felinwnda.

**7. YR OPSIWN FFAFREDIG**

Yn dilyn cynnal y gwerthusiad opsiynau, yr opsiwn a gaiff ei ffafrio ar gyfer y cynnig ar gyfer dyfodol addysg dysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda yw i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Felinwnda, yna bydda'r Adran Addysg yn adolygu ffiniau dalgylch yn yr ardal drwy gynnal ymgynghoriad er mwyn

casglu'r farn yn lleol, cyn dod i benderfyniad ar addasu dalgylch ysgol, neu ysgolion, i gynnwys dalgylch Ysgol Felinwnda i'r dyfodol.

Yn seiliedig ar benderfyniad y Cabinet ar ddyfodol Ysgol Felinwnda, rhagwelir y byddai'r ymgynghoriad ar adolygu ffiniau'r dalgylch yn cael ei gynnal yn fuan yn nhymor y Gwanwyn 2024.

Yn dilyn hynny byddai'r ardal a wasanaethir gan Ysgol Felinwnda yn ffurfio rhan o ddalgylch ysgol neu ysgolion amgen, a byddai mynediad i'r ysgol, neu ysgolion hynny, yn cael ei gynnig yn unol â pholisi mynediad y sir, a byddai cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol yn unol â Polisi Cludiant Ysgol y Sir.

## 8. ASESIADAU EFFAITH

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynnig, ystyriwyd a gwerthuswyd ystod o opsiynau ar gyfer yr ysgol, a chynhaliwyd cyfres o asesiadau effaith ar y cynnig, gan gynnwys:

- Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol
- Adroddiad Asesu Effaith Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol
- Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
- Adroddiad Asesiad ar yr Effaith Debygol ar Drefniadau Teithio
- Adroddiad Asesu Ansawdd a Safonau Addysg

Mae'r asesiadau llawn i'w gweld yn **Atodiad B.**

### 8.1.1 Asesiad Cydraddoldeb

Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

Yn dilyn pwyso a mesur y ffactorau perthnasol deuir i'r casgliad y bydd dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal wrth gael eu lleoli mewn ysgol amgen oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Bydd plant Ysgol Felinwnda yn cael gwell amgylchedd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran, bydd yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg, ac yn caniatáu mynediad at fwy o weithgareddau perthnasol i'w hoedran a lefel gallu.

Bydd plant Ysgol Felinwnda yn elwa o gael cymysgu gyda rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

Bydd y Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb.

### 8.1.2 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg gan asesu effaith yr iaith ar pob opsiwn yn y gwerthusiad opsiynau.

Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Felinwnda, yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn yr ysgolion gynradd amgen a nodir.

Ni ragwelir y byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, ond mae'n bosib y gallai gael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Felinwnda elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

8.1.3 **Asesiad Effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol**

Yn dilyn cynnal asesiad rhagwelir bydd y cynnig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgolion amgen. Bydd dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Bydd plant Ysgol Felinwnda yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran, a bydd yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Bydd y plant yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

8.2 **Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2023-28".

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd saith nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Cydnabyddir fod y cynnig hwn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Felinwnda, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu yr ysgolion amgen cyfagos, ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned Felinwnda eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol yr ysgol amgen yn cynnwys cymuned Felinwnda lle'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy’n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

8.3 **Asesiad Effaith ar y Gymuned**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith cymunedol fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion.

Gwelir yn yr asesiad nad oes unrhyw ddefnydd cymunedol o’r ysgol. Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin a’r Cylch Ti a Fi. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir y byddai cau’r ysgol yn cael unrhyw effaith ar allu’r cylchoedd na digwyddiadau eraill rhag parhau.

Pe byddai’r opsiwn o gau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i ddysgwyr mewn ysgol amgen yn cael ei wireddu, ni ragwelir y byddai’n cael effaith negyddol ar gymuned Felinwnda. Er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y dysgwyr, byddwn yn annog trafodaethau rhwng yr ysgol neu ysgolion amgen a rhieni dysgwyr Ysgol Felinwnda fel bod modd iddynt fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog cydweithio rhwng yr ysgol a chymuned Felinwnda.

8.4 **Asesiad Effaith ar Drefniadau Teithio**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar drefniadau teithio fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith ar drefniadau teithio ac asesu effaith teithio ar bob opsiwn yn y gwerthusiad opsiynau.

Nodir yn yr asesiad, pe byddai’r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, y byddai 3 o ddysgwyr Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd, sef y rhai sy’n byw yn nalgylch yr ysgol, yn cael cynnig cludiant i'r ysgol amgen o Ionawr 2024, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir.

Pe byddai’r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, byddai dysgwyr sy’n mynychu Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd, ac yn byw o fewn y dalgylch, yn cael cynnig cludiant di-dal i ysgol amgen o 1 Ionawr 2024, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir, ar gost blynyddol o rhwng £7,400 - £22,200 yn ddibynnol ar nifer tacsis.

8.5 **Asesiad ar Ansawdd a Safonau Addysg**

Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad uchod, a chymharu adroddiadau Estyn, deuir i’r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn y 2 ysgol amgen cyfagos yn uwch (Ardderchog) mewn un, ac o leiaf gystal (Da) yn y llall, i gymharu a safon yr addysg yn Ysgol Felinwnda (Da). O ganlyniad, rhagwelir y byddai effaith positif tebygol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o’r cynnig i gau Ysgol Felinwnda a throsglwyddo’r dysgwyr i ysgol neu ysgolion amgen cyfagos.

**9. GOBLYGIADAU’R CYNNIG**

9.1 **Dysgwyr presennol**

Os bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig bydd Ysgol Felinwnda yn cau ar 31 Rhagfyr 2023 a bydd disgyblion presennol yn trosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

9.2 **Cludiant**

Os bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig bydd Ysgol Felinwnda yn cau ar 31 Rhagfyr 2023 byddai darpariaeth cludiant trosiannol ar gael i ddisgyblion presennol Ysgol Felinwnda (sydd hefyd yn byw yn nalgylch yr ysgol) i naill ai Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.

9.3 **Ystyriaethau Staffio**

Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau. Mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn gyda staff ac Undebau i'w rhagrybuddio fod adroddiad yn mynd i Gabinet yn gofyn caniatâd i gynnal cyfnod gwrthwynebu ar yr opsiwn i gau Ysgol Felinwnda.

Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau fyddai'n deillio o'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

**10. GOFYNION DEDDF 2013 A CHOD TREFNIADAETH YSGOLION 011/2018**

Bydd unrhyw broses statudol yn cael ei gynnal yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n darparu:

*"Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach …" (adran 48(3))*

a Chod Statudol Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) sydd yn nodi:

*"Os oes gan ysgol lai na 10 disgybl cofrestredig (neu os nad oes unrhyw ddisgyblion ar ôl mewn ysgol) pan gynhelir y cyfrifiad ym mis Ionawr, mae Deddf 2013 yn caniatáu i gyrff llywodraethu/awdurdodau lleol ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol yn swyddogol.*

*Yr unig beth y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud o dan y weithdrefn honno fyddai cyhoeddi'r hysbysiad cau – byddai'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, cyhyd â bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfatebol wedi'u nodi a fyddai'n rhesymol hygyrch i'r disgyblion hynny sydd wedi'u dadleoli neu a allai gael eu dadleoli."*

## 11. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

| Amserlen | Camau |
|---|---|
| **11 Gorffennaf** | **Cabinet -** penderfynu a ddylid bwrw mlaen a chymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu ai peidio. |
| **Medi – Hydref** | Os yw'r Cabinet yn cymeradwyo y cynnig, cyhoeddir rhybudd statudol, ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu (28 diwrnod) lle fydd cyfle i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynnig yn y rhybudd |
| **Tachwedd** | **Cabinet -** ystyried yr adroddiad gwrthwynebu, a phenderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynnig ai peidio. |
| **31 Rhagfyr** | Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, gweithredu'r cynnig |
| **Tymor y Gwanwyn 2024** | Yn ddarostyngedig ar benderfyniad Cabinet – cynnal ymgynghoriad ar addasu ffiniau ysgol/ion cyfagos i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Felinwnda |
| **Tymor y Gwanwyn 2024** | **Cabinet** - ystyried adroddiad ar yr ymgynghoriad a phenderfynu cymeradwyo'r cynnig neu ddim |
| **Medi 2024** | Yn ddibynnol ar benderfyniad Cabinet - gweithredu'r cynnig |

**BARN SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**
Mae cynnwys yr adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
O safbwynt ariannol, mae'n amlwg nad yw sefyllfa bresennol Ysgol Felinwnda yn gynaliadwy, o ystyried fod 87% o lefydd yr ysgol yn wag.  Mae'r adroddiad yn dangos fod asesiad wedi ei gynnal o'r opsiynau sydd ar gael, ac rwyf yn fodlon â chadernid yr amcangyfrifon ariannol sydd wedi eu nodi ynddo.  Rwyf felly'n cefnogi'r penderfyniad a geisir.

**Aelod Lleol:**

Hoffwn ddiolch i Gabinet Cyngor Gwynedd am ohirio gwneud penderfyniad ar y mater yma fis Mawrth diwethaf, er mwyn cynnal cyfnod o ymgysylltu lleol.

Serch hynny, mynegaf siom mai ymgysylltiad yn hytrach na phroses ymgynghori fu. Nid oedd ymgysylltiad yn rhoi cyfle i ystyried barn y cyhoedd, a gallai'r sesiynau ymgysylltu fod wedi eu hyrwyddo'n well gan mai prin iawn, os o gwbl, oedd unrhyw gyfeiriad at yr ymgysylltu ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Derbyniaf y gellir dilyn proses gynt er mwyn cau ysgolion sydd â llai na 10 o blant, ond nid yw hyn yn rhwystro cynnal ymgynghoriad.

Rwy'n parhau i fod yn bryderus ar effaith posibl cau'r ysgol ar Ganolfan Bro Llanwnda a Chylch Meithrin Llanwnda, ac felly ar y gymuned yn ehangach. Er bod Canolfan Bro Llanwnda yn sefyll ar ei thraed ei hun, gall colli bwrlwm ysgol drws nesaf leihau'r cyswllt cymunedol sydd wedi bodoli rhwng yr ysgol a'r Ganolfan. Yn ogystal, byddai effaith ar niferoedd yn y Cylch Meithrin, nid yn unig yn niweidiol i'r Cylch ei hun, ond hefyd i'r Ganolfan fel un o'r prif ddefnyddwyr.

Croesawaf y ffaith fod Ysgol Llandwrog yn cael ei henwi fel ysgol amgen ar y cyd ag Ysgol Bontnewydd. Fodd bynnag gellir dadlau mai Ysgol Llandwrog yn unig ddylai'r ysgol amgen fod, gan fod cydweithio a rhannu Pennaeth yn digwydd rhwng Ysgol Felinwnda ag Ysgol Llandwrog, a natur a naws y ddwy ysgol yn debyg.

Croesawaf hefyd fwriad Cyngor Gwynedd, (os bydd penderfyniad i gau), i ail edrych ar ddalgylch Ysgol Felinwnda. Pe byddai hyn yn digwydd, mawr obeithiaf y byddai'r broses hynny'n cynnwys ymgynghoriad llawn a phwrpasol.

Y farn yn lleol yw bod Ysgol Felinwnda yn darparu addysg dda ac yn gaffaeliad i'r gymuned, ond does dim dadl nad yw niferoedd presennol disgyblion a rhagamcanion y dyfodol yn fregus.

Rhaid derbyn fod penderfyniadau anodd weithiau i'w gwneud, ond hyderaf y bydd Cyngor Gwynedd, (os yw'n bwrw ymlaen i gyhoeddi rhybudd statudol), yn ystyried yn ddiffuant unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir fel rhan o'r broses honno.

**<u>Atodiadau</u>**

**Atodiad A:** Tabl Gwerthusiad Opsiynau

**Atodiad B:** Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol
- Adroddiad Asesu Effaith Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol
- Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
- Adroddiad Asesiad ar yr Effaith Debygol ar Drefniadau Teithio
- Adroddiad Asesu Ansawdd a Safonau Addysg

**Asesiadau opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Felinwnda**

| | **Gwneud dim** | **Ffederaleiddio gyda Ysgol Bontnewydd** | **Cau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i ddysgwyr mewn ysgol amgen cyfagos** |
|---|---|---|---|
| **Niferoedd dysgwyr** | Dim ond 8 dysgwr sydd yn Ysgol Felinwnda.<br><br>61 o lefydd gweigion (87%)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. | Dim ond 8 dysgwr sydd yn Ysgol Felinwnda.<br><br>61 o lefydd gweigion (87%)<br><br>Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. | Cynnig mwy o brofiadau i ddisgyblion gymdeithasu a chydweithio yn ddyddiol gyda chyfoedion<br><br>Digon o le ar gyfer dysgwyr presennol Ysgol Felinwnda yn yr ysgolion amgen cyfagos |
| **Maint dosbarthiadau** | Maint dosbarthiadau Ysgol Felinwnda yn parhau yn fach – 2 dosbarth o 3 a 5 (Ionawr 2023).<br><br>Amrediad oedran o 3 mlynedd yn y 2 ddosbarth. Dim plant meithrin, derbyn na blwyddyn 6. | Maint dosbarthiadau Ysgol Felinwnda yn parhau yn fach – 2 ddosbarth o 3 a 5 (Ionawr 2023).<br><br>Amrediad oedran o 3 mlynedd yn y 2 ddosbarth. Dim plant meithrin, derbyn na blwyddyn 6. | Dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas.<br><br>Dysgwyr yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran. |
| **Adnoddau ariannol** | Ysgol Felinwnda yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth (£54,924 yn 2022-23) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, sef £14,643, sydd dros tair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. | Ysgol Felinwnda yn parhau'n anghynaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth (£54,924 yn 2022-23) gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol.<br><br>Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, sef £14,643, sydd dros tair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. | Fe all arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i'r Awdurdod<br><br>Tynnu un ysgol o'r rhwyd diogelu staffio.<br><br>Bydd lleihad yn amrediad yng nghost y dysgwr ar gyfer holl ddisgyblion y Sir. |
| **Ffactorau daearyddol** | Dim newid | Dim newid | Bydd angen cynnig cludiant i'r ysgol/ysgolion amgen yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Sir |
| **Arweinyddiaeth a staffio** | Mae Ysgol Felinwnda yn wynebu her i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023-24 gan y bydd yr ysgol yn derbyn dyraniad ar sail niferoedd dysgwyr a bydd hynny ynghyd â swm gwarchodaeth a ddyrannir iddynt yn eu galluogi i gyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig. | Mae Ysgol Felinwnda yn wynebu her i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023-24 gan y bydd yr ysgol yn derbyn dyraniad ar sail niferoedd dysgwyr a bydd hynny ynghyd â swm gwarchodaeth a ddyrannir iddynt yn eu galluogi i gyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig. | Bydd yr ysgolion amgen yn gallu cyflogi pennaeth ac athrawon addas ar gyfer addysgu y dysgwyr.<br><br>Mae un o'r ysgolion amgen cyfagos gyda pennaeth sy'n gwario 100% o'i amser yn rheoli yr ysgol.<br><br>Byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at ddiswyddiadau staff yn Ysgol Felinwnda. |
| **Cymunedol** | Mae mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. | Mae mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. | Mae 36 o ddysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu y 2 ysgol amgen agosaf. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim newid | Dim newid – mae y 2 ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg | Dim newid – mae'r ysgolion amgen cyfagos yn rhai cyfrwng Cymraeg |
| **Casgliad** | **Manteision**<br>• ni fydd angen trefnu cludiant ychwanegol ar gyfer unrhyw ddysgwr<br><br>**Anfanteision**<br>Ni fydd y cynnig yma yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol:<br>• niferoedd isel<br>• llefydd gweigion sylweddol<br>• dosbarthiadau bach gydag ystod oedran 3 mlynedd<br>• cost y pen sydd 3 gwaith mwy na'r cyfartaledd sirol<br>• mwyafrif plant y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion eraill | **Manteision**<br>• ni fydd angen trefnu cludiant ychwanegol ar gyfer unrhyw ddysgwr<br><br>**Anfanteision**<br>Ni fydd y cynnig yma yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol:<br>• niferoedd isel<br>• llefydd gweigion sylweddol<br>• dosbarthiadau bach gydag ystod oedran 3 mlynedd<br>• cost y pen sydd 3 gwaith mwy na'r cyfartaledd sirol<br>• mwyafrif plant y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion eraill | **Manteision**<br>• digon o le mewn ysgolion amgen cyfagos ar gyfer derbyn dysgwyr Ysgol Felinwnda<br>• mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda nifer o ddysgwyr eraill<br>• dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas<br>• dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau gyda mwy o blant o'r un oedran<br>• cost y pen yn llai<br><br>**Anfanteision**<br>• bydd angen diswyddo staff<br>• mae'n debygol y bydd angen trefnu cludiant ar gyfer rhai dysgwyr ar gost i'r Awdurdod |

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae sefyllfa Ysgol Felinwnda wedi dod i sylw'r Adran Addysg yn ôl Cyfrifiad ysgolion Medi 2022, gan mai hon yw'r ysgol gyda'r nifer lleiaf o ddysgwyr yng Ngwynedd. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda dros y 10 mlynedd diwethaf, o 31 disgybl yn 2012 i lawr i 8 disgybl erbyn heddiw, sydd yn arwain at ansicrwydd ynglŷn â dyfodol yr ysgol.

Gan fod llai na 10 o ddysgwyr cofrestredig yn yr ysgol yn CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddoedd ar Lefel Disgyblion) Ionawr 2023, ystyrir hi'n "ysgol fach" o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013. Mae hyn yn caniatáu'r awdurdod i ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol. Yn benodol, mae'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, a'r unig beth sy'n ofynnol i'w wneud yw cynnal cyfnod gwrthwynebu yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol, mi fydd hyn yn rhoi 28 diwrnod i unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Mi fyddwn yna'n llunio adroddiad gwrthwynebu er mwyn i'r Cabinet ystyried unrhyw wrthwynebiadau cyn dod i benderfyniad terfynol.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal asesiad o'r effaith tebygol ar gydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Gareth Richard Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg)

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 1: 8 Chwefror 2023
Fersiwn 2: 6 Mawrth 2023
Fersiwn 3: 9 Mawrth 2023
Fersiwn 4: 14 Mehefin 2023

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Adran Addysg a Swyddogion adrannau eraill Cyngor Gwynedd
Llywodraethwyr a Phennaeth Ysgol Felinwnda

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i ymgysylltu gyda phobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae sgwrs wedi ei chynnal gydag Aelod Lleol, Pennaeth a Chorff Llywodraethol Ysgol Felinwnda.

Mae sesiynau ymgysylltu i rannu gwybodaeth am y cynnig dan ystyriaeth wedi eu cynnal yng Nghanolfan Dinas Llanwnda, Ysgol Felinwnda, Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd.

Gan fod llai na 10 o ddysgwyr cofrestredig yn Ysgol Felinwnda yng nghyfrifiad Ionawr 2023, ystyrir hi'n "ysgol fach" o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion mae hyn yn caniatáu'r awdurdod i ddilyn gweithdrefn symlach er mwyn cau'r ysgol. Yn benodol, mae'r gofyniad i ymgynghori'n gyffredinol yn cael ei hepgor, a'r unig beth fyddai'n ofynnol ei wneud fyddai cynnal cyfnod gwrthwynebu. Mi fyddwn yn gwneud hyn drwy gyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig a chaniatáu 28 diwrnod i rieni, dysgwyr, staff a rhanddeiliaid eraill ymateb i'r cynnig. Mi fyddwn yna'n cyflwyno adroddiad gwrthwynebu a'i gyflwyno i Gabinet y Cyngor i benderfynu ar y camau nesaf.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Yn dilyn yr ymgysylltu mae'r y cynnig o gau Ysgol Felinwnda yn cael ei gyflwyno gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd ar 11 Gorffennaf 2023, ac yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet bydd modd symud ymlaen i gynnal y cyfnod gwrthwynebu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

- **Niferoedd dysgwyr** – Yng nghyfrifiad CYBLD Ionawr 2023, dim ond 8 disgybl llawn amser oedd ar gofrestr yr ysgol gyda 3 o dalgylch Felinwnda a 5 o ddalgylchoedd Bro Lleu a Bro Llifon.
- **Plant yn mynd all-dalgylch** – 45 yn mynd all-dalgylch gan gynnwys 31 i Ysgol Bontnewydd a 5 i Ysgol Llandwrog gyda gweddill y dysgwyr yn teithio i ysgolion eraill sy'n bellach i ffwrdd.
- **Rhagamcanion niferoedd** – Mae rhagamcanion niferoedd yn argymell fydd niferoedd yn parhau i leihau: Medi 2023= 8; Medi 2024 = 5; Medi 2025= 3
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Ionawr 2023, mae o ddeutu 87% o lefydd gweigion yn yr ysgol (53 mewn nifer)
- **Maint dosbarthiadau bychain** – mae 2 ddosbarth gyda 3 mewn un a 5 yn y llall (Ionawr 2023)
- **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau** – mae un dosbarth ar gyfer dysgwyr blwyddyn 1–3 a'r llall ar gyfer blwyddyn 4-5. Does dim un plentyn oed meithrin, dosbarth derbyn na blwyddyn 6 yn yr ysgol.
- **Cyllid ychwanegol i'r dyraniad -** mae Ysgol Felinwnda yn derbyn swm o £54,924 ar gyfer 2022-23 drwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion).
- **Cost fesul dysgwr -** cyfanswm y dyraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 (seiliedig ar niferoedd Medi 2021) ydi £138,226 sy'n golygu fod cost y pen Ysgol Felinwnda yn £14,643 (2022-23). Y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl yn yr un flwyddyn ydi £4,509.
- **Heriau i'r dyfodol -** Mae Ysgol Felinwnda yn wynebu her i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023-24 gan y bydd yr ysgol yn derbyn dyraniad ar sail niferoedd dysgwyr a bydd

| |
|---|
| hynny ynghyd â swm gwarchodaeth a ddyrannir iddynt yn eu galluogi i gyflogi pennaeth a chymhorthydd yn unig. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth yn ystod y cyfnod gwrthwynebu. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Mae gan ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*<br><br>Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma. |
| **Anabledd** | Dim | Ni rhagwelir y byddai'r newid yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma. Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant fydd ei angen yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisïau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg. |
| **Rhyw** | Dim | Ni fyddai gweithredu y cynnig yn effeithio ar y nodwedd yma. Bydd gweithredu y cynnig yn golygu fydd pawb yn cael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw. Mae Ysgol Felinwnda ac yr ysgolion amgen cyfagos yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: |

| | | |
|---|---|---|
| | | *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Oedran** | Positif | Mae Ysgol Felinwnda yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3-11 oed. Bydd plant Ysgol Felinwnda yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gan fod mwy o ddysgwyr yn yr ysgolion amgen cyfagos, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas i'w hoedran ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.<br><br>Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy addas i'w oedran yn yr ysgol amgen cyfagos oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd a gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy mewn ysgol amgen.<br><br>Fe nodir yn y Polisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |

| | | |
|---|---|---|
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Ddim yn berthnasol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Ddim yn berthnasol. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Felinwnda, yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn yr ysgol amgen.<br><br>Ni ragwelir y byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, a mae'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Felinwnda elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Mae'r ddwy ysgol amgen cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog yn gwasanaethu ardaloedd sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Dim | Ni rhagwelir y bydd yr ysgolion amgen cyfagos, sydd wedi eu lleoli llai na 2.5 filltir i Ysgol Felinwnda yn creu anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y cynnig yn lleihau anfantais cymdeithasol drwy sicrhau mwy o brofiadau ac amrywiaeth dysgu, mwy o adnoddau a mynediad at mwy o wasanaethau a gweithgareddau. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd?  Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni rhagwelir y bydd y cynnig yn cael effaith ar y ddyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu yr ysgolion amgen i barhau i ddilyn polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb.<br><br>Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd cyfartal wrth gael eu lleoli mewn ysgol amgen oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd a gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Gan fod nifer o blant sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda yn barod yn mynychu Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog, mae cysylltiad rhwng yr ysgolion a chymuned Felinwnda yn bodoli eisoes. Er hynny, hyrwyddir cyfleon i'r ysgol adeiladu ar ei chysylltiadau presennol gyda chymuned Felinwnda.<br><br>Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth fwy. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys a gallu perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith y dysgwyr yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'r cynnig.

Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y Sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Felinwnda yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn yr ysgolion amgen.

Ni ragwelir y byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, a mae'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith bositif ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Felinwnda elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

O safbwynt y gymuned mae 1,145 (83%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Llanwnda tra fod 1,015 (82%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Bontnewydd (Ffynhonnell Cyfrifiad 2021) a 1247 (75%) o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward Llandwrog.

Fel y gwelir o'r tabl isod mae canran uchel o ddysgwyr y 2 ysgol yn siarad Cymraeg gartref:

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Canran | Ddim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Ddim yn siarad Cymraeg gartref a nid yn rhugl | Ddim yn gallu siarad Cymraeg o gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Felinwnda** | 6 | 75% | 1 | 0 | 1 | 0 | 8 |
| **Bontnewydd** | 167 | 84% | 5 | 17 | 6 | 4 | 199 |
| **Llandwrog** | 28 | 88% | 0 | 1 | 1 | 2 | 32 |
| | **Cymraeg Rhugl** | | | **Ychydig o Gymraeg** | | **Dim Cymraeg** | |

Yn y cyfnod rhwng 2011 i 2022 mae 29 o unedau preswyl wedi cael ei cwblhau yn nalgylch Felinwnda a mae plant o'r tai eisoes yn mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd o ddewis eu rhieni. Pe gweithredir y cynnig rydym yn hyderus bydd digon o le yn Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog i unrhyw ddysgwyr ychwanegol i'r dyfodol.

Ni ragwelir bydd cau Ysgol Felinwnda yn cael effaith negyddol ar y gymuned na'r iaith Gymraeg gan mai ond 8 plentyn sy'n mynychu'r ysgol gyda 3 ohonynt o dalgylch Felinwnda. Mae 45 o blant

cynradd y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion eraill am eu haddysg gyda 31 ohonynt yn mynychu Ysgol Bontnewydd a 5 yn mynychu Ysgol Llandwrog.

Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir fydd cau yr ysgol yn cael unrhyw effaith negyddol ar allu'r cylchoedd na digwyddiadau eraill rhag parhau.

Niferoedd y Cylch Meithrin dros y 6 mlynedd diwethaf:

| | |
|---|---|
| 2017-18 | 12 |
| 2018-19 | 11 |
| 2019-20 | 6 |
| 2020-21 | 9 |
| 2021-22 | 8 |
| 2022-23 | 16 |

***Ffynhonnell: Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda***

Fel y gwelir uchod, mae niferoedd y Cylch Meithrin wedi bod yn gyson ers nifer o flynyddoedd. Yn anffodus, nid yw yn bosib rhagweld a fydd effaith ar niferoedd sy'n mynychu'r Cylch pe byddai Ysgol Felinwnda yn cau.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Mae'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith bositif ar y Gymraeg gan y bydd dysgwyr Ysgol Felinwnda yn elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

Gall yr Awdurdod Lleol a Chyrff Llywodraethol yr ysgolion amgen ystyried dulliau i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol trwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol a chymunedol.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Bydd y cynnig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at mwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgolion amgen. Bydd dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol,

grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Bydd plant Ysgol Felinwnda yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, a bydd yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Bydd y plant yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Byddwn yn parhau i gasglu gwybodaeth yn sgil canlyniad y cyfnod gwrthwynebu i sicrhau ein bod wedi rhoi sylw dyledus i leihau anghyfartaledd.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal wrth cael eu lleoli mewn ysgol amgen oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Bydd plant Ysgol Felinwnda yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, bydd yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg, ac yn caniatáu mynediad at fwy o weithgareddau berthnasol i'w lefel gallu.

Bydd plant Ysgol Felinwnda yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol. Mae gan holl ysgolion Gwynedd bolisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio, fel sydd gan Ysgol Felinwnda yn bresennol.

Fel Ysgol Felinwnda, mae'r ysgolion amgen yn gwasanaethu ardal o arwyddocâd ieithyddol, felly bydd y dysgwyr yn ymuno ag ysgol Gymraeg ei naws. Gan nad oes gweithgareddau cymunedol

| |
|---|
| yn cael eu cynnal yn Ysgol Felinwnda, a bod Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa, ni ragwelir fydd cau'r ysgol yn effeithio ar allu'r gymuned i barhau i gynnal gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys rhai Cymraeg, yn yr ardal. |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Cydnabyddir y gall colli ysgol fel sefydliad o fewn y gymuned gael effaith ar gydlyniant cymunedol, a rhagwelir yr angen i liniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgolion amgen perthnasol a chymuned Felinwnda.<br><br>Mae gan Felinwnda Ganolfan Gymunedol, felly mae'n annhebygol y bydd ar y gymuned angen adnodd cymunedol arall. Serch hynny mae gan Gyngor Gwynedd bolisi ôl-ddefnydd ysgolion sy'n rhoi cyfle i gymunedau ysgolion sy'n cau gyflwyno cynnig am berchnogaeth safleoedd ar gyfer defnydd cymunedol. |


### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

| |
|---|
| Yr ysgol (a'u Corff Llywodraethu) sydd yn gyfrifol am weithredu ei pholisi cydraddoldeb a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cefnogi a monitro arferol, yn sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Mae gan addysg cydberthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd oll yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. |

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Y bwriad yw cynnal cyfnod gwrthwynebu yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet, a byddwn yn addasu'r asesiad yn dilyn unrhyw sylwadau perthnasol a dderbynnir o ganlyniad i'r cyfnod gwrthwynebu, ac unrhyw drafodaethau gyda rhan-ddeiliaid. |




# Adroddiad Asesu Effaith Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol – cynnig i gau Ysgol Felinwnda

- Mehefin 2023

## CYNNWYS

1. **CYFLWYNIAD**

2. **SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?**

3. **A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?**

4. **EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY**

5. **CASGLIAD**

## 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae' r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWYNEDD YFORY<br>Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc | ■ | | ■ | ■ | | ■ | |
| GWYNEDD LEWYRCHUS<br>Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | |
| GWYNEDD GLYD<br>Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau | | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD OFALGAR<br>Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD GYMRAEG<br>Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. | | | | | ■ | ■ | |
| GWYNEDD WERDD<br>Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd | ■ | ■ | | | ■ | | ■ |
| GWYNEDD EFFEITHLON<br>Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon | ■ | | | ■ | | | |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2023-2028".

### 1.1 Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae sefyllfa Ysgol Felinwnda wedi dod i sylw'r Adran Addysg oherwydd, yn ôl Cyfrifiad Medi 2022, hon yw'r ysgol gyda'r nifer lleiaf o ddysgwyr yng Ngwynedd. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda dros y 10 mlynedd diwethaf, o 31 disgybl yn 2012 i lawr i 8 disgybl erbyn heddiw, sydd yn arwain at pryderon ynglŷn â dyfodol yr ysgol.

### 1.2 Y cynnig dan sylw

Oherwydd y niferoedd isel a materion pryderus eraill gyda'r ysgol cynhaliwyd werthusiad o nifer o opsiynau fyddai'n ymateb iddynt gan ddod i'r penderfyniad mae'r opsiwn ffafriedig fyddai **cynnig i gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024**

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

| Amcanion | Manylion: |
|---|---|
| **Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc** | Bydd y cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr. |
| **Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng** | Rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n arwain at ddiswyddiadau staff. Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion. |
| **Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau** | Dim effaith. |
| **Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau** | Bydd sicrhau fod y dysgwyr yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon yn yr ysgolion amgen. |
| **Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Mae dysgwyr Ysgol Felinwnda yn byw mewn cymdeithas Gymraeg ac yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog. Mae'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Felinwnda elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Mae Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog yn gwasanaethu ardaloedd sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg gyda nifer uchel o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. |
| **Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd** | Dim effaith. |
| **Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon** | Dim effaith. |

# 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith. | Bydda gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda ac addysgu'r plant mewn ysgol amgen cyfagos yn golygu fod y dysgwyr yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr.<br><br>Gall cyflwyno'r opsiwn yma arwain at staff yn colli eu swyddi. | Bydd staff a chynrychiolwyr yr Undebau yn benodol yn cael cyfle i fynegi barn yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Bydd y cynnig yn gwella gallu'r Awdurdod i *"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"* yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. | Nodai'r Asesiad Cydraddoldeb na ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gydraddoldeb. Yn ogystal, nodwyd fod polisïau a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael unrhyw effaith negyddol ar y gymuned. | Cynhaliwyd asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned ble nodir bod 31 o ddysgwyr sydd yn byw yn nalgylch Felinwnda eisoes yn dewis mynychu Ysgol Bontnewydd a 5 yn mynychu Ysgol Llandwrog, ac felly mae cyswllt eisoes rhwng yr ysgolion amgen a'r ardal ehangach. Nodir yn yr asesiad yn ogystal y byddai trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod unrhyw weithgarwch cymunedol yn yr ysgolion amgen yn cynnwys cymuned Felinwnda.<br><br>Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir fydd cau yr ysgol yn cael unrhyw effaith ar allu'r cylchoedd na digwyddiadau eraill rhag parhau. |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Bydd gwireddu'r cynnig yn golygu y bydd dysgwyr Ysgol Felinwnda yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. | Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir fydd cau yr ysgol yn cael unrhyw effaith ar allu'r cylchoedd na digwyddiadau eraill rhag parhau. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Tymor Hir**<br>Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol. | Mae'r patrwm o niferoedd dysgwyr yn gostwng wedi bod yn gyson ers 2012, gyda rhagamcanion yn dangos y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda yn lleihau ymhellach dros y blynyddoedd nesaf, ac felly dengys y bydd yr heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor a bod angen ymateb i'r mater cyn gynted â phosib. |
| **Atal**<br>Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb. | Anghenion y disgyblion fydd yn cael ei flaenoriaethu yn ystod pob cam o'r broses. |
| **Integreiddio**<br>Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant. | Bu i'r awdurdod benderfynu edrych ar ddyfodol Ysgol Felinwnda yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol. |
| **Cydweithredu**<br>Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau. | Bydd cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill a'r ysgolion amgen yn rhan bwysig o gyflawni'r amcanion er lles yr ysgol a phlant y dalgylch. |
| **Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu)**<br>Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal. | Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig, bydd yr awdurdod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, golyga hynny y byddem yn cynnal cyfnod gwrthwynebu yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol, er mwyn ystyried unrhyw wrthwynebiadau cyn dod i benderfyniad terfynol. |




## 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Cydnabyddir fod y cynnig hwn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Felinwnda, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu yr ysgolion amgen cyfagos, ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned Felinwnda eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol yr ysgol amgen yn cynnwys cymuned Felinwnda lle'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.




# Adroddiad Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned – cynnig i gau Ysgol Felinwnda

- Mehefin 2023

# Cynnwys


1. CYFLWYNIAD
2. Y CYNNIG
3. CRYNODEB O'R DALGYLCH
4. YSGOLION Y DALGYLCH
5. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED
6. CASGLIAD

## 1. CYFLWYNIAD

Fel rhan o'r broses statudol, wrth ddatblygu cynnig ar gyfer ad-drefnu ysgol, mae rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn ag anghenion unigryw ardaloedd gwledig. Fe nodir yn y Cod:

*"Mewn rhai ardaloedd, efallai mai ysgol fydd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd benodol mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgolion fel man i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol."*

*"Dylai'r achos a gaiff ei baratoi gan y rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ddangos bod effaith cau'r ysgol ar y gymuned wedi'i hasesu drwy lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a dangos sut y gellid cynnal unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd."*

Ffynhonnell: Cod Trefniadaeth Ysgolion 011 /2018

### 1.1 Cefndir

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae sefyllfa Ysgol Felinwnda wedi dod i sylw'r Adran Addysg yn ôl Cyfrifiad Medi 2022, hon yw'r ysgol gyda'r nifer lleiaf o ddysgwyr yng Ngwynedd. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda dros y 10 mlynedd diwethaf, o 31 disgybl yn 2012 i lawr i 8 disgybl erbyn heddiw, sydd yn arwain at ansicrwydd ynglŷn â dyfodol yr ysgol.

## 2. Y CYNNIG

Yn dilyn cynnal gwerthusiad o gwahanol opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth, daethpwyd i'r casgliad mai'r opsiwn ffafriedig ydi:

**Cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.**

## 3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

### 3.1 Yr Ardal

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ym mhentref gwledig Llanwnda ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon yng Ngwynedd, gyda thua 2000 o drigolion. Mae wedi ei leoli 3.9 milltir o Gaernarfon. Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 1,994 o bobl yn byw yn ward Llanwnda.

### 3.2 Yr Economi

Mae 72.4% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Llanwnda yn weithgar yn economaidd, a 2.9% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 27.6% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 13.8% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (18.5%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol.

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014)' mae cyfradd cyflogaeth ward Llanwnda o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1254 allan o 1909 o wardiau. Nid yw ward Felinwnda felly o fewn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## 3.3 Amddifadedd

Mae Ward Llanwnda wedi 'w raddio o fewn y 50% lleiaf difreintiedig yng Nghymru (ranc 1046 allan o 1909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod ward Llanwnda o fewn y 20-30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Llanwnda o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut y mae ardal Llanwnda wedi ei lleoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

| **Maes** | **Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd. (1 = mwyaf difreintiedig a 1909 = lleiaf difreintiedig)** | **Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru** |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | 1254 | |
| Incwm | 1092 | |
| Iechyd | 1435 | |
| Addysg | 1437 | |
| Tai | 388 | O fewn y 20-30% mwyaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 1020 | |
| Mynediad i wasanaethau | 116 | O fewn y 10% mwyaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 1513 | |

## 3.4 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Ward Llanwnda, gan gynnwys;

- Sensori Sara
- Clwb darllen
- Ras Rhostryfan
- Bore goffi
- Cylch Ti a Fi

- Cylch Meithrin
- Merched y Wawr
- Zumba
- Y Gymdeithas

Yn ogystal, mae nifer o gyfleusterau yn y dalgylch, gan gynnwys canolfan gymunedol, siopau, garej, trafnidiaeth gyhoeddus, gorsaf drên bach a chae chwarae plant.

## 4. YSGOLION Y DALGYLCH

### 4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn, gosodir yr ysgolion o fewn cyd-destun, a manylir ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Felinwnda gan arolygwyr Estyn.

**Ysgol Felinwnda**

*"Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos."*

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Mehefin 2017

### 4.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Felinwnda a'r ddwy ysgol cyfagos, sef Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgolion a nifer ar y gofrestr yn Ionawr 2023. Mae'r tair ysgol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

| Ysgol | **Capasiti Llawn** (M – Bl6) | **Nifer ar y gofrestr** Ionawr 2023 (M – Bl6) | Categori Cyfreithiol |
|---|---|---|---|
| **Felinwnda** | 61 | 8 | Ysgol Gymunedol |
| **Bontnewydd** | 208 | 204 | Ysgol Gymunedol |
| **Llandwrog** | 75 | 32 | Eglwysig, Yr Eglwys yng Nghymru |

***Ffynhonnell: CYBLD Ionawr 2023***

### 4.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion dysgwyr

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddysgwyr fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad).

O gymharu â dalgylchoedd eraill yr ardal, mae nifer dysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda sy'n dewis mynychu ysgol all-dalgylch yn uchel. Dengys y data diweddaraf fod 48 o blant 3-11 oed (data Medi 2022) yn byw yn nalgylch Felinwnda; gyda dim ond 3 ohonynt yn mynychu Ysgol Felinwnda. Golyga hyn

fod 94% o blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda yn mynychu ysgolion all-dalgylch gan gynnwys 31 sydd yn mynychu Ysgol Bontnewydd a 5 yn mynychu Ysgol Llandwrog.

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth gyflawn o ran lleoliadau byw dysgwyr a'u dewis o ran ysgol.

| | | Byw yn Dalgylch (Medi 2022) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Bontnewydd** | **Felinwnda** | **Llandwrog** | **Maesincla** | **Rhosgadfan** | **Rhostryfan** | **Y Gelli** | **Yr Hendre** | **Arall** | **Cyfanswm Ysgol *(M-Bl6)*** |
| **Mynychu Ysgol (Medi 2022)** | **Bontnewydd** | 94 | 31 | 1 | 10 | 6 | 12 | 3 | 26 | 26 | **209** |
| | **Felinwnda** | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | **9** |
| | **Llandwrog** | 0 | 5 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | **33** |
| | **Maesincla** | 0 | 1 | 0 | 212 | 1 | 1 | 5 | 44 | 9 | **273** |
| | **Rhosgadfan** | 0 | 0 | 0 | 0 | 38 | 0 | 0 | 0 | 7 | **45** |
| | **Rhostryfan** | 4 | 0 | 1 | 0 | 20 | 50 | 0 | 0 | 1 | **76** |
| | **Santes Helen** | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 | 0 | 7 | 6 | 8 | **35** |
| | **Y Gelli** | 0 | 0 | 0 | 55 | 1 | 0 | 132 | 36 | 5 | **229** |
| | **Yr Hendre** | 3 | 5 | 2 | 131 | 2 | 0 | 18 | 232 | 4 | **397** |
| | Arall | 11 | 3 | 7 | 20 | 16 | 12 | 9 | 19 | | |
| **Cyfanswm** | | **112** | **48** | **31** | **442** | **84** | **75** | **174** | **363** | | |

***Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2022***

## 4.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yn cymuned Felinwnda (Mawrth 2023)

| | **Felinwnda** |
|---|---|
| **Canolfan Gymuned / Neuadd Bentref** | ✓ |
| **Capel/Eglwys** | ✓ |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | ✓ |
| **Siop** | ✓ |
| **Caffi/Tafarn** | |
| **Swyddfa Bost** | |
| **Fferyllfa** | |
| **Llyfrgell** | |
| **Cae Chwarae Plant** | ✓ |
| **Banc** | |
| **Cartref Henoed** | |
| **Canolfan Hamdden** | |
| **Garej** | ✓ |
| **Atyniad Twristaidd** | ✓ |
| **Cylch Ti a Fi + Meithrin** | ✓ |

**Canolfan Gymunedol**

Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesaf i Ysgol Felinwnda ac yn cynnal nifer o weithgareddau cymunedol gan gynnwys:

- Sensori Sara
- Cymdeithas Hanes y Tair Llan
- Zumba
- Merched y Wawr
- Cylch Meithrin
- Cylch Ti a Fi

Mae gwefan Mudiad Meithrin yn dangos fod y Cylch Meithrin yn cwrdd dydd Llun i Gwener rhwng 9:00-12:50 a'r Cylch Ti a Fi bod pnawn dydd Mercher (13:15 – 15:30). Gan fod y Ganolfan yn annibynnol i'r ysgol ni ragwelir fydd cau yr ysgol yn cael unrhyw effaith ar allu'r cylchoedd i barhau.

Yn ôl y Pennaeth, does dim defnydd cymunedol o Ysgol Felinwnda tu allan i oriau ysgol.

## 4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd â nhw:

| | Felinwnda |
|---|---|
| **Cylch Meithrin/Ti a Fi** | |
| **Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)** | ✓ |
| **Adrannau'r Urdd** | ✓ |
| **Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)** | ✓ |

4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff yr ysgol ei chau?

| Ysgol | Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau |
|---|---|
| **Felinwnda** | Does dim defnydd cymunedol yn cael ei wneud o'r ysgol a mae Canolfan Bro Llanwnda ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau yn yr ardal. |

## 4.8 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae'r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Bontnewydd yw'r agosaf at Ysgol Felinwnda. Mae'r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a'r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal wledig.

| Ysgol | | Felinwnda | Bontnewydd | Llandwrog |
|---|---|---|---|---|
| **Felinwnda** | **Milltir** | | | |
| | **Munudau** | | | |
| **Bontnewydd** | **Milltir** | **1.8 milltir** | | |
| | **Munudau** | **4 munud** | | |

| Llandwrog | Milltir | 2 milltir | 3.9 milltir | |
|---|---|---|---|---|
| | Munudau | 8 munud | 8 munud | |

***Ffynhonnell: Mapiau Google 2023***

## 5. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd creu meini prawf yn unol ag argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

**CAU YSGOL FELINWNDA GAN DROSGLWYDDO'R DYSGWYR I YSGOL AMGEN CYFAGOS**


| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Gan fod dros 50% o'r dysgwyr o dalgylch Felinwnda yn byw o fewn 2 filltir i Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog a bod rhai llwybrau saff i'r ysgolion bydd cyfle i rai gerdded i'r ysgol.<br><br>Mi fydd bod mewn ysgol mwy yn cynnig mwy o gyfleoedd chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon tîm a felly yn gyfrannu at iechyd a llesiant dysgwyr. | Positif |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Ni ragwelir bydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y bydd unrhyw gludiant i ysgol amgen yn sgil y newid yn cael ei drefnu yn benodol ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn unol a Polisi Cludiant y Sir. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Does dim defnydd cymunedol o Ysgol Felinwnda felly ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol ar hyn.<br><br>Lleolir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yng Nghanolfan Bro Llanwnda sydd wedi ei leoli drws nesa i Ysgol Felinwnda. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir fydd cau yr ysgol yn cael unrhyw effaith ar allu'r cylchoedd i barhau. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Gan fod nifer uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion amgen yn barod ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned. Gan fod 2 ysgol amgen rhyw 2 filltir o Ysgol Felinwnda, ni rhagwelir y byddai'n cael effaith ar deuluoedd a phant oedran ysgol yn gadael y gymuned. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Lleolir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yng Nghanolfan Bro Llanwnda. Mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir fydd cau yr ysgol yn cael unrhyw effaith ar allu'r cylchoedd na digwyddiadau eraill rhag parhau. Gan fod nifer uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, ni ellir dod i gasgliad y byddai cau yr ysgol yn cael effaith ar wasanaethau eraill. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan fod y rhan fwyaf o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill, ni ragwelir y byddai cau Ysgol Felinwnda yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Gan fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, nid ydym yn rhagweld y byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. | Niwtral |

## 6. CASGLIAD

Gwelir yn yr asesiad nad oes unrhyw ddefnydd cymunedol o'r ysgol. Mae Canolfan Bro Llanwnda wedi ei lleoli drws nesa i'r ysgol ac yn cynnal nifer o weithgareddau gan gynnwys y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael unrhyw effaith ar allu'r cylchoedd na digwyddiadau eraill rhag parhau.

Pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i ddysgwyr mewn ysgol amgen yn cael ei wireddu, ni ragwelir y byddai'n cael unrhyw effaith negyddol ar gymuned Felinwnda. Er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol posib ar y dysgwyr, byddwn yn annog trafodaethau rhwng yr ysgol neu ysgolion amgen a rhieni dysgwyr Ysgol Felinwnda fel bod modd iddynt fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog cydweithio rhwng yr ysgol a chymuned Felinwnda.




# Adroddiad Asesiad ar yr Effaith Debygol ar Drefniadau Teithio – cynnig i gau Ysgol Felinwnda

- Mehefin 2023

## Cynnwys


**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

1.2 Cyd-destun Ysgol Felinwnda

**2. YR OPSIYNAU DAN SYLW**

**3. ASESIAD O'R EFFAITH AR DREFNIADAU TEITHIO**

3.1 Lleoliad yr ysgol amgen

3.2 Opsiwn cludiant di-dâl

3.3. Effaith ariannol

**4. CASGLIAD**

# 1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae sefyllfa Ysgol Felinwnda wedi dod i sylw'r Adran Addysg yn ôl Cyfrifiad Medi 2022, hon yw'r ysgol gyda'r nifer lleiaf o ddysgwyr yng Ngwynedd. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda dros y 10 mlynedd diwethaf, o 31 disgybl yn 2012 i lawr i 8 disgybl erbyn heddiw, sydd yn arwain at ansicrwydd ynglŷn â dyfodol yr ysgol.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Oherwydd y niferoedd isel yr ysgol a materion pryderus eraill yn ei chylch, cynhaliwyd gwerthusiad o nifer o opsiynau a fyddai'n ymateb iddynt gan ddod i'r penderfyniad mai'r opsiwn ffafriedig fyddai i **gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.**

## 1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (nid yw'n cynnwys dysgwyr meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni:
(https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Gwybodaeth-i-Rieni.pdf)

## 1.2 Cyd-destun Ysgol Felinwnda

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed ac mae ganddi gapasiti o 61 (M-Bl6).

Yn Medi 2022, roedd 48 o ddysgwyr rhwng 3-11 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda gyda 3 o'r disgyblion rheiny yn mynychu Ysgol Felinwnda. Golyga hynny fod 45 o ddysgwyr y dalgylch (rhwng 3-11 oed) yn mynychu ysgolion all-dalgylch, gyda 31 ohonynt yn mynychu Ysgol Bontnewydd a 5 yn mynychu Ysgol Llandwrog.

## 2. Y CYNNIG DAN SYLW

Cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.

Mae'r ysgolion amgen cyfagos wedi ei lleoli rhyw 2 filltir o Ysgol Felinwnda. Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd byddai'r awdurdod yn cynnig cludiant i ddysgwyr dalgylch presennol Ysgol Felinwnda fyddai'n dewis mynychu ysgol amgen ac yn byw mwy na 2 filltir o'r ysgol.

Yn ogystal, o ran y dysgwyr fyddai'n dewis mynychu ysgol amgen ond yn byw llai na 2 filltir i ffwrdd o'r ysgol, ni fyddant yn gymwys i gludiant di-dâl oni bai y byddent yn teithio i'r ysgol ar hyd ffordd y mae'r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn. Yn yr achos yma darperir cludiant i'r dysgwyr rheiny yn ddi-dâl.

## 3. ASESIAD O'R EFFAITH AR DREFNIADAU TEITHIO

### 3.1. Lleoliad yr ysgol amgen

Mae dwy ysgol amgen cyfagos wedi eu lleoli rhyw 2 filltir o Ysgol Felinwnda.

### 3.2. Opsiynau cludiant di-dâl

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Gan fod y llwybr i Ysgol Felinwnda yn cael ei ystyried fel un peryglus i rai o'r dysgwyr, mae'r awdurdod eisoes yn darparu tacsi di-dâl i 2 o'r 3 dysgwr o'r dalgylch sy'n mynychu Ysgol Felinwnda a rhagwelir bydd angen parhau a'r trefniant yma i'r ysgol amgen os bydd y cynnig i gau Ysgol Felinwnda yn cael ei weithredu ar 31 Rhagfyr 2023.

Mi fydd y niferoedd y bydd angen trefnu cludiant di-dal ar eu cyfer yn y tymor hir yn ddibynnol ar ganlyniad adolygu ffiniau dalgylchoedd ysgolion yn yr ardal.


### 3.3. Effaith ariannol

Bydd cost cludiant os yn cymeradwyo **cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023 a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024** yn ddibynnol ar ddewis ysgol amgen rhieni'r 3 plentyn sy'n byw yn nalgylch Ysgol Felinwnda.

Ar sail prisiau Medi 2022,  mi fydda tacsi 3 sedd yn costio £40-£60 y dydd, felly'n costio oddeutu £7,400 - £11,100 y flwyddyn i un ysgol. Os fydd y 3 plentyn angen tacsis i 2 ysgol wahanol yna mi fydd y gost yn £14,800 - £22,200 y flwyddyn.

## 4. CASGLIAD

Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, byddai dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Felinwnda ar hyn o bryd, ac yn byw o fewn y dalgylch, yn cael cynnig cludiant di-dal i ysgol amgen o 1 Ionawr 2024, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir, ar gost blynyddol o rhwng  £7,400 - £22,200.




# Adroddiad Asesu Ansawdd a Safonau Addysg – Cynnig i gau Ysgol Felinwnda

- Mehefin 2023

## Cynnwys

1. CYFLWYNIAD
2. CRYNODEB
3. ASESIAD O EFFAITH AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG
4. CASGLIAD

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae sefyllfa Ysgol Felinwnda wedi dod i sylw'r Adran Addysg oherwydd, yn ôl Cyfrifiad Medi 2022, hon yw'r ysgol gyda'r nifer lleiaf o ddysgwyr yng Ngwynedd. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Felinwnda dros y 10 mlynedd diwethaf, o 31 disgybl yn 2012 i lawr i 8 disgybl erbyn heddiw, sydd yn arwain at bryderon ynglŷn â dyfodol yr ysgol.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Oherwydd niferoedd isel yr ysgol a materion pryderus eraill yn ei chylch, cynhaliwyd gwerthusiad o nifer o opsiynau fyddai'n ymateb iddynt gan ddod i'r penderfyniad mai'r opsiwn ffafriedig fyddai i **gau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau posibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

## 2. CRYNODEB

Yn dilyn arolygiad Estyn diwethaf yn 2017 daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol Ysgol Felinwnda yn 'Dda'.

Gweler isod grynodeb o arolygon diweddaraf Ysgol Felinwnda.

Mae Ysgol Gynradd Felinwnda wedi ei lleoli ger pentref Saron a Dinas ar gyrion Caernarfon ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed a mae ganddi gapasiti o 61 (M-Bl6).

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? |
|---|---|---|---|---|
| **Felinwnda** | Mehefin 2017 | Da | Da | Da |

## 3. YR OPSIWN DAN SYLW

**Cau Ysgol Felinwnda ar 31 Rhagfyr 2023, a'r disgyblion presennol i drosglwyddo i ysgol amgen cyfagos, yn unol â dewis rhieni, o 1 Ionawr 2024.**

Golyga'r opsiwn yma y byddai Ysgol Felinwnda yn cau, ac y byddai'r dysgwyr presennol yn cael cynnig lle mewn ysgol amgen cyfagos. Byddai darpariaeth cludiant trosiannol ar gael i ddisgyblion presennol Ysgol Felinwnda (sydd hefyd yn byw yn nalgylch yr ysgol) i naill ai Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.

**CAU YSGOL FELINWNDA A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL AMGEN CYFAGOS**

**ASESIAD O'R EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Felinwnda yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Ysgol Bontnewydd yn 'Ardderchog' ac Ysgol Llandwrog yn 'Dda'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith positif neu o leiaf niwtral ar y meini prawf hwn drwy addysgu'r dysgwyr mewn ysgolion amgen cyfagos. | Positif / Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Lles' ar gyfer Ysgol Felinwnda, Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad na ragwelir effaith niwtral ar y maes yma trwy addysgu'r dysgwyr mewn ysgolion amgen cyfagos. | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Felinwnda, Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Er hynny, gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog rhagwelir bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy a chyda cyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr Ysgol Felinwnda i mewn ysgolion amgen cyfagos. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Felinwnda yn eu harolwg diwethaf yn 2017, tra bod y canlyniad ar gyfer Ysgol Bontnewydd yn 'Rhagorol' ac Ysgol Llandwrog yn 'Dda'. O ganlyniad, bernir y byddai'r opsiwn yn cael effaith bositif neu o leiaf niwtral ar arweiniad a chymorth gofal o drosglwyddo dysgwyr Ysgol Felinwnda i ysgolion amgen cyfagos. | Positif / Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Felinwnda fod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr ysgol yn 'Dda' tra barnwyd bod arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Bontnewydd yn 'Rhagorol' ac Ysgol Llandwrog yn 'Dda'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith bositif neu o leiaf niwtral o addysgu dysgwyr Ysgol Felinwnda mewn ysgolion amgen cyfagos. | Positif / Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Felinwnda yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o addysgu dysgwyr Ysgol Felinwnda mewn ysgolion amgen cyfagos. | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Felinwnda Mehefin 2017, Ysgol Bontnewydd Chwefror 2017 ac Ysgol Llandwrog Gorffennaf 2019.*

## 4. CASGLIAD

Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiad uchod a chymharu adroddiadau Estyn, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn y 2 ysgol amgen cyfagos yn uwch (Ardderchog), ac o leiaf gystal (Da), i gymharu a safon yr addysg yn Ysgol Felinwnda (Da). O ganlyniad, rhagwelir y byddai effaith positif tebygol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i gau Ysgol Felinwnda a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol neu ysgolion amgen cyfagos.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11 Gorffennaf 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Menna Trenholme** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2022-23** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron sy'n adrodd ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2022-23.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

2.2. Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion diogelu.

### 3. CEFNDIR

3.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod y cyfnod.

3.2. Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel yn gywir a theg, gan hefyd gynnwys cyfeiriadau at adroddiadau neu sylwadau gan archwilwyr allanol ar y gwaith hwn.

### 4. Barn y Swyddogion Statudol:

**i) Y Swyddog Monitro:**

Fel aelod o'r Panel rwy'n croesawu'r adroddiad sydd yn grynodeb priodol o'r gwaith  Mae'n gyfrwng i roi sicrwydd i'r Cabinet ynglŷn â'r cyfrifoldeb allweddol yma.

**ii) Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

# ADRODDIAD PANEL STRATEGOL DIOGELU

# 2022-23

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Cyflwyna'r adroddiad drosolwg o waith y Panel Strategol Diogelu dros y cyfnod Ebrill 2022 hyd at Mawrth 2023 gan amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor ei hun, a gan y Cyngor mewn partneriaeth ag eraill.

1.2. Ystyria'r adroddiad y drefn a fu a'r bwriad ar drefniant y panel i'r dyfodol.

## 2. CYFRIFOLDEBAU AC ATEBOLRWYDD

2.1. Nod y Panel Strategol Diogelu yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol.

2.2. Mae'r Panel yn ei dro yn atebol i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd â'r atebolrwydd terfynol am faterion diogelu.

2.3. Cadeirydd y Panel dros y cyfnod dan sylw oedd y Cynghorydd Dilwyn Morgan hyd at fis Hydref 2022, ac yna'r Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol. Gwelir y Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1, sy'n cynnwys rhestr o aelodau cyfredol y Panel.

2.4. Mae Panel Gweithredol Diogelu yn cefnogi'r Panel Strategol i weithredu ei flaenoriaethau ac i ymdrin â materion ymarferol y maes gwaith. Panel mewnol o swyddogion yw hwn, gyda phencampwr diogelu pob adran o'r Cyngor yn eistedd arno, a hynny er mwyn sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan o faterion diogelu.

2.5. Mae rhannau o berfformiad y Cyngor yn y maes diogelu yn cael ei asesu gan archwilwyr allanol annibynnol fel rhan o'u gwaith o asesu perfformiad ehangach. Cyfeirir at adroddiadau perthnasol o fewn yr adroddiad hwn.

## 3. CYNNYDD YN ERBYN Y MATERION DIOGELU

3.1. Gwelir cynnydd yn y niferoedd o gyfeiriadau diogelu at wasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd ers dechrau'r cyfnod clo y pandemig (2020 ymlaen).

3.2. **Diogelu Plant**

3.2.1. Cynyddodd y niferoedd o gyfeiriadau at y gwasanaethau plant o tua 5,000 cyn y pandemig i **7,175** yn ystod 2022-23. Bu'r pwysau gwaith ar y gwasanaeth yn llethol a bu'r gweithlu yn hynod brysur yn cefnogi'n plant a'n teuluoedd.

3.2.2. Fodd bynnag, golyga'r pwysau cynyddol bod yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw staff cymwysedig. Mae Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain ar grŵp sydd yn ystyried heriau recriwtio a chyflogau'r gweithlu ar hyn o bryd.

3.2.3. Tystiolaeth o waith ardderchog y gweithlu drwy'r cyfnod hwn yw'r ffaith fod 84% o adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau hefyd yn **98%.**

3.2.4. Gwynedd yw'r unig awdurdod i gynnal ei holl Gynadleddau Achos Diogelu Plant wyneb yn wyneb yn dilyn y pandemig, rhywbeth sydd wedi ei adnabod fel arfer da iawn gan Arolygaeth Gofal Cymru.

3.2.5. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd **68** o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac roedd **281** o blant mewn gofal, gyda 65% o'r rhain yn derbyn gofal mewn lleoliad maeth, gyda 36% o ofalwyr maeth yn deulu neu ffrindiau a 22% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'u rhieni, ac felly'n parhau gartref.

3.3. **Diogelu Oedolion**

3.3.1. Bu cynnydd yn nifer yr adroddiadau Oedolion mewn Perygl a dderbyniwyd o **654** yn ystod 2021/22 i **714** yn 2022/23. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, mae **95%** o'r ymholiadau cychwynnol a.126 i atgyfeiriadau diogelu wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 7 diwrnod.

3.3.2. O'r adroddiadau oedolion mewn perygl a dderbyniwyd, rheolwyd y risg mewn **98%** o'r achosion o'u cymharu ag **84%** am y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, teimlir bod y cynnydd yn deillio'n bennaf o'r gwelliannau wrth gofnodi canlyniadau yn hytrach nag o newid mewn ymarfer.

3.3.3. Cynhaliwyd ymweliadau cyson i fonitro cartrefi gofal y sir, gyda nifer fechan o gartrefi yn cael eu hystyried o dan y drefn 'Pryderon Cynyddol' oherwydd rhesymau amrywiol, gan fwyaf yn cynnwys diffyg rheolaeth, problem dogfennaeth, a diffyg

trosolwg. Pryderir am adnoddau dynol y tîm Sicrwydd Ansawdd a'u gallu i ymweld â phob gwasanaeth, yn enwedig gwasanaethau gofal cartref, a dibynnir ar adroddiadau penodol yn y maes hwnnw ynglŷn ag ansawdd y gofal a'i ddarpariaeth.

3.3.4. Pery pryder am y gwasanaeth DoLS (trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid – Deprivation of Liberty Safeguards) yn ystod y flwyddyn gan fod rhai unigolion ar y rhestr aros am hyd at 3 mlynedd. Tra rhennir y math hwn o brofiad a sefyllfa gyda siroedd eraill, nid yw'n arfer da ac mae'r gwasanaeth yn gorfod blaenoriaethu unigolion yn ôl risg.

3.3.5. Fe ddisgwyliwyd i'r Llywodraeth gyflwyno system newydd, haws i'w gweinyddu, ond oedwyd hynny oherwydd y pandemig. Bu Uwch Reolwr Diogelu Oedolion yn rhan o'r Grŵp Llywio Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) cenedlaethol a cwblhawyd Holiadur Sylfaen Data LPS ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru.

3.3.6. Fodd bynnag, mae cadarnhad bellach na fydd y drefn Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) newydd yn cael ei gyflwyno a bydd angen ystyried yr her o reoli'r ceisiadau DoLS ymhellach.

3.4. **<u>Addysg</u>**

3.4.1. Cynhaliwyd **Arolwg Blynyddol Diogelu** gan y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg ym mis Mawrth 2023. Nodwyd fod:

- **87%** o'r "Prif Bersonau Diogelu" mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf;
- **70%** o Lywodraethwyr Dynodedig Ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i'w rôl yn y ddwy flynedd diwethaf;
- **97%** o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno Hyfforddiant sylfaenol Diogelu i'r holl staff cyn diwedd Tymor y Gaeaf;
- **100%** o ysgolion Gwynedd yn nodi eu bod yn hyderus bod holl staff yr ysgol a gwirfoddolwyr yn gwybod beth i'w wneud pe byddai plentyn yn datgelu gwybodaeth am gamdriniaeth.

3.4.2. Bu newid i dîm rheoli'r Adran Addysg, a llwyddwyd i benodi Swyddog Llesiant a Chydraddoldeb newydd. Bydd y rôl yma yn hyrwyddo Cydraddoldeb a Lles ar draws Gwasanaethau Addysg Gwynedd.

3.4.3. Mae ymdrech wedi cychwyn yn rhanbarthol i adolygu'r **Polisi Grym Rhesymol** yn sgil ambell achos sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar. Bydd y ffrwd gwaith yma yn bwysig yn ystod 2023/24 er mwyn cysoni'r hyn a olygir â grym rhesymol.

3.4.4. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd **183** o rieni yn dewis addysgu eu plant gartref, a hynny yn dilyn cynnydd a welwyd yn y cyfnod pandemig. Nodwyd mai'r prif resymau am addysgu o gartref oedd gor-bryder a phroblemau iechyd meddwl y rhiant a'r disgybl. Am resymau diogelwch a llesiant, mae'n bwysig fod yr awdurdod yn cadw cyswllt a'r teuluoedd yma, a llwyddwyd i wneud hynny gyda **146** plentyn. Fodd bynnag, fe wrthododd **9** teulu unrhyw gyswllt (yn unol â'i hawliau).

3.5. **<u>Trais yn y Cartref</u>**

3.5.1. Mae cydweithrediad da rhwng y Cyngor a'r Mudiadau perthnasol ac mae ymdrechion i hyrwyddo pwysigrwydd adrodd ac adnabod arwyddion o drais yn y cartref yn parhau. Ym mis Mai 2022, derbyniodd y Cyngor achrediad 'Rhuban Gwyn' oedd yn cydnabod yr ymdrech o fod yn ymgysylltu â dynion a bechgyn, newid diwylliant a chodi ymwybyddiaeth am atal trais yn erbyn merched. Bu swyddogion o'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar sicrhau'r achrediad ac yna'n sefydlu'r cynllun gweithredu ar y cyd efo sefydliad 'Rhuban Gwyn'.

3.5.2. Erbyn hyn mae'r e-fodiwl Trais yn y Cartref yn fandadol i holl aelodau staff. Mae'n hollbwysig fod y gweithlu yn derbyn yr hyfforddiant i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi unigolion ac i godi ymwybyddiaeth. Mae'r hyfforddiant 'Ask and Act' hefyd yn cael ei hyrwyddo er mwyn rhoi hyder i staff i helpu unigolion sy'n profi trais, cam-drin domestig neu drais rhywiol.

3.5.3. Rhaid cofio nad oes gan bob aelod staff y Cyngor fynediad rhwydd i systemau TG y Cyngor ac mae hyn yn creu rhwystr. Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn edrych ar y rhaglen anwytho i geisio sicrhau fod pawb yn cwblhau'r e-fodiwlau ar ddiwrnodau cyntaf o gychwyn ei swydd.

3.5.4. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cydweithio yn agos gyda'r Ymgynghorydd Rhanbarthol Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Gogledd Cymru). Yn dilyn Adolygiad Marwolaethau Domestig mae'r Bartneriaeth yn monitro'r cynllun gweithredu pob chwarter i wneud yn siŵr bod pawb oedd yn rhan o'r adolygiad yn gwneud y newidiadau cytunwyd.

3.5.5. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y drefn Adolygiad Marwolaethau Domestig ac yn edrych i sefydlu system Adolygu Diogelu Unedig Sengl (ADUS). Bydd y broses hon yn symleiddio'r drefn presennol drwy gyfuno'r prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant, Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl, Adolygiad Lladdiad Domestig ac Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol presennol.

3.6. **<u>Troseddu</u>**

3.6.1. O ganlyniad i'r argyfwng costau byw gwelwyd cynnydd o **14.7%** mewn achosion o droseddu drwy ddwyn yn lleol. Gyrrir hyn yn bennaf gan gynnydd mewn Siopladradau, sy'n disgyn o fewn y categori Dwyn a Thrafod. Mae'r Bartneriaeth yn gweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau allanol i ymateb ac i weld pa gymorth sydd angen ar y gymuned.

3.6.2. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn paratoi ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol, fydd yn statudol ym mis Ionawr 2024. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i atal a lleihau trais difrifol, ac bydd angen cofnodi'r mathau o drais difrifol sy'n digwydd yn yr ardal, achosion y trais hwnnw (cyn belled ag y bo modd), a pharatoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen rhanbarthol wedi'i sefydlu'n ddiweddar i weithredu'r ddyletswydd a pharatoi Strategaeth.

3.7. **<u>Caethwasiaeth Fodern a Datganiad Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi</u>**

3.7.1. Mae achosion Caethwasiaeth Fodern yn yr ardal yn ymwneud yn bennaf â cham-fanteisio cyffuriau. Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn codi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ymysg awdurdodau a busnesau ar draws y rhanbarth.

3.8. **<u>Gwrthderfysgaeth</u>**

3.8.1. Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal Grŵp Mannau Cyhoeddus: Parodrwydd i Amddiffyn a Diogelu, yn ogystal a bod yn aelod o'r grwpiau cyffelyb rhanbarthol. Pwrpas y Grŵp yw:

- Cydweithio gyda sefydliadau er mwyn darparu trefniadau diogelwch amddiffynnol effeithiol ac effeithlon yng Ngwynedd;
- Darparu ymdriniaeth diogelwch integredig, sy'n cyd-fynd â'r safonau a'r canllawiau cenedlaethol, i adnabod a darparu camau gweithredu cymesur er mwyn cadw cymunedau Gwynedd yn ddiogel;
- Gwella a chefnogi'r parodrwydd i amddiffyn a diogelu mewn lleoliadau cyhoeddus hygyrch yng Ngwynedd.

3.9. **<u>Atal/Prevent</u>**

3.9.1. Mae'r Swyddfa Gartref wedi creu hyfforddiant newydd ar gyfer Atal, ac mae'r e-fodiwl yn fandadol i holl staff erbyn hyn. Yng Ngwynedd, fe ddefnyddiwyd y porth e-

ddysgu er mwyn “tracio” y niferoedd sy’n cwblhau’r hyfforddiant ac mae hyn yn golygu fod modd rhoi sylw penodol i annog staff mewn rhai Adrannau neu faesydd. Mae gweddill awdurdodau Gogledd Cymru wedi adrodd bod casglu data yn rwystr iddynt gan eu bod, yn wahanol i Wynedd, yn defnyddio’r linc allanol.

3.9.2. Yn dilyn llwyddiant y tri meincnod llynedd, yn ystod 2023/24 bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn canolbwyntio ar:-

1) Cynhyrchu Cynllun Hyfforddi i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant Atal
2) Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu Atal
3) Datblygu Polisi Llogi Lleoliad ar gyfer y Cyngor a phartneriaid

3.10. **<u>Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)</u>**

3.10.1. Mae’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfrifol am brosesu gwiriadau troseddol. Pwrpas gwiriadau DBS yw cynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio a thrwyddedu mwy diogel, ond dim ond un rhan o arfer recriwtio yw gwiriad. Pan fydd gwiriad wedi'i brosesu gan y DBS a'i gwblhau, bydd yr ymgeisydd yn derbyn tystysgrif DBS.

3.10.2. Bu’r Grŵp Gweithredol yn ymgymryd â gwaith sylweddol i wirio, herio ac ailymweld â’r drefn gorfforaethol o ran y DBS. O ganlyniad, mae Adrannau bellach yn perchnogi mwy ar y trefniadau DBS ac mae hyn wedi trawsnewid sut mae’r Grŵp Gweithredol yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth ar ddadleniadau adrannol.

3.11. **<u>Ffoaduriaid</u>**

3.11.1. Gyda Rwsia yn cychwyn ymosod ar Wcráin yn Chwefror 2022, yn ystod y flwyddyn fe groesawyd ffoaduriaid oedd wedi gorfod ffoi’r wlad. Agorwyd Canolfan Groeso yn y sir i roi llety i hyd at 80 unigolyn, ynghyd a gweithio gyda thrigolion ac elusennau lleol i gynnig llety i hyd at 200 arall mewn cartrefi ar hyd a lled y sir.

3.11.2. Mae trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn yn diogelu'r ffoaduriaid, a diogelu y rhai sydd yn cynnig llety hefyd. Mae pawb sy’n cynnig cartref i ffoadur yn destun gwiriadau diogelu , asesiad llety, hyfforddiant diogelu, pecynnau gwybodaeth a chyswllt gweithiwr cefnogol.

3.11.3. Yn ychwanegol, mae pob person o’r Wcráin sy’n ceisio lloches yng Ngwynedd hefyd yn destun gwiriadau diogelu, yn derbyn hyfforddiant diogelu, ymweliadau lles, cyswllt gan weithiwr cefnogol a chynnig cefnogaeth trawma, cefnogaeth adsefydlu a materion iechyd meddwl.

3.11.4. Mae'r trefniadau diogelu sydd mewn lle wedi golygu fod y Cyngor gyda chefnogaeth yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref wedi gallu atal 5 achos o noddi anaddas ar sail diogelu.

3.11.5. Yn ogystal, gwelwyd **1** achos lle'r oedd plentyn wedi cyrraedd Gwynedd heb oruchwyliaeth rhiant / gwarchodwr a bu i'r Cyngor alw ar gefnogaeth y Tîm Ôl-ofal i sicrhau diogelu a chefnogi'r person ifanc tra mae trefniadau yn cael eu rhoi mewn lle i'w haduno gyda'i theulu.

## 4. ADOLYGIADAU YMARFER

4.1. Mae Cymru wedi datblygu fframwaith Adolygu Dysgu Ymarfer Plant (CPR) i wella'r diwylliant o ddysgu gwersi o achosion amddiffyn plant. Mae adolygiadau 'cryno' neu 'estynedig' yn bodoli yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn dan sylw. Maent yn cael eu cynnal gan Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru gyda'r nod o ddysgu gwersi i'w rhannu er mwyn ceisio osgoi achosion o'r fath i'r dyfodol.

4.2. Mae Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion Gogledd Cymru hefyd yn cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion, sy'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Diben yr Adolygiadau hyn yw nodi'r gwersi sydd i'w dysgu o achosion Diogelu Oedolion cymhleth neu anodd, a gweithredu newidiadau i wella gwasanaethau yn sgil y gwersi hyn.

## 5. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

5.1. Er bod y Panel Strategol Diogelu yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau corfforaethol yn ymwneud â materion diogelu o fewn Gwynedd, mae hefyd yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad drwy Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, sy'n gweithio ar draws gogledd Cymru. Mae'r rhain yn Fyrddau Statudol gydag aelodaeth draws-asiantaethol, sydd â chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae'r Cyngor yn aelod o'r Byrddau hyn ac yn cyfrannu at weithredu eu cynlluniau. Mae gwybodaeth bellach am waith y Byrddau i'w weld yma - https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

5.2. Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn hefyd wedi dangos bod gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau siroedd yn profi'n llwyddiant. Mae Rheolwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol hefyd yn is-gadeirydd i'r Grŵp Gweithredol Diogelu ac yn eistedd ar y Panel Strategol Diogelu. Mae gwaith y Bartneriaeth mewn meysydd megis Atal/Prevent yn hanfodol os yw'r Panel am sicrhau ansawdd trefniadau diogelu yng Ngwynedd.

5.3. Mae gan nifer o sefydliadau ddyletswydd statudol i fod yn rhan o'r bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwybodaeth am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol y mae'r Cyngor yn ymwneud ag o ar ein gwefan.

## 6. Y DYFODOL

6.1. Er bod gwaith gwych yn digwydd o fewn adrannau gyda'r maes diogelu, mae'n fwriad gan y Panel i adlewyrchu ar drefniadau gweithio y Panel Strategol a'r Grŵp Gweithredol er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol.

6.2. O ran blaenoriaethau'r Panel ar gyfer y flwyddyn i ddod, bwriedir canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ganlyn:

- Trais yn y cartref a thrais yn erbyn menywod a gweithio ar gynllun gweithredu sefydliad y Rhuban Gwyn;
- Ail-sefydlu'r Panel Gweithredol wedi iddo gael aelodaeth a chadeiryddiaeth newydd yn 2023;
- Sicrhau bod systemau diogelu ar draws yr adrannau yn effeithiol ac effeithlon.

## ATODIAD 1 – CYLCH GORCHWYL PANEL STRATEGOL DIOGELU

### 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Mae gan y Cyfarwyddwr Statudol cyfrifoldebau penodol am y maes diogelu. Mae Protocol y Cyfarwyddwr hefyd yn ei le ac yn gosod allan sut mae'r Cyfarwyddwr yn diwallu a chwrdd â'r gofynion o'r swyddogaeth. Mae'r materion yma yn ymwneud a'r gofynion diogelu wedi eu gosod allan ym mharagraffau 64-69 o Ran **8** o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014. Mae Paragraff 65 yn amlygu'r angen i'r Cyfarwyddwr gael y trosolwg o faterion diogelu ond hefyd yr angen i adrodd i Aelodau yn rheolaidd ar drefniadau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion o fewn yr Awdurdod a sut mae y trefniadau hyn yn gweithio, a beth sydd angen gwella.

1.2 Mae hefyd angen i bob Asiantaeth sefydlu trefniadau mewnol ar gyfer sicrhau bod yr agenda gwrthderfysgaeth, atal radicaleiddio a materion diogelwch cymunedol yn cael y sylw priodol.

1.3 I pwrpas y Panel yma, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion, plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hamddiffyn, eu hatal rhag cael eu camdrin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach na amddiffyn unigolion rhag cael eu camdrin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu camdrin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

### 2. CYLCH GORCHWYL PANEL STRATEGOL DIOGELU

2.1 Nod y Panel yw rhoi sicrwydd i Aelodau ac i'r Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel yr Uwch Swyddog o fewn y Cyngor sydd a'r atebolrwydd terfynol llawn am ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion, fod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion. Bydd y Panel yn diwallu 3 dyletswydd statudol, sef Dyletswydd Gorfforaethol Cyffredinol i Ddiogelu, Dyletswydd Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddyletswydd Diogelwch Cymunedol.

adnabod unrhyw fylchau mewn perthynas â diogelu ar lefel gorfforaethol a chymeradwyo rhaglenni gwaith er mwyn ymateb i'r rhain.
adnabod gwersi i'w dysgu, ar lefel gorfforaethol, o adolygiadau achosion difrifol ac o adolygiadau perthnasol eraill a sicrhau gweithredu ar y rhain (APR a CPR)
adnabod gwersi i'w dysgu o archwiliadau allanol a sicrhau gweithredu ar y rhain
adnabod gwersi i'w dysgu o archwiliadau mewnol a sicrhau gweithredu ar y rhain
hysbysu aelodau arweiniol perthnasol o faterion/datblygiadau allweddol ym maes diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus
bod yn gyfrwng i godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff y Cyngor a phob Aelod Etholedig o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu
bod yn gyfrwng i sicrhau fod aelodau staff ac Aelodau Etholedig yn derbyn hyfforddiant addas yn amserol a monitro presenoldeb yn yr hyfforddiant yma
sicrhau cydberthynas waith rhyngadrannol a chyfathrebu effeithiol o fewn y Cyngor ym maes diogelu
sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn cyd-fynd a'r gofyn cyfreithiol i sicrhau fod staff yn gymwys i weithio yn y swyddi a rheoleiddir
galw prosiectau perthnasol i adrodd ar gynnydd
derbyn gwybodaeth rheoli perfformiad trawsadrannol
sicrhau trosolwg ar faterion ehangach Diogelu gan gynnwys gweithdrefnau gwrthderfysgaeth, caethwasiaeth fodern, trais yn y cartref a diogelwch cymunedol.

### 3. CADEIRYDDIAETH

3.1. Cadeirydd y Panel bydd Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc.

**4. AMLDER CYFARFODYDD**

**4.1** Bydd cyfarfodydd bob 8 i 10 wythnos.

**5. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD**

5.1 Mae'r Panel Strategol Diogelu yn atebol i'r Cabinet.

5.2 Rheolaeth busnes (h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol os bydd angen) trwy swyddogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**6. AELODAETH**

| **Teitl** |
|---|
| Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant (hefyd a Chyfrifoldeb am Ddiogelwch Cymunedol) |
| Aelod Cabinet Addysg |
| Prif Weithredwr |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyfarwyddwr Statudol) Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Pennaeth Adran Plant a Phobl Ifanc |
| Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant (hefyd a Chyfrifoldeb am Ddiogelwch Cymunedol) |
| Pennaeth Addysg |
| Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Cadeirydd Grwp Gweithredol Diogelu |
| Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol |
| |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **11 Gorffennaf, 2023** |
| **Aelod Cabinet Perthnasol:** | **Cynghorydd Berwyn Parry Jones** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC** |
| **Rhif ffôn cyswllt:** | **32400** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Mabwysiadu Llawlyfr Cynnal Priffyrdd** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

**1. CAIS AM BENDERFYNIAD**

1.1 Bod y Cabinet yn mabwysiadu'r Llawlyfr Cynnal Priffyrdd sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Pwrpas y Llawlyfr yw i:

- sicrhau cysondeb o ran sut mae'r Cyngor yn cynnal ei ffyrdd sirol,
- sicrhau bod y Cyngor yn mabwysiadu dull sy’n seiliedig ar risg o gynnal ei ffyrdd sirol drwy ystyried, ymysg pethau eraill, hierarchaeth y ffordd a'r trefniadau ar gyfer arolygu a thrwsio,

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Sicrhau bod gweithdrefnau cynnal asedau priffyrdd presennol y Cyngor yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf (gweler Adran 3 isod).

2.2 Bod y newidiadau a gynigir gan yr Adran i hierarchaeth rhwydwaith priffyrdd Gwynedd a'r trefniadau arolygu a thrwsio priffyrdd yn cael eu mabwysiadu.

**3. CYFLWYNIAD**

3.1 Mae gan awdurdodau priffyrdd lleol ddyletswydd benodol o dan y Ddeddf Priffyrdd 1980 i gynnal eu ffyrdd. Serch hynny, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, mae awdurdodau'n wynebu hawliadau neu gamau cyfreithiol gan unigolion sy'n ceisio profi nad ydynt yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon er mwyn cael iawndal ariannol.

3.2 Cyhoeddwyd amryw o godau ymarfer cenedlaethol dros y blynyddoedd i annog arferion gorau ac i fabwysiadu gweithdrefnau rheoli asedau sy'n cymryd agwedd fwy cyfannol at gynnal rhwydweithiau priffyrdd ac felly amddiffyn awdurdodau rhag hawliadau neu gamau cyfreithiol.

3.3 Yn unol â'r argymhellion yn y cod ymarfer a oedd yn bodoli ar yr adeg, sef *'Well-maintained Highways, Code of Practice for Highway Maintenance Management 2005'*, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ym mis Gorffennaf 2010 er mwyn rhagnodi sut yr oedd yn bwriadu rheoli ei ffyrdd sirol. Ystyriwyd bod Cynllun Rheoli Gwynedd yn gynhwysfawr ac o flaen ei amser, ac ychydig iawn o awdurdodau priffyrdd eraill oedd wedi mabwysiadu cynllun tebyg ar y pryd.

3.4 Mae'r Cynllun wedi cyflawni ei bwrpas dros y blynyddoedd, nid yn unig fel canllaw dyddiol ar sut i gynnal ffyrdd y sir ond hefyd i amddiffyn y Cyngor rhag hawliadau trydydd parti ac achosion llys. Rhwng y 1af o Ebrill 2016 a'r 1af o Ebrill eleni, bu i'r Cyngor dderbyn 343 o geisiadau hawlio trydydd parti ac mae wedi llwyddo i amddiffyn 294 ohonynt; cyfradd llwyddiant o bron i 86%. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol iawn ag awdurdodau priffyrdd eraill ac mae'r Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant yn rhoi hyn i lawr i gadernid y Cynllun.

3.5 Fodd bynnag, cyflwynwyd cod ymarfer newydd yn 2016, sef *'Well-managed Highway Infrastructure: A Code of Practice'*. Roedd y cod newydd yn hyrwyddo mabwysiadu dull rheoli asedau integredig o gynnal priffyrdd yn seiliedig ar sefydlu lefelau lleol o wasanaeth trwy reoli ar sail risg.

3.6 Er mwyn sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cydymffurfio â gofynion y cod newydd, comisiynodd Cymdeithas Syrfëwr Sirol Cymru (CSSC) ymgynghorwyr arbenigol i lunio dull sy'n gyson yn genedlaethol o ymdrin â'r canllawiau newydd. O ganlyniad, yn hytrach na chael un Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd i ddiffinio sut maen nhw'n rheoli eu rhwydweithiau ffyrdd (yn debyg i Gynllun Rheoli presennol y Cyngor), argymhellodd CSSC fod pob awdurdod yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau sy'n cefnogi eu dull o reoli eu hased priffyrdd. Mae'r Llawlyfr Cynnal Priffyrdd yn un o'r dogfennau hyn.

3.7 Mae Llawlyfrau Cynnal Priffyrdd yn nodi sut mae cynghorau yn cyflawni eu dyletswyddau fel yr awdurdod priffyrdd; yn cadarnhau'r dulliau a ddefnyddir i sicrhau bod y risg i ddefnyddwyr y rhwydwaith priffyrdd yn cael ei fonitro a'i reoli'n briodol, a sicrhau cysondeb o ran sut y mae safonau'n cael eu gweithredu. Er mwyn cyflawni'r rhain i gyd, cynigiodd CSSC fod awdurdodau'n ymgymryd â'r canlynol:

- Sefydlu hierarchaeth rhwydwaith
- Sefydlu trefn arolygu
- Sefydlu trefn trwsio
- defnyddio risg i ddylanwadu ar sut y caiff y gyllideb ei dyrannu

3.8 Roedd gan y Cyngor eisoes hierarchaeth rhwydwaith, trefn arolygu, a gweithdrefn trwsio ar waith, ac roedd y safonau a'r arferion yn ei Gynllun Rheoli yn seiliedig ar risg i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae'n debyg nad oeddent yn gwbl gyson â gofynion y cod newydd ac argymhellion CSSC. O ganlyniad, adolygodd yr Adran ei threfniadau presennol (hierarchaeth, arolygu ac atgyweirio) a sefydlodd safonau a oedd yr un fath, os nad yn well, na'r rhai a gynigiwyd gan CSSC. Dyma'r safonau sydd wedi'u cynnwys yn Llawlyfr Cynnal Priffyrdd newydd y Cyngor.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Bydd mabwysiadu'r Llawlyfr newydd yn sicrhau:

- bod gweithdrefnau cynnal asedau priffyrdd y Cyngor yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol presennol
- bod y Cyngor yn darparu rhwydwaith priffyrdd diogel sydd wedi'i gynnal yn dda
- fod safonau cynnal priodol yn cael eu gweithredu'n gyson ledled Gwynedd
- bod safonau a dull gweithredu'r Cyngor yn gyson ag awdurdodau priffyrdd eraill o fewn Cymru
- y bydd y Cyngor yn parhau i allu amddiffyn hawliadau trydydd parti a chamau cyfreithiol gan unigolion
- bod dyraniadau cyllideb cynnal priffyrdd yn y dyfodol yn cael eu dylanwadu gan risg yn hytrach na gan ffactorau eraill.

## 5. Y CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Os caiff ei gymeradwyo gan y Cabinet, bydd y Llawlyfr yn cael ei weithredu ar unwaith gan arolygwyr, peirianwyr a swyddogion cymwys eraill yr Adran er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn cael ei reoli a'i gynnal i'r safonau a argymhellir cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

5.2 Dim ond un ddogfen yw'r Llawlyfr mewn cyfres o ddogfennau sy'n cefnogi dull y Cyngor o reoli ei ased priffyrdd. Bydd y gweddill y dogfennau, gan gynnwys Cynllun Rheoli Asedau, yn cael ei baratoi dros y 12 mis nesaf.

5.3 Bydd hierarchaeth y rhwydwaith, y drefn arolygu a'r weithdrefn atgyweirio yn destun monitro parhaus drwy gydol oes y Llawlyfr. Fodd bynnag, bydd yr Adran yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli'r rhwydwaith priffyrdd bob dwy flynedd er mwyn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol i ased y briffordd. O ganlyniad, os bydd y Llawlyfr yn cael ei gymeradwyo nawr, bydd yn cael ei adolygu'n ffurfiol ym mis Gorffennaf 2025. Bydd unrhyw ddiwygiad i'r Llawlyfr o ganlyniad i'r adolygiad ffurfiol yn cael ei adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth er gwybodaeth a chymeradwyaeth.

## 6. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

6.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r Llawlyfr wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac yn unol â'r 5 ffordd o weithio.

## 7. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

7.1 Nid oes effeithiau negyddol ar unrhyw grwpiau neu gyfrannau o'r boblogaeth wedi eu hadnabod wrth ddatblygu'r Llawlyfr Cynnal a Chadw Priffyrdd.


**8. BARN SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r llawlyfr yn darparu canllaw ynglŷn â sut fydd y Cyngor yn mynd ati i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynnal y rhwydwaith ffyrdd o fewn Gwynedd. Mae'n briodol fod y Cabinet yn ystyried y mater ac yn penderfynu ar fabwysiadu.

**Pennaeth Cyllid:**

Ni fydd mabwysiadu'r Llawlyfr Cynnal Priffyrdd yn creu ymrwymiad gwario ynddo'i hun, ond mae'n cynnig camau eglur er mwyn adnabod a blaenoriaethu'r gwaith hanfodol sy'n cael ei wireddu gan y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd. Mae swyddogion perthnasol o'r Adran Gyllid wedi ymgysylltu gyda swyddogion yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC wrth iddynt ddatblygu'r llawlyfr yma. Mae cael canllawiau clir fel hyn yn eu lle - sy'n cael eu hymlynu iddynt - yn allweddol er mwyn amddiffyn buddiannau'r Cyngor.



# LLAWLYFR CYNNAL A CHADW ASEDAU PRIFFYRDD

Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC
Cyngor Gwynedd

## Rheoli dogfen

| **Rhif y Fersiwn** | **Addasiadau a wnaed** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| V.1.0 | Dim – Gwreiddiol | |
| V.1.1 | Steffan Jones | 21.06.23 |
| **Dyddiad adolygiad nesaf:** | | |

## Caniatâd y Cyngor

| **Rhif y Fersiwn** | **Pwyllgor y Cyngor** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| V.1.0 | Cabinet | |

## Cyfrifoldeb am y llawlyfr

Gweler isod y cyfrifoldeb am gyflawni a diweddaru'r cynllun hwn.

| **Swyddfeydd y Cyngor** | **Cyfrifol am** |
|---|---|
| Steffan Jones – Pennaeth yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. | Pennu cyfeiriad a strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth efo, ac i roi ar waith, y safonau yn y llawlyfr hwn. |
| Meirion Williams – Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. | |
| Osian Elis – Swyddog Gweithredol, Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol. | Paratoi Llawlyfr Cynnal Priffyrdd Cyngor Gwynedd. |

## Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad ... 6
1.1. Pwrpas ... 6
1.2. Sgôp ... 6
1.3. Gofynion Cyfreithiol ... 6
1.4. Canllaw Cenedlaethol ... 7
1.5. Dogfennau'r Cyngor ... 7
2. Rolau, Cyfrifoldebau a Chymwyseddau ... 8
2.1. Cymwysterau a hyfforddiant ... 8
3. Cynnal Priffyrdd a Rheoli Risg ... 9
3.1. *Well-managed Highway Infrastructure: A Code of Practice* (2016) ... 9
3.2. Adolygiadau Risg ... 9
4. Cofrestr Asedau a Rhestr Eiddo o Asedau Priffyrdd ... 10
4.1. Cofrestr Asedau ... 10
4.2. Stocrestr ... 10
5. Hierarchaeth y Rhwydwaith ... 10
5.1. Sefydlu Hierarchaeth y Rhwydwaith ... 11
5.2. Categorïau Hierarchaeth y Rhwydwaith ... 11
5.3. Cysondeb Rhanbarthol ... 11
6. Trefn Archwilio ... 12
6.1. Archwiliadau Rheolaidd ... 12
6.2. Goddefaint Archwiliadau ... 12
6.3. Amserlen Archwilio ... 13
6.4. Archwiliadau Ymatebol ... 13
6.5. Asedau Sy'n Cael eu Harchwilio ... 13
6.6. Cofnodi Cofnodion Archwilio. ... 14
6.7. Asesiadau Cyflwr ... 14

6.7.1. Cerbydlonydd ... 14

6.7.2. Troedffyrdd ... 14

6.7.3. Strwythurau ... 14

6.7.4. Goleuadau Stryd ... 15

**7. Trefn Trwsio Priffyrdd ... 15**

7.1. Categorïau Diffygion ... 15

7.2. Mathau o Ddiffygion a Lefelau Ymyrraeth ... 16

7.3. Gwasanaeth Argyfwng ... 17

7.4. Archebu Gwaith ... 17

7.5. Cofnodi Cofnodion Archwilio ... 17

**8. Cofnodi Costau ... 18**

**9. Caffael ... 18**

**10. Dyraniad y Gyllideb ... 19**

10.1. Sefydlu Cyllideb Flynyddol ... 20

**11. Ymholiadau cwsmeriaid ... 20**

11.1. System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (SRhCC) ... 20

11.2. Hysbysiadau'r Cynllun ac Adborth ... 21

11.3. Adroddiadau Gwaith Ffyrdd ... 21

**12. Gweithgareddau Ymgymerwyr Statudol ... 21**

12.1. Gweithdrefnau ... 21

**13. Hawliadau gan Drydydd Parti ... 22**

13.1. Prosesu Hawliadau Trydydd Parti ... 22

13.2. Adrodd am Ddeilliannau Hawliadau ... 22

**14. Rheolaeth Traffig ... 23**

14.1. Rheolwr Traffig ... 23

14.2. Aflonyddwch Traffig ... 23

14.3. Polisïau ac Amcanion ... 23

14.4. Strydoedd Sensitif i Draffig ........ 23

**15. Cynnal Arferol Cylchol ........ 24**

**16. Trefn Flaenoriaethu Cynllun Gwaith Priffyrdd ........ 25**

16.1. Blaenoriaethu Cynlluniau ........ 25

**17. Perfformiad ........ 25**

17.1. Mesurau Perfformiad Gweithredol ........ 25

17.2. Meincnodi ........ 26

**Atodiad A: Categorïau Hierarchaeth Asedau ........ 27**

**Atodiad B: Amlder Archwiliadau ........ 30**

**Atodiad C: Mathau o Ddiffygion a Lefelau Ymyrraeth ........ 34**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas

Pwrpas y llawlyfr hwn yw amlinellu'r dulliau a'r safonau a ddefnyddir gan Gyngor Gwynedd i reoli'r gwaith cynnal asedau priffyrdd (isadeiledd y briffordd, e.e. ffyrdd, troedffyrdd, goleuadau stryd, dodrefn stryd, gylïau, draeniau, coed, arwyddion, marciau ffordd, pontydd a strwythurau eraill). Mae'r llawlyfr yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau fel awdurdod priffyrdd, gan sicrhau bod y risgiau i ddefnyddwyr yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol.

## 1.2. Sgôp

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu sut mae Cyngor Gwynedd yn cynnal yr asedau priffyrdd sydd o dan ei reolaeth. Mae'n manylu ar y gweithdrefnau a ddefnyddir i gynllunio a chyflawni'r holl waith sy'n gysylltiedig â rheoli, gweithredu a chynnal asedau priffyrdd, gan gynnwys sut y caiff gweithgareddau eu monitro i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a chyfrifoldebau statudol y Cyngor.

## 1.3. Gofynion Cyfreithiol

Fel awdurdod priffyrdd, mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i gydymffurfio â dyletswyddau statudol dan y ddeddfwriaeth a ganlyn:

- **Deddf Priffyrdd 1980:** Mae'r ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i gynnal priffyrdd sydd wedi'u mabwysiadu fel rhai i'w cynnal o'r pwrs cyhoeddus ac i'w cadw'n ddiogel i'r cyhoedd eu defnyddio.
- **Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991:** Mae'r ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i gydlynu'r holl waith priffyrdd ar gyfer y diben o sicrhau diogelwch, lleihau'r tarfu ar ddefnyddwyr y briffordd, ac amddiffyn y briffordd a'r offer arni.
- **Deddf Rheoli Traffig 2004:** Mae'r ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd i sicrhau bod symudiad traffig yn effeithiol ar rwydwaith ffyrdd yr awdurdod priffyrdd a rhwydweithiau'r awdurdodau cyfagos.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:** Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:** Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau ecosystemau iach a gwydn i'r dyfodol tra'n cwrdd â'r heriau o greu swyddi, tai ac isadeiledd.

## 1.4. Canllaw Cenedlaethol

Yn 2016, cynhyrchodd Grŵp Cyswllt Ffyrdd y DU god ymarfer newydd ar gyfer rheoli asedau priffyrdd. Argymhellodd y dylai awdurdodau priffyrdd ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar risg ar sut y maent yn cynnal eu ffyrdd. Mewn ymateb i'r cod ymarfer newydd hwn, creodd Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (CSSC) ddull rheoli yn seiliedig ar risg i'w ddefnyddio gan awdurdodau priffyrdd yng Nghymru.

Mae'r canllawiau cenedlaethol cyfredol sy'n cael eu hystyried gan y llawlyfr hwn i'w gweld yn y dogfennau a ganlyn:

- Grŵp Cyswllt Ffyrdd y DU – *Well-managed Highway Infrastructure: A Code of Practice, UK Roads Liaison Group* (2016).
- CSSC – *Nationally Consistent Response to the Code of Practice, 2016* (2019).
- CSSC – *Highway Asset Management Planning: Risk-based approach – Method Summary* (2019).

## 1.5. Dogfennau'r Cyngor

Mae'r llawlyfr hwn yn rhan o gyfres o ddogfennau a gynhyrchwyd gan Gyngor Gwynedd sy'n cefnogi ac yn amlinellu dull y Cyngor o reoli ei asedau priffyrdd. Amlinellwyd dull cychwynnol y Cyngor o reoli asedau priffyrdd yn y *Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd, 2010* (HAMP). Mae'r llawlyfr hwn yn cynnwys adolygiadau o rannau perthnasol o'r *HAMP* sy'n adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol a'u nodir uchod.

Mae'r llawlyfr hwn yn cefnogi polisïau adrannol eraill sy'n ymdrin â chynnal a chadw asedau priffyrdd.

Mae'r dogfennau perthnasol yn cynnwys:

- Cyngor Gwynedd – *Cynlluniau Adrannol Priffyrdd, Peirianneg ac YGC.*
- Cyngor Gwynedd – *Polisi Amgylcheddol Priffyrdd, Peirianneg ac YGC*.
- Cyngor Gwynedd – *Cynllun Gwasanaeth Cynnal dros y Gaeaf.*

# 2. Rolau, Cyfrifoldebau a Chymwyseddau

Noder isod y rolau, cyfrifoldebau a'r cymwyseddau sydd eu hangen gan y rhai sy'n ymwneud â rheoli asedau priffyrdd Cyngor Gwynedd:

<table>
<tr><th>Rôl:</th><th>Yn gyfrifol am:</th></tr>
<tr><td>Cabinet</td><td>Cymeradwyo defnydd y ddogfen hon fel polisi.</td></tr>
<tr><td>Cynghorwyr</td><td>Cymeradwyo defnydd y ddogfen hon fel polisi.</td></tr>
<tr><td>Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol</td><td>Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn cwrdd â safonau cynnal a chadw'r llawlyfr hwn.</td></tr>
<tr><td>Pennaeth yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC.</td><td rowspan="3">Sicrhau bod y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd yn gweithredu safonau cynnal y llawlyfr hwn. Monitro canlyniadau. Cynnal asesiadau risg bob dwy flynedd.</td></tr>
<tr><td>Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC.</td></tr>
<tr><td>Peirianwyr Ardal</td></tr>
<tr><td>Archwilwyr Priffyrdd</td><td>Cynnal archwiliadau yn unol â'r cynllun archwilio. Cofnodir y data priodol er mwyn ei fewnbynnu yn y system rheoli asedau.</td></tr>
<tr><td>Gangiau gwaith</td><td>Gwneud gwaith trwsio yn unol â'r drefn drwsio. Cofnodir y data priodol er mwyn ei fewnbynnu yn y systemau rheoli asedau.</td></tr>
<tr><td>Contractwyr.</td><td>Gwneud gwaith trwsio yn unol â'r cyfarwyddyd. Cofnodi'r data priodol i'w fewnbynnu yn y system rheoli asedau.</td></tr>
</table>

***Tabl 1. Rolau a Chyfrifoldebau***

## 2.1. Cymwysterau a hyfforddiant

Mae CSSC yn rheoli cynllun cadarnhau cymhwysedd ar gyfer arolygwyr priffyrdd sy’n gweithio ym meysydd cynnal priffyrdd (Cynllun Cymhwysedd Arolygu Priffyrdd). Amcan y cynllun yw sicrhau bod archwiliadau priffyrdd yn cael eu cwblhau yn unol â’r safonau y nodir yn y llawlyfr hwn. Mae'r hyfforddiant yn cyfarch asesiadau cyflwr gweledol o gerbydlonydd a throedffyrdd. Bydd y swyddogion perthnasol yn y Cyngor wedi derbyn yr hyfforddiant priodol i ennill achrediad CSSC.

# 3. Cynnal Priffyrdd a Rheoli Risg

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynnal asedau priffyrdd yn cael eu rheoli gyda'r dulliau isod. Mae hyn yn cynnwys sut mae'r Cyngor yn gwneud defnydd o ddull rheoli sy'n seiliedig ar risg fel sy'n ofynnol yn y cod ymarfer newydd.

## 3.1. *Well-managed Highway Infrastructure: A Code of Practice* (2016)

Cyhoeddwyd cod ymarfer newydd ar gyfer cynnal priffyrdd ym mis Hydref 2016 gan Grŵp Ffyrdd y DU. Mae'n darparu canllawiau y disgwylir i awdurdodau priffyrdd eu defnyddio wrth lunio eu dull o reoli gwaith cynnal priffyrdd. Gall awdurdodau priffyrdd ddefnyddio'r canllawiau hyn wrth amddiffyn yn erbyn hawliadau trydydd parti.

Y newid mwyaf arwyddocaol a gynigir yn y cod ymarfer newydd yw'r gofyn am ddull yn seiliedig ar risg wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynnal priffyrdd.

Datblygodd CSSC ddull rheoli yn seiliedig ar risg y mae'n argymell i awdurdodau priffyrdd yng Nghymru ei fabwysiadu. Mae'r dull yn cynnig gwaelodlinau a argymhellir ar gyfer safonau archwiliadau ac atgyweiriadau diffygion, ac yn galw ar yr awdurdod priffyrdd i sefydlu:

- Hierarchaeth y Rhwydwaith,
- Trefn Archwilio,
- Trefn Trwsio,
- Dyrannu'r gyllideb yn unol â'r risg.

Mae hierarchaeth y rhwydwaith, y drefn archwilio a'r drefn trwsio a fabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd - a lle maent yn cwrdd â, neu'n rhagori ar, y safonau a argymhellir gan CSSC - wedi'u hamlinellu yn y llawlyfr hwn.

Mae'r dull rheoli hwn yn caniatáu i archwilwyr ddefnyddio eu disgresiwn wrth farnu beth yw'r ymateb priodol wrth drwsio diffyg (gweler Adran 6. Trefn Archwilio).

## 3.2. Adolygiadau Risg

Er mwyn dilysu effeithiolrwydd y dull sy'n seiliedig ar risg a pha mor briodol yw hierarchaeth y rhwydwaith, y drefn archwilio a'r drefn trwsio a fabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd, cynhelir adolygiad o'r llawlyfr hwn bob 2 flynedd.

Bydd yr adolygiadau hyn yn tynnu ar y dull CSSC a amlinellir yn: *CSSW Highways Asset Management Framework Recommended Practices – Task 4 Annual Performance & Risk Review*.

# 4. Cofrestr Asedau a Rhestr Eiddo o Asedau Priffyrdd

Mae'r Gofrestr Asedau yn darparu rhestr ddiffiniedig o'r asedau priffyrdd sydd wedi'u cynnwys dan awdurdodaeth, ac sy'n cael eu cynnal gan, Cyngor Gwynedd. Mae stocrestr yr asedau priffyrdd yn seiliedig ar y Gofrestr, ac mae'n cynnwys gwybodaeth fanwl am yr eitemau a ddelir gan bob ased priffyrdd.

## 4.1. Cofrestr Asedau

Y Rhestr Strydoedd Cenedlaethol (National Street Gazetteer) yw'r set data ddiffiniedig o ffyrdd a strydoedd cyhoeddus y mae awdurdodau priffyrdd yn gyfrifol am eu cynnal. Mae'r rhan o'r Rhestr Strydoedd Cenedlaethol ar gyfer Gwynedd wedi'i chynnwys yn system integredig rheoli asedau priffyrdd y Cyngor, sef WDM a system rheoli asedau goleuadau stryd, sef Mayrise.

## 4.2. Stocrestr

Cedwir stocrestrau yr asedau priffyrdd a ddelir â nhw gan y Cyngor mewn amryw o systemau rheoli asedau. Caiff gwybodaeth am asedau ei thrin yn barhaus a'i diweddaru yn ôl yr angen. Defnyddir y systemau meddalwedd a ganlyn ar gyfer yr asedau:

- Cerbydlonydd a throedffyrdd – WDM
- Strwythurau – BridgeStation, Advanced Bridge Management Systems
- Goleuadau stryd a signalau traffig – Mayrise

# 5. Hierarchaeth y Rhwydwaith

Rhennir asedau priffyrdd y Cyngor i gategorïau hierarchaeth rhwydwaith er mwyn adlewyrchu eu harwyddocâd cymharol yn ôl eu defnydd a'u swyddogaeth. Mae hyn yn sicrhau bod y drefn archwilio a thrwsio yn gymesur i'r risgiau sy'n cael eu peri gan bob categori. Mae gan y Cyngor hierarchaethau gwahanol ar gyfer priffyrdd a throedffyrdd.

## 5.1. Sefydlu Hierarchaeth y Rhwydwaith

Mae Cyngor Gwynedd wedi defnyddio hierarchaeth rhwydwaith ers blynyddoedd lawer. Yn unol â chreu'r llawlyfr hwn, mae'r hierarchaeth wedi'i ddiwygio yn ôl argymhellion y daenlen CSSW: *Nationally Consistent Response to the Code of Practice, 2016.* Mae'r hierarchaeth ddiwygiedig yn adlewyrchu'r risgiau sy'n gysylltiedig â phob priffordd gyhoeddus ar sail maint y traffig, peryglon eraill a gwybodaeth leol gan beirianwyr ac arolygwyr y Cyngor.

## 5.2. Categorïau Hierarchaeth y Rhwydwaith

Ceir disgrifiad o arwyddocâd cymharol pob categori hierarchaeth yn ôl swyddogaeth a defnydd yn Atodiad A. Mae tystiolaeth ddogfennol o sut mae'r rhwydwaith diwygiedig wedi ei sefydlu a sut mae'r categorïau priffyrdd wedi eu dynodi, ar gael ar y daenlen ganlynol: Cyngor Gwynedd - RP1 Adolygiad Risg Asedau Priffyrdd Blynyddol.

## 5.3. Cysondeb Rhanbarthol

I gyrraedd cysondeb rhanbarthol, mae CSSC yn argymell bod awdurdodau priffyrdd cyfagos yn cytuno ar gategorïau hierarchaeth gyffredin i asedau sy'n croesi ffiniau awdurdodau.

Mae Cyngor Gwynedd yn ffinio â siroedd Conwy, Dinbych a Phowys, ac mae gan y Cyngor asedau priffyrdd sy'n cysylltu â rhwydweithiau priffyrdd y siroedd eraill hyn. Mae'r holl asedau sy'n cael eu cynnal gan Gyngor Gwynedd wedi'u dosbarthu gyda'r un hierarchaeth â'r awdurdodau cymdogol. Gwelir yr asedau hyn yn y ddogfen hon: *Hierarchaeth Cerbydlonydd - Awdurdod Cyfagos.xlsx.*

## 5.4 Diweddaru ac Adolygu

Adolygir hierarchaeth y rhwydwaith yn barhaus, ac yn ffurfiol o leiaf pob 2 flynedd, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol yn y defnydd o unrhyw ased priffyrdd (e.e. newidiadau ym maint y traffig).

# 6. Trefn Archwilio

Er mwyn monitro anghenion atgyweirio a chyflwr yr asedau priffyrdd, mae Cyngor Gwynedd yn defnyddio trefn o archwiliadau sy'n amrywio o ran math ac amlder. Mae hyn yn cynnwys y mathau a ganlyn o archwiliadau:

- **Archwiliadau Ymatebol:** Archwiliadau a gynhelir mewn ymateb i hysbysiad i'r Cyngor o ddiffyg posib.
- **Archwiliadau Rheolaidd:** Trefn o archwiliadau wedi'u cynllunio i adnabod diffygion sydd â'r potensial i achosi niwed i ddefnyddwyr ac i gynorthwyo gyda dewis neu gadarnhau ymyriad atgyweirio i atal dirywiad pellach ac anghenion cynnal yn y dyfodol y byddai modd eu hosgoi.
- **Arolygon Cyflwr:** Pan fo cyflwr cydrannau'r asedau priffyrdd yn cael eu harolygu er mwyn llunio rhaglen adnewyddu. Gall arolygon cyflwr fod yn weledol neu'n seiliedig ar beiriant a gallent gynnwys profion lle bo'n briodol ar gyfer y math o ased.

## 6.1. Archwiliadau Rheolaidd

Mae amlder Archwiliadau Rheolaidd yn seiliedig ar hierarchaeth y rhwydwaith. Sefydlwyd yr amlderau hyn yn unol â dull Adolygu Risgiau Asedau Priffyrdd CSSC. Mae Atodiad B yn nodi'r amlderau archwilio rheolaidd ynghyd â'r safonau gofynnol a argymhellir gan CSSC. Mae archwiliadau rheolaidd sydd wedi'u cynllunio yn gyfuniad o:

- **Archwiliadau Wrth Yrru**: Archwiliad o gerbydlon gan yrrwr ac arolygwr priffyrdd/swyddogion cymwys o gerbyd sy'n symud yn araf. Gweler tabl 1 yn Atodiad B.

- **Archwiliadau ar Droed:** Archwiliad a wneir gan arolygwyr priffyrdd/swyddogion cymwys ar droed ac ar gyflymder cerdded ar y droedffordd.

## 6.2. Goddefaint Archwiliadau

Yn sgil tywydd gwael, salwch neu wyliau, mae'n bosib o dan rhai amgylchiadau na ellir cwrdd â'r safonau amlder archwilio. Am y rheswm hwn, mae lefel goddefiant wedi cael ei roi ar yr amlderau – naill ai 5 neu 10 diwrnod gwaith. Nodir y goddefiant ar gyfer amlder pob archwiliad rheolaidd yn Atodiad B.

## 6.3. Amserlen Archwilio

Mae'r system rheoli asedau WDM yn cynnwys gwybodaeth am yr holl arolygiadau blaenorol a'r drefn arolygu. Ar ddechrau pob mis, neilltuir asedau i arolygwyr priffyrdd/swyddogion cymwys i'w harchwilio gan y system WDM.

Mae'r arolygwyr/swyddogion yn penderfynu ar amserlen yr archwiliadau ac yn ystyried defnydd a chymeriad yr ased i sicrhau bod amser a dyddiad yr archwiliadau yn briodol e.e. er mwyn osgoi cyfnodau gyda niferoedd uwch o geir wedi'u parcio neu gynnydd mewn traffig. Mae hyn yn lleihau aflonyddwch ac yn sicrhau'n well bod arolygiadau'n effeithiol ac yn ddiogel.

## 6.4. Archwiliadau Ymatebol

Pan fo trydydd parti yn rhoi gwybod i'r Cyngor am ddiffygion, bydd archwiliad yn cael ei gynnal ar amser a ystyrir yn gymesur â difrifoldeb honedig y mater a chategori hierarchaeth yr ased. Bydd camau adferol, os oes angen, yn cael eu cymryd yn unol â threfn atgyweirio'r Cyngor a amlinellir yn 7.0 isod.

## 6.5. Asedau Sy'n Cael eu Harchwilio

Mae asedau sy'n cael eu harchwilio yn ystod archwiliadau arferol yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i'r, elfennau isod:

- Cerbydlonydd;
- Troedffyrdd;
- Gorchuddion, gratiau a fframiau (gan gynnwys offer ymgymerwyr statudol);
- Cyrbau, ymylon a sianeli;
- Draenio;
- Rheiliau gwarchod, ffensys a systemau rhwystro;
- Ymylon gwyrdd, coed a gwrychoedd;
- Stydiau a marciau ffordd;
- Arwyddion;
- Goleuadau stryd;
- Systemau traffig, croesfannau wedi'u rheoli, bolardiau a chabinetau wedi'u goleuo;
- Glanweithdra a thwf chwyn.

## 6.6. Cofnodi Cofnodion Archwilio.

Mae data a gwybodaeth a gesglir o archwiliadau yn cael eu cofnodi ar y system WDM trwy ddyfeisiau symudol.

## 6.7. Asesiadau Cyflwr

Mae Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â'r mathau a ganlyn o asesiadau cyflwr ar asedau:

### 6.7.1. Cerbydlonydd

- SCANNER (*Surface Condition Assessment of the National Network of Roads*). Mae SCANNER yn arolwg cyflwr sy'n cael ei wneud gan beiriant o gerbyd sy'n symud ar gyflymder traffig. Mae canlyniadau'r arolygon yn cael eu cadw oddi ar y safle gan WDM ac fe geir atynt drwy'r rhyngwyneb WDM/WIP (system mapio integredig).
- Mae Griptester yn mesur y lefel ymwrthedd sgidio ar ffyrdd gwlyb. Mae'r data yn cael ei gadw gan Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy (YGC).

### 6.7.2. Troedffyrdd

- Cynhelir archwiliadau diogelwch cerdded ar droedffyrdd trefol. Cynhelir archwiliadau diogelwch gyrru ar ffyrdd gwledig mewn cerbydau sy'n symud yn araf.

### 6.7.3. Strwythurau

Mae strwythurau'n cael eu harchwilio gan ddefnyddio dau lefel o archwiliad:

- Archwiliadau Cyffredinol (AC): Mae ACs yn archwiliadau gweledol, ac o bosib gyda rhai asesiadau ymarferol sylfaenol, e.e. taro gyda morthwyl, mesuriadau ac ati. Mae'n cynnwys cofnodi graddfa a difrifoldeb y diffyg sy'n cael ei weld. Yna, mae'r data yn cael ei nodi ar system rheoli pontydd y Cyngor – BridgeStation. Cynhelir ACs ar yr holl bontydd bob 2 flynedd yn unol â'r rhaglen archwilio.
- Prif Archwiliadau (PAs): Mae PAs yn archwiliadau gweledol manwl gydag asesiadau ymarferol ar fwyafrif yr elfennau ynghyd ag asesiadau mwy technegol e.e. taro gyda morthwyl, prawf *half-cell*, mesuriadau clorid etc. Mae'n cynnwys creu adroddiad manwl ar y cyd a chofnodi'r data. Mae canlyniadau'r archwiliadau hyn yn cael eu nodi ar system rheoli pontydd y Cyngor – BridgeStation. Cynhelir PAs ar strwythurau sy'n ddigon mawr i gyfiawnhau PA neu ar strwythurau arbennig eraill megis '*half joints*'.

- Archwiliadau Arbennig (AAs): Mae AAs yn archwiliadau sy'n edrych ar elfen neu broblem benodol gyda strwythur a allai ddigwydd ar unrhyw foment. Cynhelir AAs gan beiriannydd cymwys ac fe allant fod yn rhan o drefn fonitro. Efallai y bydd y canlyniadau yn cael eu cadw fel ffeil prosiect, ar feddalwedd arbenigol, neu ar y System Rheoli Pontydd – BridgeStation.

### 6.7.4. Goleuadau Stryd

Mae cyflwr asedau goleuadau stryd yn cael eu hasesu fel a ganlyn:

- **Cyflwr Gweledol:** Cynhelir asesiadau cyflwr gweledol yn ystod ymweliadau cynnal ar sail *ad hoc*. Mae cyflyrau gwael a diffygion yn cael eu cofnodi a'u gweithredu'n briodol.
- **Diogelwch Trydanol:** Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal profion trydanol yn fewnol. Mae canlyniadau'r profion trydanol yn cael eu nodi yn y system rheoli asedau Mayrise.

**Profion Strwythurol Colofnau Goleuadau:** Mae rhaglen o brofi strwythurol yn cael ei chyflwyno ar yr holl golofnau goleuadau gan ddefnyddio contractwr allanol. Mae canlyniadau'r profi strwythurol yn darparu'r sgoriau cyflwr isod

- **Coch:** Rhaglennu i'w waredu (fel arfer ymhen 4 awr).
- **Ambr:** Ailbrofi ymhen 6 mis.
- **Gwyrdd:** Ailbrofi ymhen 5 mlynedd.

Mae canlyniadau'r profion strwythurol yn cael eu nodi yn system rheoli asedau Mayrise. Gweler yr amlder y defnyddir yr asesiadau cyflwr hyn yn Atodiad B.

# 7. Trefn Trwsio Priffyrdd

Mae diffygion sy'n cael eu hadnabod gan archwiliad ac/neu hysbysiad gan drydydd parti yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gwaith trwsio yn ôl y risg maen nhw'n eu peri i ddefnyddwyr. Amlinellir y dulliau a ddefnyddir i wneud hyn isod.

## 7.1. Categorïau Diffygion

Defnyddir y wybodaeth a gofnodir yn ystod archwiliadau i bennu categori'r diffyg. Dosberthir diffyg yn ôl ei ddifrifoldeb a'i natur – diffygion critigol yw'r rhai mwyaf difrifol. Mae'r diffygion mwyaf difrifol yn cael eu blaenoriaethu am waith trwsio, ac mae'r amseroedd ymateb sy'n cael eu mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd ar gyfer pob categori diffyg yn cael eu nodi isod:

| Categorïau Diffyg: | Disgrifiad: | Amser Ymateb: |
|---|---|---|
| Diffyg critigol. | Sefyllfa lle mae'r swyddog archwilio yn ystyried y risg i ddiogelwch yn ddigon uchel i fod angen sylw ar unwaith e.e. seler wedi cwympo, gorchudd gwasanaethau ar goll, coeden wedi cwympo. | **2 awr.**[1] |
| Diffyg diogelwch (categori 1 yn flaenorol). | Ceisiadau am wasanaeth neu ddiffygion sy'n gofyn am ymateb cyn gynted â phosib er mwyn cael gwared ar risg bosib o anaf i ddefnyddwyr | **Erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.**[2] |
| Diffyg cynnal (categori 2.1 yn flaenorol). | Diffygion eraill sy'n gwarantu triniaeth er mwyn eu hatal rhag dirywio i ddiffyg diogelwch cyn yr archwiliad amserlenedig nesaf | **1 mis (Ffyrdd CHSR, CH1 a CH2).**<br><br>**3 mis (Ffyrdd CH3 a CH4).** |
| Diffygion diogelwch ar ffyrdd CH5 | Bydd yn ddyletswydd ar yr archwiliwr i aseinio ymateb priodol i bob diffyg yn seiliedig ar y math o ffordd, ei maint, ei lleoliad a'r lefel o ddefnydd. | |

***Tabl 2. Categorïau diffygion***

## 7.2. Mathau o Ddiffygion a Lefelau Ymyrraeth

Gweler rhestr o'r mathau o ddiffygion a'r meini prawf dimensiynol sy'n eu haseinio i bob un o'r categorïau diffyg yn Atodiad C. Gall archwilwyr ddefnyddio eu disgresiwn i benderfynu pa gategori diffyg sy'n addas i ddiffyg. Mae'r meini prawf dimensiynol yn rhoi gwaelodlin sy'n nodi pa gategori diffyg dylid ei aseinio. Fodd bynnag, ble mae amgylchiadau penodol y diffyg

[1] Mae'r amser ymateb ar gyfer diffygion critigol yn cyfeirio at yr amser i fynychu'r safle. Bydd y gwaith atgyweirio a/neu waith i wneud y safle'n ddiogel yn digwydd cyn gynted â phosibl wedi hynny.

[2] Rhoddir sylw arbennig i ddiffygion sy'n codi ar ddydd Gwener, dros y penwythnos neu ar wyliau banc gan fod posibilrwydd y gellir eu gadael tan yn hwyr ddydd Llun (neu ddydd Mawrth yn achos gwyliau banc) hyd nes y cânt sylw (erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf). O ganlyniad, os canfyddir diffyg diogelwch ar ddydd Gwener, dros y penwythnos neu ar ŵyl y banc, bydd yr arolygydd priffyrdd/swyddog cymwys yn cynnal asesiad risg deinamig o amgylchiadau'r diffyg i benderfynu a fydd yn ddiogel ei adael heb oruchwyliaeth tan y dydd Llun canlynol (neu ddydd Mawrth yn achos gŵyl y banc). Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch y risg diogelwch y gallai'r diffyg ei beri i'r cyhoedd, yna eir i'r afael ag ef cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

– e.e. lleoliad, pwysigrwydd i gyflwyniad gwasanaethau cyhoeddus, a'r potensial i ddirywio yn y dyfodol – yn cael eu barnu i'r fath raddau fel eu bod yn cyfiawnhau categori diffyg uwch, gall yr archwiliwr wneud hynny.

Mae hyn yn sicrhau dau beth: nad yw'r dull sy'n seiliedig ar risg sy'n cael ei ddefnyddio yn y llawlyfr hwn yn rhy gaeth; a bod y categorïau diffygion sy'n cael eu haseinio yn briodol i amodau penodol pob diffyg unigol.

## 7.3. Gwasanaeth Argyfwng

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu gwasanaeth argyfwng ar gyfer cynnal priffyrdd. Gellir cysylltu â'r gwasanaeth hwn 24 awr y dydd drwy ffonio: 01766 771000.

Adroddir achosion yn uniongyrchol i'r swyddogion dyletswydd ac fe ddarperir ymateb yn ôl yr amgylchiadau.

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu ymateb ar unwaith sydd wedi'i gydlynu i gynnal diogelwch priffyrdd. Mae'r peryglon sy'n cael sylw yn cynnwys problemau megis llifogydd, rhew ac eira, gwaith stryd anniogel, methiant signalau traffig, perygl trydanol mewn gosodiadau goleuadau stryd a chlirio'r briffordd yn dilyn digwyddiad traffig y ffordd.

Cedwir log o alwadau gan y Swyddog Dyletswydd. Pan fo modd oedi camau yn ddiogel, defnyddir y log hwn i gychwyn unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen mewn perthynas â digwyddiadau penodol ar y diwrnod gwaith nesaf.

## 7.4. Archebu Gwaith

Ar ôl mewnbynnu cofnodion archwilio ar system rheoli asedau Cyngor Gwynedd (WDM), mae archebion gwaith yn cael eu cynhyrchu yn awtomatig. Adroddir ar ddiffygion critigol ar unwaith i'r Uned Waith a fydd yn derbyn cadarnhad o'r Archeb Argyfwng WDM ar e-bost.

## 7.5. Cofnodi Cofnodion Archwilio

Ar ôl cwblhau gwaith trwsio, caiff manylion ynghylch math y gwaith a wnaed, y deunyddiau a ddefnyddiwyd ac, ar brydiau, y dimensiynau'r gwaith trwsio, eu hanfon at y tîm cefnogi busnes. Mae'r tîm wedyn yn diweddaru'r system WDM gyda'r wybodaeth a dderbynnir. Dim ond pan fydd yr holl gofnodion wedi'u cofnodi ar WDM y bernir bod y diffyg wedi'i 'atgyweirio'n llawn'.

# 8. Cofnodi Costau

Mae cost y gweithgareddau sydd eu hangen i gynnal asedau priffyrdd yn cael eu cofnodi er mwyn gallu eu monitro a'u rheoli. Gweler isod y codau a ddefnyddir i gofnodi'r costau.

Dyrennir costau cynnal priffyrdd i un o'r categorïau a ganlyn:

| Categori Cost | Gweithgaredd |
|---|---|
| Gwaith cynnal wedi ei gynllunio – (Ataliol) | Gweithgareddau cynnal wedi'u cynllunio sydd wedi'u dylunio i sicrhau efallai na fydd angen gwaith trwsio mwy costus yn y dyfodol. |
| Gwaith cynnal wedi ei gynllunio – (Cywirol) | Gweithgareddau cynnal wedi'u cynllunio sy'n cywiro cyflwr yr ased ac na fyddai'n costio llawer mwy os byddai'n cael ei oedi. |
| Gwaith cynnal rheolaidd cylchol | Gwaith wedi'i drefnu yn cynnwys gweithgareddau sy'n seiliedig ar gyfnod o amser wedi'i nodi. |
| Rheolaidd – Gwaith cynnal ymatebol (Brys) | Trwsio ymatebol mewn perthynas â diffygion a allai fod yn beryglus sy'n cael eu hadnabod yn sgil archwiliad neu os bydd cwsmer yn cwyno / hysbysu. |
| Rheolaidd – Gwaith cynnal ymatebol (Ddim yn fater brys) | Mân waith trwsio arall gyda llai o frys amdano |
| Rheolaidd – Arolygu ac archwilio | Cost archwiliadau ac arolygon arbenigol |
| Costau gweithredu | Costau gweithredu elfennau o'r ased |
| Argostau | Costau mewnol sy'n gysylltiedig â rheoli'r ased. Derbynnir efallai na fydd y costau hyn ar gael ar lefel grŵp ased |
| Colled | Arian sy'n cael ei wario y mae'r Cyngor fwy na heb yn ei "golli" lle nad oes unrhyw fudd yn dod i'r ased na'r defnyddiwr. |
| Gwelliannau | Gwaith sy'n ychwanegu isadeiledd newydd i'r ased. |

***Tabl 3. Cofnodi Costau***

# 9. Caffael

Mae'r gwaith cynnal yn cael ei gyflawni drwy gymysgedd o wasanaethau mewnol a gwasanaethau wedi'u caffael. Mae gwasanaethau cynnal priffyrdd dydd-i-ddydd yn cael eu darparu'n bennaf gan adnoddau mewnol y Cyngor. Lle mae angen sgiliau arbenigol, mae contractwyr allanol yn cael eu cyflogi.

Mae'r cydbwysedd rhwng gwasanaethau mewnol a gwasanaethau wedi'u caffael ar gyfer pob ased wedi'u hamlinellu isod.

| Ased | Math y Gwaith | Mewnol neu gontractwr | Manylion contractau |
|---|---|---|---|
| Cerbydlonydd | Arferol ac ymatebol | Mewnol | |
| | Wedi'i gynllunio | Ail-wynebu – Contractwr | Fframwaith wynebu |
| | | Gosod haen wyneb (surface dress) / Mewnol a chontractwr | |
| Troedffyrdd | Arferol ac ymatebol | Mewnol | |
| | Wedi'i gynllunio | Ail-adeiladu - Contractwr | Fframwaith wynebu |
| | | Ail-wynebu - Contractwr | Fframwaith wynebu |
| | | Sêl Slyri – Contractwr | Proses dendro |
| Goleuadau Stryd | Arferol ac ymatebol | Mewnol | |
| | Wedi'i gynllunio | Colofn (Newydd / Amnewid) – Mewnol | |
| | | Luminaire (Newydd / Amnewid) - Mewnol | |
| Strwythurau Priffyrdd | Arferol ac ymatebol | Mewnol a chontractwr | |
| | Wedi'i gynllunio | Mewnol a chontractwr | |
| Signalau Traffig | Arferol ac ymatebol | Trwsio / Cynnal – Contractwr | Proses dendro |
| | Wedi'i gynllunio | Archwiliad blynyddol – Contractwr | Proses dendro |

***Tabl 4. Gwasanaeth mewnol ac/neu wedi'i gaffael***

# 10. Dyraniad y Gyllideb

Mae'r gyllideb ar gyfer cynnal priffyrdd yn cael ei osod yn flynyddol gan Gyngor Gwynedd. Caiff adroddiadau statws eu darparu i gynorthwyo'r Cyngor i sefydlu'r gyllideb gyffredinol. Mae'r gyllideb cynnal priffyrdd yn cael ei dyrannu rhwng grwpiau ased a mathau o waith yn unol â'r dull a nodir isod.

### 10.1. Sefydlu Cyllideb Flynyddol

Mae'r gyllideb cynnal priffyrdd yn cael ei rhannu rhwng gwaith rheolaidd a gwaith wedi'i gynllunio. Mae'r gyllideb gwaith arferol yn cael ei ddyrannu i dair ardal weithredol Gwynedd - Arfon, Dwyfor a Meirionnydd - ac mae'n seiliedig ar filltiroedd y llwybrau. Mae'r gyllideb gwaith wedi ei gynllunio yn unol ag ein trefn flaenoriaethu.

Mae'r Peirianwyr Ardal yn gyfrifol am wario eu dyraniadau cyllidebol perthnasol o fewn y pedwar categori a nodir isod:

- Cyfalaf Cynnal Strwythurol, 52% +/- 5% (Triniaeth cerbydlonydd wedi'i rhestru a darpariaeth newydd).
- Cynnal Strwythurol Presennol, 13% +/- 2% (Gwaith cynnal gwasanaeth wedi'i raglennu).
- Cynnal Rheolaidd, 20% +/- 3% (Gynnal cylchol, cynnal adweithiol).
- Cynnal Gaeaf Presennol (15%).

## 11. Ymholiadau cwsmeriaid

Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu hysbysiadau gan y cyhoedd ynghylch problemau ar y priffyrdd. Yn ogystal â chynorthwyo i adnabod diffygion penodol, maent yn gymorth i nodi agweddau o'r rhwydwaith priffyrdd a allai fod angen eu gwella.

Mae Cyngor Gwynedd yn cael adborth gan gwsmeriaid am y gwasanaeth priffyrdd drwy ei system rhyngwyneb cyhoeddus ar-lein ynghyd â'i ganolfan alwadau, sef Galw Gwynedd. Mae gwybodaeth am Galw Gwynedd ar gael ar-lein.

### 11.1. System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (SRhCC)

Pan fo aelod o'r cyhoedd yn adrodd am broblem ar y rhwydwaith priffyrdd – naill ai drwy Galw Gwynedd neu ar y system rhyngwyneb cyhoeddus ar-lein – anfonir hysbysiad i'r swyddog neu'r tîm cyfrifol trwy SRhCC y Cyngor, a elwir yn FFOS.

Os oes angen gwaith cynnal i fynd i'r afael â'r mater a adroddwyd gan y cwsmer, mae gorchymyn gwaith yn cael ei gysylltu'n uniongyrchol â'r cais gwasanaeth cwsmeriaid. Mae hyn yn caniatáu i gylch bywyd y cais gael ei gofnodi. Pan fydd y mater wedi cael sylw, bydd y cwsmer yn cael ei hysbysu o'r camau a gymerwyd ac fe gaeir y cais yn y SRhCC.

### 11.2. Hysbysiadau'r Cynllun ac Adborth

Ar gyfer pob gwaith cynlluniedig mawr a wneir ar y briffordd, mae'r gwasanaeth priffyrdd yn darparu hysbysiad cyn-gwaith i'r holl eiddo sy'n cael eu heffeithio gan y gwaith. Mae'r nodyn yn gofyn am wybodaeth am broblemau a ragwelir gan ddefnyddwyr a thrigolion a allai godi i helpu i liniaru yn erbyn aflonyddwch cyhyd â phosib cyn ac yn ystod y gwaith.

### 11.3. Adroddiadau Gwaith Ffyrdd

Gall rhwystredigaeth y cyhoedd godi yn sgil oedi sy'n cael ei achosi gan waith ffordd. I roi gwybodaeth i'r cyhoedd ac eraill ynghylch lle y gellir disgwyl aflonyddwch i draffig y ffordd, mae Adroddiad Gwaith Ffordd wythnosol yn cael ei gylchredeg i'r prif sefydliadau moduro, y cyfryngau lleol a'r gwasanaethau brys. Mae gwybodaeth ar waith ffordd sydd wedi'i gynllunio ar gael ar-lein.

Mae’r adroddiad wythnosol yn cynnwys manylion am y gwaith ffordd sydd am gael ei wneud ar yr holl ffyrdd, gan gynnwys natur a hyd disgwyliedig y gwaith a'r dulliau rheoli traffig sy'n cael eu defnyddio. Yn ogystal, darperir cyhoeddusrwydd lle mae'n debygol y bydd oedi mawr i'r traffig. Mae hyn yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau radio a theledu, a phapurau newydd lleol.

## 12. Gweithgareddau Ymgymerwyr Statudol

Gall gwaith gan drydydd parti effeithio ar gyflwr asedau priffyrdd. Mae rôl trydydd parti mewn gwaith stryd yn cael sylw yn Neddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Mae'r Ddeddf yn gofyn ar y Cyngor i sicrhau cydlyniant yr holl waith stryd, gan gynnwys y gwaith sy'n cael ei wneud gan drydydd parti, i sicrhau diogelwch, isafu'r anghyfleustra i bobl sy'n defnyddio'r stryd, a gwarchod yr asedau priffyrdd.

### 12.1. Gweithdrefnau

Gweler isod y gweithdrefnau sy'n cael eu defnyddio gan Gyngor Gwynedd i gydymffurfio â'i ddyletswyddau yn Neddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

- **Trwyddedau gwaith stryd:** Y drwydded y mae'n rhaid i ymgymerwyr statudol wneud cais amdani i weithio ar ffordd y Cyngor
- **Cofrestr Gwaith Stryd:** Y gofrestr sy'n cael ei chadw gan y Cyngor sy'n cofnodi pryd a ble mae'r ymgymerwyr statudol yn gweithio ar y briffordd

- **Hysbysiad o waith:** Yr hysbysiadau sy'n rhaid eu cyflwyno cyn bwrw ymlaen â'r gwaith ac y dylid eu cyflwyno gan y sefydliad sy'n gwneud y gwaith.
- **Cyfyngiadau ar waith:** Atal gwneud gwaith ar ffyrdd sydd wedi cael eu hail-wynebu yn ddiweddar am gyfnod ar ôl cwblhau'r gwaith hwnnw
- **Cydlynu gwaith:** Cydlynu gwaith mewn trefn briodol ac ar gyfnodau priodol lle mae angen i fwy nag un sefydliad weithio ar yr un stryd
- **Dynodi strydoedd wedi'u gwarchod:** Lle y gall y Cyngor ddynodi gwarchodaeth ar strydoedd penodol sy'n cael eu defnyddio gan ymgymerwyr statudol
- **Safonau adfer:** Manyleb y Cyngor ynghylch pa safonau adfer ddylai fod ar gategorïau ffordd, gan gynnwys deunyddiau a dyfnderau ac ati.
- **Offer sy'n cael ei effeithio gan waith ar y brifforddd:** Lle mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i ymgymerwyr statudol am weithiau ffordd sydd wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau y gwneir darpariaeth ar gyfer gwarchod neu wyro'r offer gwasanaethau presennol.

# 13. Hawliadau gan Drydydd Parti

Gwneir hawliadau trydydd parti yn erbyn Cyngor Gwynedd pan fo aelodau'r cyhoedd yn credu bod esgeulustod ar ran y Cyngor wedi arwain at anaf neu ddifrod i eiddo.

## 13.1. Prosesu Hawliadau Trydydd Parti

Gellir cael manylion ynghylch proses y Cyngor o ymdrin â hawliadau trydydd parti drwy anfon e-bost at: yswiriant@gwynedd.llyw.cymru

Mae'r Cydlynydd Risg a Rheolwr Yswiriant yn derbyn adroddiad blynyddol gan y tîm yswiriant.

Mae'r adroddiad yn ymdrin â:

- Nifer yr hawliadau;
- Dadansoddiad o fath yr hawliad (e.e. anaf personol neu ddifrod i eiddo);
- Yr ased y mae'n cyfeirio ato;
- Manylion penodol yr hawliad, ac;
- P'un a oedd yr hawliad yn llwyddiannus neu wedi'i wrthod.

## 13.2. Adrodd am Ddeilliannau Hawliadau

Mae'r Cydlynydd Risg a Rheolwr Yswiriant yn adolygu'r wybodaeth ac yn cynnwys crynodeb o'r data hawliadau.

# 14. Rheolaeth Traffig

Fel awdurdod priffyrdd, mae dyletswydd ar y Cyngor i reoli'r rhwydwaith ffyrdd i sicrhau bod traffig yn symud yn rhwydd ac i hwyluso'r un peth ar rwydweithiau'r awdurdodau priffyrdd cyfagos. Daw'r dyletswyddau hyn o Ddeddf Rheoli Traffig 2004, ac mae'r trefniadau a roddwyd yn eu lle gan Gyngor Gwynedd i fodloni'r dyletswyddau hyn wedi'u hamlinellu isod.

## 14.1. Rheolwr Traffig

Mae'r Cyngor wedi penodi Rheolwr Traffig i ymgymryd â thasgau y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei dyletswyddau rheoli rhwydwaith.

## 14.2. Aflonyddwch Traffig

Mae gan Gyngor Gwynedd brosesau ar gyfer sicrhau bod yr awdurdod yn adnabod yr hyn sy'n achosi neu a allai achosi tagfeydd ar y ffordd ac aflonyddwch arall, ac mae'n gweithredu mewn ymateb i, neu wrth ragweld, unrhyw beth o'r fath.

## 14.3. Polisïau ac Amcanion

Mae gan Gyngor Gwynedd bolisïau ac amcanion mewn perthynas â ffyrdd neu ddosbarthiadau o ffyrdd gwahanol ac mae gweithdrefnau yn eu lle i fonitro effeithiolrwydd y prosesau gwneud penderfyniadau, gweithrediad y penderfyniadau hyn, ac i asesu eu perfformiad wrth reoli'r rhwydwaith ffyrdd.

## 14.4. Strydoedd Sensitif i Draffig

Mae Gwynedd yn cynnwys sawl stryd sydd, yn sgil y nifer neu fath y traffig sy'n eu defnyddio, wedi cael eu dynodi yn rhai sensitif i draffig ac mae cyfyngiadau amser gweithio wedi'u gosod arnynt. Gweler rhestr o strydoedd sy'n sensitif i draffig yn y daenlen Excel a ganlyn: *RP1 Adolygu Risgiau Asedau Priffyrdd.*

# 15. Cynnal Arferol Cylchol

Mae'r gweithgareddau cynnal cylchol yn cynnwys gwagio gylïau a chynnal a chadw ymylon ffyrdd. Gweler isod pa mor aml y gwneir gweithgareddau Cynnal Cylchol.

| Gweithgaredd | Amlder |
|---|---|
| **Glanhau Gylïau** | |
| Gylïau safonol | Unwaith y flwyddyn |
| Gylïau â blaenoriaeth | Cynyddu'r amlder mewn lleoliadau sy'n cael eu hadnabod fel rhai problemus. |
| Sianelau draenio, griliau i fewnfeydd cwlfert. | Glanhau rheolaidd mewn lleoliadau sy'n cael eu hadnabod fel rhai problemus. |
| **Torri Gwair** | |
| Mae ardaloedd dynodedig o'r ymylon ffordd yn cael eu hadnabod a'u heithrio o'r drefn torri gwair blynyddol er mwyn gwarchod blodau gwyllt. Pan fo blodau gwyllt ar yr ymylon ffordd, mae'r torri'n cael ei oedi hyd nes i'r hadau sefydlu eu hunain. | |
| Ffyrdd trefol | Arfon – 5 toriad blynyddol<br>Dwyfor – 5 toriad<br>Meirionnydd – 5 toriad |
| Ffyrdd gwledig | Toriad cyntaf, Mehefin – Gorffennaf<br>Ystod o 1m gan gynyddu'r lled er mwyn ymgorffori lleiniau gweledEdd, gweledEdd ymlaen o gwmpas corneli, culfannau, cyffyrdd ac o flaen arwyddion. Torri o amgylch arwyddbyst a chelfi stryd eraill.<br>O ran lonydd bach cefn gwlad: Un ystod ar gloddiau pridd lle mae'r ymylon ffordd yn llai na 1m o led, yn ymestyn i 2/3 ystod o uchder ar droadau peryglus a chul. |
| | Ail doriad, Medi – Hydref<br>Fel gyda'r toriad cyntaf ond cynyddu'r lled i gynnwys mannau gwastad ar yr ymyl. Efallai y bydd yr ardal y tu hwnt i'r gwastad ar ffin y briffordd yn cael ei thorri bob 3 mlynedd i atal gordyfiant os yw hynny'n ymarferol |
| **Gwaredu Chwyn** | |
| Chwistrellu chwyn | 2 waith y flwyddyn |

| | |
|---|---|
| Gwaredu chwyn gwenwynig | Cael gwared â llysiau'r gingroen ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn a thoriadau eraill yn dibynnu ar y math |
| Glanhau trwyadl | Canolfan drefol ddiffiniedig – 12 y flwyddyn<br>Ardaloedd trefol eraill – 6 y flwyddyn<br>Prif ffyrdd gwledig – 2 y flwyddyn<br>Ffyrdd trydydd dosbarth gwledig a Di-ddosbarth – 1 y flwyddyn |

***Tabl 5. Cynnal Cylchol***

# 16. Trefn Flaenoriaethu Cynllun Gwaith Priffyrdd

Mae asedau sy'n cael eu hadnabod fel rhai sydd angen eu trwsio neu eu hamnewid yn cael eu cynnwys ar raglen waith. Mae'r gwaith sydd ei angen yn cael ei wneud yn ôl blaenoriaeth.

## 16.1. Blaenoriaethu Cynlluniau

Mae'r system WDM yn rhoi rhestr o waith i'w gwblhau, ac mae'r data SCANNER yn adnabod diffygion mwy difrifol. Fodd bynnag, nid yw'r dulliau hyn yn darparu cynllun blaenoriaethu ar gyfer archebion gwaith ac archwiliadau. Mae'r archebion gwaith a'r archwiliadau yn cael eu blaenoriaethu ar ddisgresiwn y staff cynnal priffyrdd perthnasol.

Mae'r rhestr yn cynnwys mwy o gynlluniau na'r hyn y gellir ei ariannu O ganlyniad, mae rhestr o safleoedd wrth gefn yn cael ei gynhyrchu i'w ddefnyddio os na fydd archebion gwaith ar y safleoedd a ddewiswyd yn cael eu gwneud am resymau nad oedd modd eu rhagweld.

# 17. Perfformiad

I sicrhau bod y perfformiad gweithredol yn cydymffurfio â'r safonau a nodir yn y llawlyfr hwn, mae'r Cyngor yn gweithredu'r drefn fonitro a amlinellir isod.

## 17.1. Mesurau Perfformiad Gweithredol

Mae gan Gyngor Gwynedd nifer o fesurau perfformiad i fonitro effeithiolrwydd gweithredol ei wasanaethau cynnal priffyrdd. Mae'r tabl isod yn cynnwys ein mesurau perfformiad a'n targedau.

| Teitl Mesur Perfformiad | Targed |
|---|---|
| % y ffyrdd A, B, C mewn cyflwr gwael | 11.2% |
| % yr archwiliadau strwythurol cyffredinol wedi'u cwblhau o'r rhaglen | 80% |
| % yr archwiliadau priffyrdd wedi'u cwblhau ar amser | 100% |
| % diffygion critigol, wedi'u nodi ar archwiliad, wedi'u gwneud yn ddiogel ymhen 2 awr | 100% |
| % y diffygion diogelwch, wedi'u nodi ar archwiliad, wedi'u gwneud yn ddiogel erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf | 95% |
| % y diffygion cynnal (ffyrdd CHSR, CH1 a CH2) wedi'u nodi ar archwiliad, wedi'u gwneud yn ddiogel ymhen 1 mis. | 95% |
| % y diffygion cynnal (ffyrdd CH3 a CH4), wedi'u nodi ar archwiliad, wedi'u gwneud yn ddiogel ymhen 3 mis. | 95% |
| % y methiannau lampau stryd a drwsiwyd ymhen 5 diwrnod gwaith | 80% |

***Tabl 6. Herio perfformiad***

Nodir hefyd fodlonrwydd/anfodlonrwydd y defnyddwyr gwasanaeth ynghyd â nifer y cwynion.

Mae'r perfformiad yn erbyn y mesurau hyn yn cael ei adrodd i dîm Cyfarwyddwyr Corfforaethol Cyngor Gwynedd. Mae'r adolygiadau yn cael eu cynnal tair gwaith y flwyddyn ac maent wedi'u dylunio i alluogi'r Cyngor a rheolwyr gwasanaeth i gymryd camau unioni os bydd ei berfformiad yn dirywio.

## 17.2. Meincnodi

Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu gweithgareddau meincnodi i fesur perfformiad cymharol. Mae'r meincnodi yn cael ei hwyluso drwy'r prosiect CSSC. Fodd bynnag, mae awdurdodau priffyrdd yn cyflwyno ac yn casglu data perfformiad yn wahanol sy'n golygu na fydd unrhyw gymhariaeth â pherfformiad Cyngor Gwynedd gydag awdurdodau priffyrdd eraill yn gywir neu'n briodol. Pan fo amgylchiadau'n debyg ac yn golygu bod modd gwneud cymhariaeth gywir o'r perfformiad, mae Cyngor Gwynedd yn gweithio i rannu a dysgu arfer dda.

## Atodiad A: Categorïau Hierarchaeth Asedau

| Priffyrdd | | |
|---|---|---|
| **Categori** | **Disgrifiad / amcangyfrif defnydd traffig dyddiol** | **Ffyrdd** |
| CHSR | **Llwybrau strategol.** Yn gyffredinol, dyma'r prif lwybrau sy'n cysylltu prif gyrchfannau. Llwybrau ar gyfer traffig pellter hir sy'n symud yn gyflym lle mae terfynau cyflymder yn gyffredinol yn fwy na 40mya.<br><br>Cyfaint traffig enghreifftiol > 20,000. | A4087<br>A4212<br>A496<br>A497 |
| CH1 | **Prif ddosbarthwyr.** Llwybrau rhwng llwybrau strategol ac sy'n cysylltu canolfannau trefol â'r rhwydwaith strategol. Mewn ardaloedd trefol, mae'r terfynau cyflymder fel arfer yn 40mya neu lai.<br><br>Cyfaint traffig enghreifftiol > 10,000 – 20,000. | A4085<br>A4086<br>A4087<br>A4244<br>A493<br>A496<br>A497<br>A4971<br>A498<br>A499<br>A5<br>B4405 |
| CH2 | **Dosbarthwyr eilaidd.** Wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig. Mae'r ffyrdd hyn yn gyffredinol yn cysylltu'r pentrefi mwy â'r prif lwybrau dosbarthu strategol.<br><br>Cyfaint traffig enghreifftiol > 5,000 – 10,000. | B4354<br>B4366<br>B4391<br>B4401<br>B4404<br>B4407<br>B4409<br>B4410<br>B4411<br>B4412<br>B4413<br>B4415<br>B4416<br>B4417<br>B4418<br>B4419<br>B4501<br>B4547 |
| CH3 | **Ffyrdd lleol.** Wedi'i leoli mewn ardaloedd gwledig neu'n cysylltu pentrefi llai â'r ffyrdd dosbarthu. Mae'r terfynau cyflymder fel arfer yn 30mya neu lai.<br><br>Cyfaint traffig enghreifftiol > 1,000 - 5,000. | B4402<br>B4403<br>B4410<br>B4573 |

| | | |
|---|---|---|
| CH4 | **Ffyrdd mynediad lleol.** Mae'r ffyrdd hyn yn gwasanaethu aneddiadau bach gydag ychydig iawn o eiddo.<br><br>Cyfaint traffig enghreifftiol > 200 – 1,000. | *Pob ffordd sy'n weddill yn nosbarth C neu'n annosbarthedig* |
| CH5 | **Ffyrdd deufetel yn gyffredinol.** Mewn ardaloedd gwledig. Ychydig iawn o aneddiadau sy’n cael eu gwasanaethu gan y ffyrdd hyn a gallent fod yn anaddas i gerbydau cyffredinol.<br><br>Cyfaint traffig enghreifftiol < 200. | |

| **Troedffyrdd** | |
|---|---|
| **Categori** | **Disgrifiad (amcangyfrif o'r nifer sy'n troedio'r llwybrau bob dydd)** |
| FH1 | Troedffyrdd o fewn canolfan siopa drefol sy’n ffurfio’r canol tref/pentref. |
| FH2 | Troedffyrdd sy’n bwydo mewn i brif ffyrdd cerdded ac yn gyfagos a chategorïau troedffyrdd CHSR, CH1 a CH2. |
| FH3 | Troedffyrdd sy’n gyfagos â ffyrdd cerbydau categori CH3. |
| FH4 | Troedffyrdd ar ystadau preswyl yn bennaf a throedffyrdd sy’n gyfagos â ffyrdd cerbydau categori CH4. |

| **Strwythurau** | |
|---|---|
| **Categori** | **Disgrifiad** |
| Strwythur Hanfodol | Strwythur sy'n hanfodol i'r rhwydwaith. Os oes cyfyngiad arno neu os yw allan o wasanaeth, byddai'n achosi effaith andwyol hynod arwyddocaol, megis oedi difrifol i'r traffig ac/neu lwybr gwyriad maith gyda'r potensial i effeithio ar wasanaethau pwysig eraill neu ddatgysylltu cymunedau. |
| Strwythur Pwysig | Strwythur sy'n bwysig i weithrediad y rhwydwaith, h.y. os oes cyfyngiad arno neu os yw allan o wasanaeth, byddai'n cael effaith andwyol ar weithrediad y rhwydwaith cyfan. |
| Strwythur Safonol | Pob strwythur arall. |

Nid oes unrhyw hierarchaeth ar gyfer asedau goleuadau stryd sy'n cael eu rheoli gan Gyngor Gwynedd. Mae'r holl asedau yn cael eu harchwilio ar yr un amlder ac yn cael eu trwsio o fewn yr un amser ymateb

| **Hierarchaeth Signalau Traffig** | |
|---|---|
| **Categori** | **Disgrifiad** |
| Cyffordd Hanfodol | Cyffordd sy'n hanfodol i weithrediad y rhwydwaith, h.y. byddai ei methiant yn achosi aflonyddwch traffig mawr. |
| Cyffordd Bwysig | Cyffordd sy'n bwysig i weithrediad y rhwydwaith, h.y. byddai ei methiant yn achosi aflonyddwch traffig. |
| Cyffordd Safonol | Cyffordd gyda signalau ar y rhwydwaith. |
| Croesfan i Gerddwyr | Croesfan i gerddwyr. |

Mae manylion yr hierarchaeth sydd wedi'i dyrannu i bob ased unigol yn cael eu dal yn y systemau rheoli asedau WDM.

## Atodiad B: Amlder Archwiliadau

Mae amlder archwiliadau arferol Cyngor Gwynedd ar gyfer cerbydlonydd a throedffyrdd yn cael eu hamlinellu yn y tablau isod, ynghyd â'r safonau gofynnol sy'n cael eu hargymell gan CSSC.

**1. Lonydd Cerbydau; Amlder Archwiliadau Arferol**

| Hierarchaeth y Lonydd Cerbydau | Amlder yr archwiliadau | Nifer swyddogion yn archwilio | Goddefiant Amlder Archwiliadau | Safonau Gofynnol a Argymhellir gan CSSC |
|---|---|---|---|---|
| CHSR | Gyrru bob mis | 2 | 5 diwrnod gwaith | Misol |
| CH1 | Gyrru bob mis | 2 | 5 diwrnod gwaith | Misol |
| CH2 | Gyrru bob mis | 2 | 5 diwrnod gwaith | Bob tri mis |
| CH3 | Gyrru bob tri mis | 1 | 10 diwrnod gwaith | Bob chwe mis |
| CH4 | Gyrru bob chwe mis | 1 | 10 diwrnod gwaith | Blynyddol neu bob dwy flynedd, yn ddibynnol ar y cyflwr |
| CH5 | Ymatebol | Dibynnol ar yr amgylchiadau a'r asesiad risg | N/A | Ymatebol yn Unig |

| 2. Troedffyrdd: Amlder Archwiliadau Arferol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hierarchaeth y Troedffyrdd** | **Amlder yr archwiliadau (trefol)** | **Amlder yr archwiliadau (gwledig)** | **Goddefiant amlder archwiliadau** | **Safonau Gofynnol a Argymhellir gan CSSC** |
| **FH1** | Cerdded bob mis | N.A. | 5 diwrnod gwaith | Misol |
| **FH2** | Cerdded bob 3 mis neu yrru mewn cerbyd sy'n symud yn araf | Gyrru bob 3 mis. | 10 diwrnod gwaith | Bob tri mis |
| **FH3** | Cerdded bob 6 mis neu gyrru mewn cerbyd sy'n symud yn araf. | Gyrru bob 6 mis. | 10 diwrnod gwaith | Bob tri mis |
| **FH4** | Cerdded bob 6 mis neu yrru mewn cerbyd sy'n symud yn araf. | Gyrru bob 6 mis. | 10 diwrnod gwaith | Bob chwe mis |

## Asesiadau Cyflwr

### Cerbydlonydd

Cynhelir yr asesiadau SCANNER a Griptester ar yr amlderau hyn

| Archwilio Blynyddol Cerbydlonydd | | |
|---|---|---|
| **Dosbarth y Ffordd** | **SCANNER** | **Griptester** |
| Ffyrdd A | 100% (un cyfeiriad) | 33% (un cyfeiriad) |
| Ffyrdd B | 100% (un cyfeiriad) | 33% (un cyfeiriad) |
| Ffyrdd C | 10% (un cyfeiriad) | |

Mae asesiadau cyflwr gweledol ar gyfer cerbydlonydd yn cael eu cynnal ar yr amlderau isod:

| Categori Lonydd Cerbydau | Ardal yr Arolwg |
|---|---|
| CHSR | 100% blynyddol |
| CH1 | 100% blynyddol |
| CH2 | 100% blynyddol |
| CH3 | 100% blynyddol |
| CH4 | 100% blynyddol |
| CH5 | Ymatebol |

**Troedffyrdd**

Mae asesiadau cyflwr gweledol ar gyfer troedffyrdd yn cael eu cynnal ar yr amlderau a ganlyn.

| Categori Troedffordd | Ardal yr Arolwg |
|---|---|
| FH1 | 100% blynyddol |
| FH2 | 100% blynyddol |
| FH3 | 100% blynyddol |
| FH4 | 100% blynyddol |

**Strwythurau**

Mae asesiadau cyflwr yn cael eu cynnal ar yr amlderau a ganlyn:

| Math o Archwiliad | Ardal yr Arolwg |
|---|---|
| Archwiliad Cyffredinol | 100% bob 2 flynedd |
| Prif Archwiliad | 100% bob 6 mlynedd (lle bo angen*) |

* O ran strwythurau llai gyda mynediad rhwydd, ystyrir bod Archwiliad Cyffredinol yn ddigon heb fod angen cynnal Prif Archwiliad.

**Goleuadau**

Mae asesiadau cyflwr yn cael eu cynnal ar yr amlderau a ganlyn:

| Math o Archwiliad | Ardal yr Arolwg |
|---|---|
| Trydanol | 100% Bob 6 mlynedd |
| Prawf Strwythurol Colofnau | Yn unol â chanlyniad y prawf blaenorol (3 neu 6 mlynedd) |
| Gweledol | Ad hoc (yn ystod pob ymweliad cynnal) |

## Atodiad C:  Mathau o Ddiffygion a Lefelau Ymyrraeth

Mae'r isod yn rhestr o fathau o ddiffygion a'r lefelau ymyrraeth a ddefnyddir yn yr awdurdod.

**Diffygion Critigol**

| Math yr Ased | Diffyg | Maint | Hierarchaeth | Cymeriad y Ffordd | Amser Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pob un** | Sefyllfa lle mae'r swyddog archwilio yn ystyried y risg i ddiogelwch yn ddigon uchel i fod angen sylw ar unwaith, yn arferol mae'n cynnwys eitemau megis; Lôn gerbydau / troedffordd / llwybr beicio wedi cwympo gyda risg uchel o ddamweiniau / colli rheolaeth; Gwifrau, coed neu strwythurau uwchben yn hynod ansefydlog; Gwifrau byw yn y golwg; Dŵr sefyll gyda risg uchel o golli rheolaeth; Gwaith haearn ar goll neu hynod ddiffygiol gyda thebygolrwydd uchel o achosi anaf i ddefnyddwyr y briffordd. | Amherthnasol. Mae diffygion critigol yn cael eu diffinio gan eu potensial i achosi anaf ar unwaith, ac nid gan faint y diffyg | Pob un | Amherthnasol. Mae diffygion critigol yn cael eu diffinio gan eu potensial i achosi anaf ar unwaith, ac nid gan faint y diffyg | 2 awr |

Yr amser ymateb i ddiffyg critigol yw'r amser a gymer hyd nes bod y safle yn cael ei wneud yn ddiogel. Efallai y gellir cyflawni hyn drwy gau'r ffordd gyfan, neu ran ohoni, neu drwy roi conau o amgylch y perygl. Mewn rhai achosion, bydd y gwaith trwsio'n digwydd ar unwaith. Mewn achosion eraill, bydd y rhain yn hwyr.

Tud. 119

**Diffygion Diogelwch (Ymateb Categori 1): Erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf**

| Math yr Ased | Math y Diffyg | Hierarchaeth | Meini Prawf Dimensiynau | | Safon Gofynnol Cenedlaethol CSSC | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dyfnder/ Uchder | Graddfa | Hierarchaeth | Dyfnder/ Uchder | Graddfa |
| Lonydd Cerbydau | Tyllau yn y ffordd yn effeithio ar ddefnyddwyr bregus, e.e. croesfannau pelican neu aros-fannau bws, ac ati | Pob categori (trefol). | <20mm | >150mm | CHSR, CH1 a CH2. | >50mm | Dimensiwn llorweddol uchaf yn fwy na 150mm |
| | Twll | CHSR (trefol a gwledig), CH1 (trefol a gwledig), CH2 (trefol a gwledig), CH3 (trefol). | >40mm | >150mm | | | |
| | Twll | CH3 (gwledig), CH4 (trefol a gwledig) | >60mm | >150mm | CH3, CH4 a CH5. | >75mm | Dimensiwn llorweddol uchaf yn fwy na 150mm |
| | Bagliad neu wahaniaeth lefel sydyn arall | CHSR (trefol a gwledig), CH1 (trefol a gwledig), CH2 (trefol a gwledig), CH3 (trefol). | >40mm | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bagliad neu wahaniaeth lefel sydyn arall | Pob categori (trefol a gwledig). | >60mm | N/A | |
| | Arwyneb llithrig | Pob categori (trefol a gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |
| | Dŵr sefyll | CHSR (gwledig), CH1 (gwledig), CH2 (gwledig), CH4 (gwledig). | >20mm | >20% o'r lôn | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |
| | Arwyddion hanfodol/llinellau gwynion sydd ar goll/wedi torri/wedi erydu/wedi colli eu lliw. | Pob categori (trefol a gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |
| | Arwyddion rhybuddio nad oes unrhyw fodd eu defnyddio | Pob categori (trefol a gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |
| | Malurion neu ollyngiadau mawr ar y ffordd | Pob categori (trefol a gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |
| | Cwymp dail difrifol | CHSR (gwledig) a CH1 (gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |
| | Gwifrau trydan wedi'u difrodi ac/neu yn y golwg | Pob categori (trefol a gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |
| | Rhwystr ar goll neu rwystr diffygiol | Pob categori (trefol a gwledig) | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Argloddiau neu dramwyfeydd ansefydlog | CHSR (trefol), CH1 (trefol), CH2 (trefol). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Coed ansefydlog neu frigau wedi torri | Pob categori (trefol a gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Llain gweled, yn cael ei rhwystro gan goed ac / neu brysglwyni | CHSR (trefol), CH1 (trefol), CH2 (trefol). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Gwaith haearn sydd wedi torri neu ar goll | Pob categori (trefol a gwledig) | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Stydiau ffordd wedi'u difrodi / rhydd | Pob categori (trefol a gwledig) | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| **Troedffyrdd** | Twll | FH1 (trefol a gwledig) | >20mm | >75mm | Pob categori | >40mm | Dimensiwn llorweddol uchaf yn fwy na 75mm. |
| | Twll | Pob categori (trefol a gwledig) | >40mm | >75mm | | | |
| | Bwlch neu grac | FH1 (trefol a gwledig) | >20mm | >20mm | Pob categori | >40mm | Dimensiwn llorweddol uchaf yn |

Tud. 122

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwlch neu grac | Pob categori (trefol a gwledig) | >40mm | >40mm | | | fwy na 75mm. |
| | Bagliad neu wahaniaeth lefel sydyn arall | FH1 (trefol a gwledig) | <20mm | N/A | Pob categori | >40mm | Dimensiwn llorweddol uchaf yn fwy na 75mm |
| | Bagliad neu wahaniaeth lefel sydyn arall | Pob categori (trefol a gwledig) | >40mm | N/A | | | |
| | Arwyneb llithrig | Pob categori (trefol a gwledig) | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Malurion neu ollyngiadau mawr ar y ffordd | Pob categori (trefol a gwledig) | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Gwifrau trydan wedi'u difrodi neu yn y golwg | Pob categori (trefol a gwledig) | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Rhwystr ar goll neu rwystr diffygiol | Pob categori (trefol a gwledig) | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Argloddiau neu dramwyfeydd ansefydlog | FH1 (trefol a gwledig), FH2 (trefol a gwledig), ac FH3 (trefol a gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Coed ansefydlog a brigau wedi torri | Pob categori (trefol a gwledig) | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |
| | Gwaith haearn sydd wedi torri neu ar goll | Pob categori (trefol a gwledig) | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |

**Diffygion Cynnal Uchel (Ymateb Categori 2.1): 1 mis (CHSR, CH1 a CH2) a 3 mis (CH3 a CH4).**

| Math yr Ased | Math y Diffyg | Hierarchaeth | Meini Prawf Dimensiynau | | Safon Gofynnol Cenedlaethol CSSC | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dyfnder/ Uchder | Graddfa | Hierarchaeth | Dyfnder/ Uchder | Graddfa |
| Lonydd Cerbydau | Twll | CHSR (trefol a gwledig), CH1 (trefol a gwledig), a CH2. | <20mm | >150mm | CHSR, CH1 a CH2 | >40mm | Dimensiwn llorweddol uchaf yn fwy na 150mm |
| | Twll yn y ffordd | CH3 (gwledig) a CH4 (trefol a gwledig) | >40mm | >150mm | CH3, CH4 a CH5 | >50mm | Dimensiwn llorweddol uchaf yn fwy na 150mm |
| | Bagliad neu wahaniaeth lefel sydyn arall | CHSR (trefol a gwledig), CH1 (trefol a gwledig), CH2 (trefol a gwledig) | <20mm | N/A | | | |
| | Bagliad neu wahaniaeth lefel sydyn arall | CH3 (gwledig) a CH4 (trefol a gwledig). | >40mm | N/A | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cwymp dail difrifol | CHSR (trefol), CH1 (trefol), CH2 (trefol a gwledig), CH3 (trefol a gwledig), CH4 (trefol a gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Argloddiau neu dramwyfeydd ansefydlog | CHSR (trefol), CH1 (trefol), CH2 (trefol a gwledig), CH3 (trefol a gwledig), CH4 (trefol a gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Lleiniau gweledol wedi'u rhwystro gan goed a phrysglwyni | CHSR (gwledig), CH1 (gwledig), CH3 (gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Stydiau ffordd ac/neu linellau gwyn ar goll | Pob categori (trefol a gwledig) | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| **Troedffordd** | Twll | FH2 (trefol a gwledig), FH3 (trefol a gwledig). | >20mm | N/A | Pob categori | 25mm - 40mm | Dimensiwn llorweddol uchaf yn fwy na 75mm. |
| | Bagliad neu wahaniaeth lefel sydyn arall | FH2 (trefol a gwledig), FH3 (trefol a gwledig). | <20mm | N/A | Pob categori | 25mm - 40mm | Dimensiwn llorweddol uchaf yn fwy na 75mm. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwlch | FH2 (trefol a gwledig), FH3 (trefol a gwledig). | <20mm | >20mm | Pob categori | 25mm - 40mm | Dimensiwn llorweddol uchaf yn fwy na 75mm. |
| | Dŵr sefyll | FH1 (trefol a gwledig) | >20mm | >20mm | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Cwymp dail difrifol | FH1 (trefol a gwledig), FH2 (trefol a gwledig), FH3 (trefol a gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |
| | Argloddiau neu dramwyfeydd ansefydlog | FH4 (trefol a gwledig) | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* | | |

**Diffygion Cynnal Isel (Ymateb Categori 2.1): Ymateb ar ddisgresiwn yr archwiliwr.**

| Math yr Ased | Math y Diffyg | Hierarchaeth | Meini Prawf Dimensiynau | | Safon Gofynnol Cenedlaethol CSSC | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Dyfnder/ Uchder | Graddfa | Hierarchaeth | Dyfnder/ Uchder | Graddfa |
| Lonydd Cerbydau | Twll yn y ffordd | CH4 (trefol a gwledig), CH5 (trefol a gwledig). | >20mm | N/A | | | |
| | Bagliad neu wahaniaeth lefel sydyn arall | CH4 (trefol a gwledig), CH5 (trefol a gwledig). | >20mm | N/A | | | |
| | Dŵr sefyll | CH5 (trefol a gwledig). | >20mm | >20mm | | | |
| | Arwyddion gwybodaeth nad oes unrhyw fodd eu gwasanaethu | Pob categori (trefol a gwledig) | N/A | N/A | | | |
| | Lleiniau gweledydd yn cael eu rhwystro gan goed ac / neu prysglwyni. | CH4 (trefol a gwledig), CH5 (trefol a gwledig). | N/A | N/A | | | |
| Troedffyrdd | Twll | FH4 (trefol a gwledig). | >20mm | N/A | | | |
| | Bagliad neu wahaniaeth lefel sydyn arall | FH4 (trefol a gwledig). | >20mm | N/A | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dŵr sefyll | FH2 (trefol a gwledig), FH3 (trefol a gwledig), FH4 (trefol a gwledig). | >20mm | >20mm | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |
| | Cwymp dail difrifol | FH4 (trefol a gwledig). | N/A | N/A | *Dim Safon Ofynnol CSSC* |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11 Gorffennaf 2023 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Elin Walker-Jones |
| **Swyddog Cyswllt:** | Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn 2023-24 yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd; ac amlinelliad o ble mae'r adran arni gyda'u mesurau perfformiad; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Edrychaf ymlaen i gael gweithio gyda'r adran a'r cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu drwy'r drefn Herio Perffromiad yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau gallwn i roi pobl Gwynedd yn ganolog i'n gwasanaethau plant a chefnogi teuluoedd.

1.3 Mae'r prosiectau blaenoriaeth drwy Gynllun y Cyngor yn symud ymlaen, sef y Cynllun Awtistiaeth a'r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychan.

## 2 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD

2.1 Nodir isod y cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma yn erbyn prosiectau blaenoriaeth yr Adran. Mae'r blaenoriaethau hyn yn mynd i'r afael â phrif risgiau yr adran. Yn gyffredinol teimlaf fod bob prosiect yn gwneud cynnydd yn erbyn yr addewidion yr ydym wedi eu gwneud yng Nghynllun y Cyngor.

2.2 <u>Cynllun Grŵp Tai Bychain</u>



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

Rydym am wella profiadau'r plant sydd yn ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau. Hyd yma rydym wedi cydweithio gyda Adran Eiddo i adnabod adeiladau addas i'w hystyried, penodi Rheolwr Prosiect drwy'r Cynllun Hyfforddi Yfory ac yn dechrau llunio'r achos fusnes ar gyfer diogelu'r buddsoddiad ariannol fyddai ei angen i brynu ac addasu'r adeilad i fod yn gartref addas a chlyd.

2.3 Cynllun Awtistiaeth

Mae plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei angen arnynt. Byddwn felly yn gwella'n darpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau. Mae'r Cynllun bellach yn ei ail flwyddyn ac erbyn hyn rydym wedi datblygu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer gweithwyr o bob maes sy'n dod i gyswllt gydag unigolion awtistig. Rydym hefyd wedi cydweithio gyda Gwasanaeth Awtistiaeth Gogledd Cymru i sicrhau fod cyfres o ddigwyddiadau, gwybodaeth a gweithgareddau i deuluoedd mewn lleoliadau amrywiol ar draws y sir. Rydym hefyd wedi llwyddo i greu swyddi newydd yn benodol ar gyfer y maes ac wedi bod yn llwyddiannus wrth recriwtio Ymarferydd a Gweithiwr Cymdeithasol.

## 3. PERFFORMIAD A MESURAU

3.1 Byddwn yn dymuno tynnu eich sylw at y materion canlynol, nad ydynt yn ymwneud â'r Prosiectau Blaenoriaeth, ond eu bod nhw'n derbyn sylw gan yr adran oherwydd eu bod yn cael effaith ar berfformiad gwasanaethau a/neu yn achosi pryder i ni.

3.2 Capasiti'r Gweithlu – Mae'r sefyllfa gweithlu yn parhau yn fater o bryder difrifol. Drwy'r prosiect Cynllunio'r Gweithlu a Gofalwn Cymru rydym wedi dechrau rhoi ar waith ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu.

3.3 Y galw a'r math o gefnogaeth - Mae'r adran yn parhau i weld fod natur yr achosion sydd yn cael eu cefnogi yn arddangos fod anghenion plant yn gymhleth, yn dwysau, eu bod angen pecyn cefnogaeth a phecynnau gofal eang, cynhwysfawr ac arbenigol iawn.

3.4 Mae'r niferoedd sy'n cysylltu am Wybodaeth, Cyngor neu Gefnogaeth yn parhau i fod yn sylweddol uwch nag oeddent cyn y pandemig. Daeth 1102 i gyswllt â ni yn Ebrill a Mai 2023. Rydym o'r farn fod effeithiau'r pandemig yn parhau i yrru'r galw, ynghyd â'r argyfwng costau a'r straen ar deuluoedd o ganlyniad yn cyfrannu tuag at yr angen am gefnogaeth.

3.5 Rydym wedi bod yn rhan o ymgyrch maethu cenedlaethol Maethu Cymru i ddenu pobl i feddwl am faethu. Mae'r ymgyrchoedd yma yn un o'r ffyrdd yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â sicrhau digon o leoliadau gofal yn lleol i blant pe bai angen iddynt ddod i ofal.

3.6 O ran mesurau yr adran, rwyf ar y cyfan yn hapus gyda'u perfformiad. Nid oes unrhyw fesurau ar hyn o bryd yn peri pryder i mi ond byddaf yn cydweithio gyda'r Pennaeth drwy drefniadau arferol herio perfformiad.

**4. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION**

4.1 Mae cyfanswm Cynllluniau Arbedion 23-24 ar gyfer yr adran o £44,010 ac mae'r cyfan wedi eu gwireddu.

4.3 Ar gyfer 2023/24, fel rhan o'r drefn bidiau, mae'r Adran wedi derbyn £130,000 fel bid un-tro tuag at barhau i gyflogi 3 ymarferydd gofal cymdeithasol. Bydd gwaith pellach o arfarnu'r swyddi a'u hymgorffori yn strwythur staffio yr Adran angen ei gwblhau yn ystod y flwyddyn.

**5. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb"

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn cyfleu adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd.

a. **Barn yr Aelod Lleol:**

   i. Ddim yn fater lleol.

b. **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

   i. Dim i'w nodi.

---

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11/07/2023 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| **Swyddog Cyswllt:** | Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i ddiweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran sefyllfa ariannol yr adran.

1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion wedi eu trafod mewn cyfarfod rhyngof i, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a chynrychiolaeth o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Dylid nodi mai gwybodaeth Mawrth ac Ebrill 2023 a graffwyd yn y cyfarfod hwnnw ym mis Mai ac felly ei bod yn fuan iawn i nodi unrhyw dueddiadau ar gyfer eleni ond rwyf wedi amlinellu'r meysydd sydd i'w llongyfarch neu sy'n destun pryder i mi ar hyn o bryd.

## 2 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-2028

2.1 Isod, mae diweddariad cryno fesul prosiect i amlygu'r prif feysydd sydd wedi gweld cynnydd neu sy'n peri pryder hyd yma ond dylid nodi nad wyf yn cyfeirio at bob un llif gwaith gan fod prosiectau'r adran yn eang iawn.

**<u>Cefnogaeth Ataliol yn Lleol</u>**

2.2.1 Mae cais cynllunio Dolfeurig wedi'i gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol a gweithgaredd ymgysylltu wedi'i gynnal ar y cynlluniau gydag ymateb bositif iawn ar y cyfan gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, staff a thrigolion yr ardal.

2.2.2 Mae adnodd ar lefel rheolwr bellach mewn lle i arwain y gwaith o lunio cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer y maes i sicrhau ein bod yn cynnwys ein cymunedau'n effeithiol wrth ddatblygu gwasanaethau a gwella hygyrchedd yr wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

Mae gwaith wedi'i wneud i ailwampio, diweddaru a symleiddio tudalennau gwefan yr adran dros y misoedd diwethaf a bydd y fersiwn newydd yn mynd yn fyw dechrau Medi. Bydd gwaith parhaol wedyn i'w chadw yn gyfredol a'i gwella'n barhaus.

2.2.3 Mae'r gwaith wedi cychwyn tuag at ennill achrediad 'cymuned oed gyfeillgar' erbyn hyn yn dilyn cefnogaeth y Cabinet, a'r cam nesaf fydd i roi rhaglen waith yn ei lle.

**<u>Byw'n Annibynnol</u>**

2.3.1 O safbwynt Tai Gofal Ychwanegol, mae oedi sylweddol wedi bod ar y gwaith adeiladu ym Mhwllheli ac mae'r adran yn gweithio gyda'r datblygwr i sicrhau eglurder ar yr amserlen ac ar y model gofal fydd mewn lle. Rwyf wedi gofyn am gyfarfod buan iawn gydag Adra i drafod ymhellach.

2.3.2 Rwy'n falch iawn o adrodd cynnydd da ar ein gwaith i ehangu opsiynau llety addas ar gyfer unigolion efo Anableddau Dysgu, gyda'r gobaith i gwblhau gwaith addasu byngalo yn y Groeslon yn fuan iawn a chynlluniau mewn lle ar gyfer byngalo ym Mhenrhyndeudraeth ac yn Harlech. Mae'r adran hefyd yn gweithio gyda phartneriaid ar gyfer datblygu tai a chefnogaeth mewn ardaloedd eraill yn Llŷn a Meirionnydd.

2.3.3 Mae'r gwaith o baratoi at drawsnewid digidol erbyn 2025 yn mynd rhagddo'n dda gyda'r gwasanaeth wedi cychwyn peilota technoleg amgen penodol am y tro cyntaf yng Ngwynedd ac wedi bod yn profi offer teleofal er mwyn gweld pa offer digidol fyddwn ni'n ei gomisiynu a'i ddarparu i drigolion Gwynedd erbyn 2025.

2.3.4 Nodaf gynnydd da hefyd mewn perthynas â'r gwaith i ailfodelu'n gwasanaeth taliadau uniongyrchol. Mae sesiynau wedi eu cynnal gyda chynghorau eraill i drafod yr hyn sy'n gweithio iddyn nhw ac mae'r gwaith o werthuso'r opsiynau posib ar ein cyfer ni yn mynd rhagddo. Disgwylir y bydd argymhelliad ar y ffordd ymlaen yn fuan iawn.

**<u>Gofal Arbenigol o Ansawdd</u>**

2.4.1 Yn anffodus, mae'r sefyllfa gyda methu ag agor uned dementia yn Llan Ffestiniog yn parhau oherwydd problemau recriwtio. Mae oedi pellach hefyd ar agor ein darpariaeth dementia newydd ym Mangor a'r Bermo o ganlyniad i arafwch ar y gwaith adeiladu. Rwyf wedi gofyn am gyfarfod buan efo'r Adran Tai ac Eiddo i ddeall y rhwystrau.

2.4.2 Rydym yn parhau i geisio deall gwir gost gofal ac erbyn hyn wedi cychwyn trafodaethau gyda rhai cartrefi preswyl a nyrsio gyda'r bwriad o gomisiynu bloc o welyau. Bydd hyn yn drefn comisiynu newydd yng Ngwynedd os y bydd yn llwyddiannus, a bydd yn hybu'r cyflenwad o'r gwelyau sydd ar gael yn y sir, gyda phwyslais ar welyau nyrsio.

2.4.3 Erbyn hyn, mae achos busnes strategol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn derbyn cadarnhad o'u cyfraniad tuag at y cynllun i ddatblygu gwelyau nyrsio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd ar safle Penrhos ger Pwllheli.

2.4.4 Mewn perthynas â chynnal adolygiad o'n model darparu gwasanaethau iechyd meddwl, mae'r adran wedi dechrau ar ymgysylltu gyda staff a'r Bwrdd Iechyd er mwyn symud ymlaen i ddatblygu cynigion mwy manwl. Gweler adroddiad a aeth i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 22/06/23 am fwy o fanylion.

2.4.5 Mae recriwtio i'r maes gofal a chadw staff yn parhau i fod yn hynod o heriol, ac mae'r prinder yn arwain at anallu'r adran i ddiwallu'r holl alw am ofal. Erbyn hyn, mae'r adran wedi gweithredu ar ganlyniadau adolygu ac ailarfarnu swyddi'r gweithlu gofal ac fe ddylai'r mwyafrif o staff fod wedi gweld y newid yn eu cyflogau bellach. Mae'r adran yn parhau i gyfrannu at y prosiect corfforaethol ond yn gweithio ar ymgychoedd penodol i ofal hefyd; gan gynnwys hyrwyddo'r fideo recriwtio ymhellach a gosod brandio perthnasol ar 5 o geir fflyd trydan newydd yr adran. Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn arwain grŵp tasg a gorffen i edrych ar opsiynau'n ymwneud â chyflogau proffesiynol yn y maes.

## 3. PERFFORMIAD A MESURAU

3.1 Rwyf yn fodlon iawn gyda'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan yr adran ers y tro diwethaf i mi adrodd mewn perthynas â datblygu mesurau a threfniadau i adrodd ar eu perfformiad mewn modd sy'n ein caniatáu i weld y perfformiad yn glir a thros amser. Mae llawer o fesurau y gallwn adrodd arnynt ond er mwyn ceisio cadw'n gryno, byddaf yn cyfeirio at y rhai hynny sy'n peri pryder neu'n dangos cynnydd sylweddol yn unig.

3.2 O fewn y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd** mae gan yr adran restr aros sylweddol ar gyfer derbyn asesiad therapi galwedigaethol gyda 42 unigolyn wedi bod ar y rhestr aros am fwy na 90 diwrnod ar ddiwedd mis Ebrill 2023. Mae'r achosion yn cael eu blaenoriaethu ar sail asesiad risg. Mae dwy swydd llawn amser therapydd galwedigaethol yn parhau'n wag ond mae'r adran wedi cynyddu adnodd Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol yn y tymor byr i gefnogi'r gwaith o leihau'r rhestr, ac maent yn edrych ar opsiynau i uwchsgilio'r aelodau staff yma i fedru cefnogi gyda mwy o achosion i'r dyfodol. Fe wnaf eich diweddaru yn fy adroddiad nesaf.

3.3 Rwy'n falch iawn o nodi ein bod wedi gweld cwymp yn y canran o oriau **gofal cartref** sydd heb eu diwallu ym mis Ebrill 2023 ar ôl rhai misoedd pryderus yn flaenorol. Disgynnodd y ganran o 15.6% ym mis Mawrth i 12.1% ym mis Ebrill. Mae'r rhestr aros yn parhau'n uchel gyda 120 o unigolion yn aros am ofal cartref o'r newydd ddiwedd Ebrill 2023 (o'i gymharu â 141 ddiwedd Mawrth) ond mae'n gam i'r cyfeiriad cywir ac rwy'n mawr obeithio y bydd y ffigurau yn parhau i syrthio wrth i'r model gofal cartref newydd wreiddio.

3.4 Gwelwyd dirywiad yn y nifer o achosion ble mae'r ymholiadau **diogelu oedolion** wedi eu cwblhau o fewn y 7 diwrnod gwaith statudol (lawr i 87.2% ym mis Ebrill o'i gymharu â 96.8% ym mis Mawrth). Rwyf wedi trafod y rhesymau gyda'r adran ac yn ymwybodol fod hyn yn cyd-fynd â chyfnod o wyliau a salwch o fewn y tîm diogelu ac mae hyn yn amlygu effaith diffyg capasiti o fewn y timau. Er nad yw'r ymholiadau wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod, rwyf wedi derbyn sicrwydd bod y timau gwaith cymdeithasol yn ymateb i'r ymholiadau hyn yn ystod cyfnodau o'r fath ac yn cydweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod cynllun diogelu yn ei le ac mae'r canran o achosion lle mae'r perygl wedi'i reoli yn parhau'n gyson iawn (100% ym mis Ebrill 2023).

3.5 Mae'r nifer o unigolion sy'n aros am asesiad **Diogelu rhag Amddiffyn Rhyddid** yn gyson bryderus i mi gyda'r ffigwr yn 278 ym mis Mai eleni. Mae'r nifer ar y rhestr aros yn golygu bod angen i'r gwasanaeth flaenoriaethu asesiadau a rhoi sylw i'r achosion am awdurdod brys ac achosion cymhleth. Mae'r sefyllfa'n bell o fod yn ddelfrydol ac mae'r adran yn ddibynnol ar arian grant i ymgymryd â'r gwaith oherwydd diffyg adnodd. Mae'r Llywodraeth bellach wedi cyhoeddi na fydd y trefniadau newydd oedd ar droed yn dod i rym fel yr oeddem yn ei ddisgwyl ac mae hyn yn achosi pryderon pellach o safbwynt

capasiti a chynaliadwyedd y gwasanaeth fel y mae'n sefyll. Mae'r adran wedi cadarnhau y byddent yn craffu'r drefn i sicrhau fod eu prosesau'n cyd-fynd â'r angen.

3.6 Mae ein cyfradd llenwi gwelyau mewn **cartrefi preswyl** mewnol yn parhau yn bryderus i mi (80% ym mis Ebrill 2023). Rwyf wedi derbyn eglurhad gan yr adran fod y ffigwr yma'n cynnwys gwelyau, nifer ohonynt yn rai dementia, sydd methu cael eu defnyddio ar hyn o bryd o ganlyniad i waith sy'n mynd rhagddo ar y cartrefi. Mae mwy am hyn ym mharagraff 2.3.1.

## 4. SEFYLLFA ARIANNOL

4.1 Ar sail cyfrifon 2022/23, roedd yr Adran yn gorwario £3.9 miliwn. Mae nifer o ffactorau'n cyfrannu at y gorwariant yma, gan gynnwys methiant i wireddu cynlluniau arbedion hanesyddol (oddeutu £900k), gorwariant o fewn y Gwasanaeth Gofal Cartref mewnol, a'r ffioedd ychwanegol sy'n rhaid i ni eu talu i gartrefi preswyl a nyrsio preifat er mwyn comisiynu lleoliadau addas o fewn y sir.

4.2 Bydd adolygiad cyllid cyntaf y flwyddyn 2023/24 yn digwydd yn ystod mis Awst 2023, ac mae gennyf bryder ynglŷn â'r sefyllfa ar hyn o bryd a'r her sy'n ein wynebu. Mae'r adran yn ymwybodol fod perfformiad ariannol 2022/23 wedi bod yn destun pryder sylweddol i mi, a bod y rhagolygon ar gyfer 2023/24 yn parhau yn heriol dros ben. Mae trafodaethau wedi cychwyn rhyngof a rhai o'r timau i herio'r hyn sydd y tu ôl i elfennau o'r gorwariant, a bydd angen parhau i wyntyllu elfennau eraill ac ystyried sut y gallem fynd i'r afael â nhw. Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi eu trefnu gan yr adran i drafod y cynlluniau arbedion yn benodol, gan gynnwys cynrychiolaeth o'r Adran Gyllid. Bydd y cyfarfodydd yma yn parhau fel bod modd dod i benderfyniad buan ar ba rai o'r cynlluniau arbedion sydd yn mynd i gael eu cyfarch, a pha rai sy'n afrealistig bellach ac angen eu hail-gynllunio.

4.3 Derbyniwyd grantiau unwaith ac am byth sylweddol gan y Llywodraeth yn ystod 2021/22 ac yn y blynyddoedd cyn hynny. Yn anffodus, ni chafwyd rhai o'r grantiau yma'n ystod 2022/23, ac mae hyn wedi amlygu gwir faint y dasg sydd o'n blaenau heb gael cymorth ariannol bellach.

4.4 Mae'n galonogol fod grant newydd RIF (Cronfa Integreiddio Rhanbarthol), sydd ar gyfer buddsoddi i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill, yn cael ei ymrwymo am 3-5 mlynedd. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'n partneriaid am eu syniadau a'u cydweithio wrth gynllunio i wella ac i gynnal y sector. Mae'n allweddol fod adnoddau ychwanegol i'r sector yn cael eu darparu ar sail barhaol/hir dymor er mwyn gallu ariannu rhai o'r newidiadau sydd wirioneddol eu hangen yn y maes. Byddwn fel Cyngor yn parhau i bwysleisio i Lywodraeth Cymru fod angen buddsoddiad parhaol yn y sector.

4.5 Yn fy adroddiad nesaf, byddaf yn eich diweddaru am yr union gamau sy'n cael eu cymryd i ddod i'r afael a'r gorwariant, ac i gyfarch arbedion hanesyddol, ac yn darparu amserlen er mwyn gwneud hynny.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Dim i'w nodi.

### 5.1 Barn y Swyddogion Statudol:

i. **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

ii. **Y Pennaeth Cyllid:**

Gallaf gadarnhau fod yr wybodaeth ariannol sydd yn yr adroddiad yn gyson â chynnwys yr adroddiad Alldro Refeniw 2022/23 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 13 Mehefin.

5.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

Ddim yn fater lleol.

5.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

Dim i'w nodi.